Awdur:
Yvette Vaughan Jones

Medi 2018

# STRATEGAETH ARDDANGOS CELFYDDYDAU CYMRU YN RHYNGWLADOL
## ADRODDIAD YMCHWIL 2018

Comisiynwyd gan British Council Cymru a'i gynhyrchu gan Visiting Arts



Bedwyr Williams, Tyrrau Mawr, 2016. Delwedd gosod o Artes Mundi 7. Trwy garedigrwydd yr artist ac Oriel Limoncello. Delwedd gan: Polly Thomas

## BRITISH COUNCIL CYMRU

—

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio gyda nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder. Rydym yn gweithio gyda thros 100 o wledydd ym meysydd y celfyddydau a diwylliant, Saesneg, addysg a'r gymdeithas sifil. Y llynedd, ymgysyllton ni â mwy na 75 miliwn o bobl yn uniongyrchol a 758 miliwn o bobl i gyd, gan gynnwys cysylltiadau ar-lein, darllediadau a chyhoeddiadau. Sefydlwyd y British Council ym 1934 ac rydym yn elusen yn y Deyrnas Unedig a gaiff ei llywodraethu gan Siarter Frenhinol ac yn gorff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Gwefan: wales.britishcouncil.org

Twitter: @BCouncil_Wales

Facebook: www.facebook.com/BritishCouncilWales

## VISITING ARTS

—

Mae Visiting Arts yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol ar ymchwil, hyfforddiant, rhwydweithio a phreswyliadau. Visiting Arts oedd Pwynt Cyswllt Diwylliannol y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n gyfrifol am y digwyddiad blynyddol i gynhyrchwyr sy'n ffocysu ar waith rhyngwladol yng Ngŵyl Ryngwladol Caeredin. Mae gan Visiting Arts berthynas gref â Chymru, ac yn ddiweddar bu iddynt gynnal **Kick Start: Caerdydd**, gan wahodd 19 entrepreneur creadigol rhyngwladol i Gymru. Mae gwaith ymchwil Visiting Arts yn cynnwys ymchwil Mapio Gwaith Rhyngwladol y Deyrnas Unedig i Gyngor Celfyddydau Lloegr, y Deyrnas Unedig a Tsieina; dadansoddiad o anghenion i'r British Council. Mae Yvette Vaughan Jones, sy'n arwain ar y gwaith ymchwil hwn ar arddangos yn rhyngwladol, wedi gweithio yng Nghymru ers 1994, mae'n awdur llawer o ddogfennau polisi rhyngwladol, a sefydlodd Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch arddangos yn rhyngwladol, sydd wedi bod yn fater o ddiddordeb yng Nghymru ers cryn amser. Gwahoddwyd hi hefyd i ysgrifennu cais Caerdydd ar gyfer Dinas Diwylliant Ewrop 2008, ac roedd y dyhead i arddangos y gorau o ddiwylliant Caerdydd a Chymru yn rhyngwladol wrth galon y cais.

Gwefan: www.visitingarts.org.uk

Twitter: @visitingarts

## CYNNWYS

Crynodeb Gweithredol 4

Beth yw arddangos? Pam fod ei angen arnom a beth yw'r modelau? 8

Pam cynnal yr ymchwil hwn, a pham nawr? 10

Pa asedau diwylliannol sydd gan Gymru eisoes? 12

Methodoleg, canfyddiadau a chwmpas yr ymchwil 13

Canlyniadau'r arolwg 14

Cyfweliadau â 47 o gynhyrchwyr, hyrwyddwyr, curaduron a Chyfarwyddwyr gwyliau rhyngwladol 20

Beth yw barn hyrwyddwyr / curaduron rhyngwladol am Gymru? 24

Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o arddangos celfyddydau o Gymru? 26

Beth sydd gan y sector yng Nghymru i'w ddweud: dadansoddiad grwpiau ffocws 36

Cyllido ac enillion ar fuddsoddiad 40

Casgliadau ac argymhellion 42

Atodiadau 46

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## CEFNDIR

Comisiynwyd yr adroddiad yma gan y Cyngor Prydeinig i ganfod y gwahanol fodelau arddangos a fyddai'n gweithio orau i hyrwyddo datblygiad a bwrw golau rhyngwladol ar artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymru.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod arddangos rhyngwladol bellach yn faes gorlawn a chystadleuol. Er mwyn amlygu'i hun a chystadlu gyda gwledydd eraill, mae angen i Gymru weithredu'n strategol, yn glir a beiddgar.

Mae angen y canlynol ar y sector gelfyddydol a diwylliannol yng Nghymru: mwy o artistiaid a churaduron sgilgar sy'n gallu marchnata eu hunain a'u gwaith yn effeithiol; mwy o waith 'parod i'w allforio'; mwy o gydweithio, integreiddio a rhannu strategaethau rhwng asiantaethau; modelau ariannu mwy hyblyg a hirdymor; denu mwy o hyrwyddwyr rhyngwladol i Gymru trwy ddefnyddio platfformau arddangos traws-sector; presenoldeb amlycach a chyson mewn digwyddiadau rhyngwladol; cynnig arlwy feiddgar ac apelgar sy'n rhannu cryfderau a llais unigryw Cymru gyda gweddill y byd.

Nid buddion ariannol byrdymor (elw o ganlyniad i fuddsoddi) a ddaw yn rhinwedd arddangos ond yn hytrach, sbardun artistig, cymdeithasol a phroffesiynol gyda chanlyniadau cronnol a hirdymor. Mae gan ddiwylliant ran allweddol i'w chwarae mewn diplomyddiaeth ddiwylliannol drwy dynnu sylw at y diwylliant, hanes a'r pwyntiau cyswllt sy'n gyffredin rhwng pobl. Mae'n allweddol ehangu'r ddealltwriaeth yma.

Nod yr ymchwil yma oedd ymgynghori ledled y sectorau celfyddydol a diwylliannol er mwyn cyflwyno argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth; creu man cychwyn ar gyfer sgyrsiau yn y dyfodol gyda'r sector, rhanddeiliaid allweddol, darpar arianwyr, rhaglenwyr rhyngwladol, cynhyrchwyr, curaduron a rheolwyr.

Yvette Vaughan Jones, Prif Weithredwr Visiting Arts, fu'n gyfrifol am y gwaith ymchwil. Mae gan Visiting Arts 40 mlynedd o brofiad o weithio ym maes y celfyddydau a diwylliant rhyngwladol. Cyflawnwyd yr ymchwil rhwng Mai a Gorffennaf 2018.

## CRYNODEB O DDADANSODDIAD YR YMCHWIL

Isod ceir amlinelliad o'r pwyntiau allweddol a amlygwyd gan ein hymchwil.

### 1. Mwy o fuddsoddiad mewn arbenigedd a sgiliau arddangos

**Mae angen i Gymru ddatblygu a meithrin ei churaduron a'i chynhyrchwyr creadigol a'u rhwydweithio i ganol yr ecosystem fyd-eang fel y gallant weld gwaith, gwerthu Cymru a chyfrannu i'r sgwrs ryngwladol. Mae angen hyfforddiant ar artistiaid i gryfhau eu sgiliau, gan gynnwys sgiliau gwerthu meddal a marchnata, fel y gallant fanteisio'n llawn ar bob cyfle wrth fynychu digwyddiadau arddangos rhyngwladol. Hefyd, mae angen i Gymru ddenu a meithrin mwy o raglennwyr o'r radd flaenaf.**

Mae angen i'r gwaith artistig ansawdd uchel sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru fod yn 'barod i'w allforio'. Dylai artistiaid ddatblygu gwaith newydd, blaengar ac arbenigol ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol. Er mwyn hyrwyddo hyn, mae gofyn bod cylchoedd cyllido yn caniatáu ail-lwyfannu ac arddangos y gwaith gorau.

Mae angen uwchsgilio'r sector diwylliant rhyngwladol yng Nghymru gan gynnwys y rheini sy'n mynychu digwyddiadau rhyngwladol yn gyson, swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, Masnach a Buddsoddi Llywodraeth y DU, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a rhwydweithiau tramor y Cyngor Prydeinig, fel y gallant eirioli ar ran diwylliant Cymru.

### 2. Dull gweithredu mwy hirdymor, amlasiantaethol a chydgysylltiedig

**Ar hyn o bryd, mae diffyg dilyniant a fframwaith strategol dulliau gweithredu asiantaethau rhyngwladol yn llesteirio effeithiolrwydd Cymru wrth arddangos. Mae'r llu o asiantaethau rhyngwladol sydd yng Nghymru yn creu dryswch a dyblygu.**

Byddai meithrin arferion o rannu strategaethau rhyngasiantaethol o fudd i'r sector yng Nghymru yn ogystal â buddsoddiad i sicrhau presenoldeb Cymreig cyson mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol. Hefyd, mae angen darparu dulliau cyllido mwy hirdymor, mwy hyblyg ac integredig rhwng asiantaethau.

## 3. Datblygu platfformau arddangos ar garreg ein drws

*"Ry'n ni'n rhy fach i weithio mewn seilos"*

**Mae angen datblygu platfformau arddangos yng Nghymru. Roedd mwyafrif y rhai a holwyd yn awgrymu mai adeiladu ar gefn llwyddiannau a grëwyd eisoes fyddai'r ffordd orau o arddangos gwaith o Gymru. Gellid cefnogi mentrau Cymreig o faint a chwmpas rhyngwladol er mwyn creu llwyfan ehangach i artistiaid a sefydliadau diwylliannol o Gymru a chreu mwy o sgwrs rhyngddynt ac arbenigwyr rhyngwladol.**

Nodwyd prif asedau diwylliannol Cymru gan yr ymchwil – megis Gŵyl y Gelli, Artes Mundi a Gŵyl y Dyn Gwyrdd. Ond petai un o'r rhain yn cael ei ddatblygu fel platfform arddangos, byddai angen i hynny ddigwydd mewn cydweithrediad gyda'r sector ddiwylliannol ehangach fel bo'r buddion yn cael eu rhannu ledled y sector, ac er mwyn sicrhau'r sylw mwyaf posib i waith o Gymru.

Nodwyd yr elfennau allweddol sy'n sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn llwyddiannus: gwaith sy'n creu argraff sylweddol a thanio diddordeb rhyngwladol; cyswllt â Chymru a hunaniaethau diwylliannol nodedig ac amrywiol; perthynas fyw â phobl a sefydliadau lleol. Mae'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant yn mynychu'r digwyddiadau yma gan weithredu'n strategol, gydag amcanion pendant yn seiliedig ar gryn ymchwil a golwg ar ganlyniadau clir a mesuradwy.

## 4. Angen presenoldeb arddangos cyson i Gymru ar blatfformau â gogwydd rhyngwladol

**Mae angen buddsoddiad strategol, amlasiantaethol a hirdymor ar y sector gelfyddydol a diwylliannol yng Nghymru i sicrhau presenoldeb Cymreig cyson ar blatfformau arddangos rhyngwladol er mwyn datblygu rhwydweithiau ac arbenigeddau a herio'r syniad fod Cymru rhywsut yn anweladwy.**

Ar hyn o bryd, nid yw artistiaid o Gymru'n ddigon gweladwy yn y digwyddiadau rhyngwladol allweddol. O ran arddangos, mae'r presenoldeb Cymreig yn anghyson, heb strategaeth ac yn dameidiog o'i gymharu â gwledydd bychain a rhanbarthau eraill. Yn aml, cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus sydd gan Gymru yn hytrach nag arbenigwyr o'r diwydiannau creadigol.

O ran sicrhau arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig, mae'n fwy anodd cael cefnogaeth ar gyfer digwyddiadau arddangos yn y DU nag ar gyfer rhai tramor. Eto, mae digwyddiadau arddangos yn y DU (fel Great Escape, Celtic Connections a Norwich Writers Showcase) yn bwysig iawn. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod gwerth pendant i fanteisio ar ddigwyddiadau arddangos yn y DU a bod angen creu llwybrau ariannu i alluogi hynny.

Mae angen mwy o ddatblygiad ar raglenni preswyl rhyngwladol yng Nghymru a chodi proffil y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes.

Dylid gwahodd mwy o ddigwyddiadau'r diwydiant i Gymru, fel Manifesta (celfyddydau gweledol), Cineregio (ffilm) neu gynhadledd yr American Association of Museums (treftadaeth), er mwyn arddangos gwaith o sectorau penodol, yr hyn sydd gan ddiwylliant ehangach Cymru i'w gynnig yn ogystal â thirlun a phobl y wlad.

## 5. Angen llais Cymreig unigryw a rhyngwladol

*"Mae'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn rhyfeddol, ond mae'r llais Cymreig yn llawer rhy dawel – mae angen iddo fe fod yn fwy eglur a beiddgar."*

**Wrth arddangos gweithiau celfyddydol a diwylliannol Cymru, mae angen cymryd camau arloesol ac ysbrydoledig sy'n adlewyrchu pobl, estheteg a diwylliant y wlad, yn ogystal â'i chryfderau neilltuol.**

Soniodd llawer o'r bobl a holwyd am gryfderau Cymru mewn meysydd arbenigol fel: y celfyddydau ag iechyd, y celfyddydau a'r henoed, gwaith sensitif-i-safle a gwaith ymgysylltu cymunedol.

Dengys y gwaith ymchwil bod hyrwyddwyr a churaduron allweddol yn rhoi mwy o werth ar wyliau arbenigol lle maen nhw'n gallu gweld gwaith arloesol yn hytrach na digwyddiadau arddangos o bwys. Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn dangos, os yw digwyddiad arddangos am fod yn llwyddiannus, bod angen iddo gynnig rhywbeth unigryw i hyrwyddwyr rhyngwladol.

Dangosodd ein hymchwil bod angen i gyrff ariannu rhoi mwy o flaenoriaeth i adnoddau i  farchnata gwaith er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ohono a sicrhau ei fod yn 'barod i'w allforio'.

# BETH YW ARDDANGOS? PAM FOD EI ANGEN ARNOM A BETH YW'R MODELAU?

Dod â gwaith at sylw'r bobl sy'n gweithio yn y maes o'i hyrwyddo, ei brynu neu gyfrannu ato yw arddangos. Mae ganddo lawer o wynebau, a gall arwain at ganlyniadau hirdymor. Wrth gasglu syniadau ar yr hyn y gall arddangos ei olygu i Gymru, cynigiwyd yr opsiynau canlynol i'w hystyried:

- Digwyddiadau mawr ar draws sectorau sy'n wynebu'r cyhoedd a/neu wyliau yng Nghymru.
- Ffeiriau masnach/gwyliau penodol i'r sector yng Nghymru neu dramor.
- Dod â dirprwyaethau rhyngwladol i Gymru i weld gwaith.
- Presenoldeb mewn gwyliau, ffeiriau masnach a digwyddiadau arddangos dramor.
- Mynd i deithiau masnach neu ddigwyddiadau gwleidyddol eraill, nad ydynt yn canolbwyntio ar ddiwylliant neu'r celfyddydau.
- Creu cyfleoedd i arddangos Cymru mewn dinasoedd mawr megis Llundain, Manceinion, Berlin, ac Efrog Newydd.
- Gweithiau 'syfrdanol' un tro a all weithredu fel catalydd i ddenu hyrwyddwr rhyngwladol.

Mae'r drafodaeth ynghylch y dull gorau o arddangos yn rhyngwladol yn un sydd o hyd yn peri pryder i wledydd bach. Mae llai o adnoddau ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru na Lloegr a'r Alban, ac eto yr un yw'r costau ar gyfer digwyddiadau mawr ynghyd ag isadeiledd i raddau helaeth.

Ar yr un pryd, mae cynhyrchwyr, curaduron a chyfarwyddwyr gwyliau proffesiynol rhyngwladol yn llai parod i ddod i wledydd bach, ac mae angen strategaethau ychwanegol. Mae llai o gyllid ar gael yn gymharol ar gyfer unrhyw beth heblaw am refeniw, ac felly mae'r dadleuon ynghylch gwerth am arian yn bwysicach fyth.

Mae llawer o fanteision i arddangos yn rhyngwladol. Maent yn cynnwys:

- adfywio artistig a chlod proffesiynol;
- gosod safle'r wlad a'i gwneud yn lle mwy dengar ac atyniadol i ymweld â hi, symud yno neu i wneud busnes yno;
- creu marchnadoedd, cyfleoedd a ffyrdd newydd o weithio;
- archwilio eiddo deallusol y gwaith yn ehangach;
- creu ffrydiau incwm newydd. Fel enghraifft, bu i werthusiad diweddar o effaith economaidd ffilmio'r Gwyll yn Aberystwyth ddangos lluosydd o 1:6 o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r dre.

Er mai'r gyrrwr pennaf ar gyfer arddangos yw datblygu marchnadoedd newydd ar gyfer artistiaid a sefydliadau diwylliannol, gall arddangos hefyd ddarparu llwyfan ar gyfer cymunedau gwasgaredig. Bu i'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon a Phrif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru grybwyll hyn mewn cyfweliadau. Cyfeiriwyd at ddiplomyddiaeth ddiwylliannol, twristiaeth a mantais economaidd fel canlyniadau pwysig i arddangos llwyddiannus.




FOCUS Wales 2018. Llun gan: Ben Jones

# PAM YR YMCHWIL HWN? PAM NAWR?

Comisiynwyd yr adroddiad hwn i nodi modelau gwahanol a all gefnogi datblygiad ac amlygiad artistiaid a sefydliadau celfyddydol Cymru i'r diwydiant rhyngwladol, o fewn yr hyn sy'n dirlun cenedlaethol a rhyngwladol cystadleuol a phrysur ar hyn o bryd. Gallai hyn olygu digwyddiad arddangos rhyngwladol blynyddol neu ddwyflynyddol yng Nghymru. Fel arall, gallai olygu datblygu rhestr o artistiaid a pherfformwyr  o Gymru sy'n barod i berfformio mewn arddangosiadau eraill megis Marchnad Celfyddydau Perfformio Tokyo, Cymdeithas Ryngwladol y Celfyddydau Perfformio, Gŵyl Gelfyddydau Perfformio Shanghai, Gŵyl Theatr Dulyn neu South by Southwest ac ati.

Yn wahanol i lawer o wledydd a rhanbarthau/dinasoedd bach, nid yw Cymru eto'n elwa ar gynnal ei llwyfan diwylliannol rhyngwladol blynyddol na dwyflynyddol, er bod llawer o wyliau a llwyfannau arddangos ardderchog sy'n denu presenoldeb rhyngwladol y gellid eu datblygu â chydweithrediad y sector ehangach.

Nodau'r ymchwil hwn yw:

- cyfuno ymchwil arddangos sydd eisoes yn bodoli a'i osod yng nghyd-destun Cymru
- mapio'r tirlun presennol yng Nghymru a'r arferion gorau y tu hwnt iddi
- darparu argymhellion yn seiliedig ar ymgynghoriad â'r sector y tu mewn a'r tu allan i Gymru o ran beth yw'r dull gorau o arddangos yng Nghymru dan arweiniad y sector gan ffocysu ar y diwydiant.

Mae'r ymchwil rydym wedi'i gynnal yn cynnwys yr holl sector ac mae'n edrych y tu hwnt i ffurfiau celfyddydol. Mae'n nodi'r cyfleoedd gorau i Gymru ac yn darparu argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth fel man cychwyn i drafodaethau pellach.

## CYD-DESTUN

Cynhaliwyd yr ymchwil yma o Ebrill - Gorffennaf 2018. Ar yr adeg hon, roedd llywodraeth y Deyrnas Unedig yng nghanol trafodaethau am amodau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yng Nghymru, ar lefel llywodraethol, mae hyn wedi sbarduno diddordeb cynyddol yn ei strategaeth ryngwladol gyffredinol, a chymerwyd camau i gryfhau'r strategaeth ac i gynnwys y celfyddydau a diwylliant yn rhan ohoni. Mae'r sector diwylliannol mewn trafodaethau am y ffordd orau o leihau'r diffyg mynediad at gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol, ac efallai yr un mor bwysig, y diffyg mynediad at arferion gorau, rhwydweithiau ac ymgysylltiad yn rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd.

Mae awdurdodau lleol ar draws Cymru a gwledydd Prydain hefyd yn newid eu perthynas â'r celfyddydau; maent yn gweithredu'n debycach i hwyluswyr na chyllidwyr wrth i'w cyllidebau dynhau. Maent mewn sefyllfa anodd wrth i adnoddau leihau ac i alw ar eu gwasanaethau statudol gynyddu.

Mae'r tuedd yng nghyllid yr Undeb Ewropeaidd drwy'r rhaglen ddiweddaraf, Ewrop Greadigol, wedi symud o gefnogaeth i 'gyflenwi', sef creu gweithiau, i 'alw', sef ysgogi'r cynulleidfaoedd a'r defnyddwyr. Ar yr un pryd, mae cyllid ar gyfer y celfyddydau drwy'r cynghorau celfyddydau yng ngwledydd Prydain wedi symud tuag at gyllido penodol yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn benodol, tuag at ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy amrywiol. Mae hyn wedi'i ysgogi'n rhannol gan y defnydd cynyddol o gyllid loteri, sydd â'r nod drwy ei ethos o gyrraedd cymunedau sydd, yn draddodiadol, yn ymgysylltu llai â gwaith y celfyddydau. Mae hyn hefyd mewn ymateb i nifer o adroddiadau sydd wedi dangos datgysylltiad rhwng yr hyn mae pobl ei eisiau a lle caiff cyllid ei gyfeirio. Mae hyn yn golygu y gellid ystyried bod cyllid ar gyfer gwaith rhyngwladol yn llai pwysig, oni bai ei fod wedi'i gysylltu â datblygu grwpiau gwasgaredig. Mae llawer o fentrau rhyngwladol yn rhai hirdymor, ac mae'r enillion ar fuddsoddiad yn cymryd mwy o amser. Maent felly'n fwy agored i wynebu toriadau.

## CYD-DESTUN CYMRU

Yng Nghymru, mae diwylliant yn faes datganoledig ac mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, wedi gallu llunio cyfres o flaenoriaethau gwahanol i Loegr a'r Alban. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw mentrau Dysgu Creadigol mewn Ysgolion, celfyddydau mewn iechyd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a dwyieithrwydd, a all gynnig naratif mwy unigryw i Gymru'n rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r sector celfyddydau a diwylliannol yng Nghymru yn wynebu heriau sylweddol:

- Llai o ddibyniaeth ar gyllido cyhoeddus. Ar gyfartaledd, mae sefydliadau celfyddydol Cymru yn derbyn cymhorthdal cyhoeddus uwch na'r rhai yn Lloegr.
- Yr angen i ddatblygu mwy o berthynas ag anghenion a chanfyddiadau cynulleidfa leol ac i sicrhau bod gwaith yn berthnasol.
- Mwy o angen i greu incwm.
- Mwy o gystadleuaeth wrth geisio cynyddu amlygrwydd gan fentrau mawr megis Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig, y Great Northern Exhibition ac ati.

Er gwaethaf anawsterau cyllido, mae Cymru'n parhau i dyfu ei gwyliau a'i chwmnïau mawr sydd wedi cynnal enw da yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd wedi cael llawer o lwyddiant gyda digwyddiadau yn ddiweddar, sydd wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol mawr ac amrywiol, ac wedi denu sylw o'r tu hwnt i Gymru: yn benodol, Dinas yr Annisgwyl Roald Dahl, Gŵyl Canmlwyddiant Dylan Thomas, a Passion gan National Theatre Wales. Mae awydd mawr am ddigwyddiadau graddfa fawr sydd wedi'u curadu a'u rhedeg yn dda ymhlith y sefydliadau perthnasol, y cyhoedd a chyrff cyhoeddus. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y grŵp ffocws ar gyfer yr ymchwil hwn a gynhaliwyd yn Abertawe, lle mae'r sector yn dal i fod yn llawn egni ar ôl y profiad o wneud cais ar gyfer Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig. Trafodir beth yw'r ffordd orau o fanteisio ar y digwyddiadau hyn yn yr adroddiad hwn.

# PA ASEDAU ARDDANGOS DIWYLLIANNOL SYDD GAN GYMRU EISOES?

Mae'n amlwg o'r cyfweliadau, pan fo pobl yn gwybod am Gymru, mai ei hasedau diwylliannol sydd fwyaf adnabyddus.

Y rhai a grybwyllwyd amlaf mewn ymateb i'r ymchwil hwn oedd:

- Gŵyl y Gelli
- Artes Mundi
- Cymru yn Fenis
- Gŵyl y Dyn Gwyrdd
- Casgliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Gŵyl Rhif 6
- Gŵyl y Llais
- Canwr y Byd Caerdydd y BBC
- Gŵyl ffilmiau IRIS.

Fodd bynnag, mae'r gwyliau hyn hefyd yn cyflwyno rhai heriau o ran arddangos; nid oes ymdrech gydlynol amlasiantaethol i gefnogi cyfoedion, cyflwynwyr a hyrwyddwyr rhyngwladol yn y digwyddiadau hyn. Yr ymateb mwyaf cyffredin ymhlith cyfweleion o'r tu allan i Gymru oedd:

*'Mae cynnig anhygoel yng Nghymru, ond mae'n rhy dawel – mae angen iddo fod yn gliriach ac yn fwy beiddgar.'*

Cytunodd Siambr Fasnach De Cymru mai'r datganiad uchod yw'r hyn maen nhw'n ei glywed y tu allan i Gymru. Ychwanegodd y Siambr fod busnesau yn cael llwyddiant allforio wrth hyrwyddo Cymru dramor drwy gysylltu â'r Deyrnas Unedig fel brand cryf o ansawdd da.

Ymhlith nodweddion cyffredin y mentrau llwyddiannus uchod mae:

- Arweinyddiaeth gref gyda gweledigaeth, uchelgais ac egni clir y sefydliadau.
- Gwaith rhyngwladol wrth eu calon yn hytrach na'r awydd i arddangos gwaith o Gymru; mae arddangos Cymru yn digwydd mewn modd mwy cynnil.
- Ennill parch oddi mewn i'w diwydiannau drwy ymgysylltu ag arweinwyr y diwydiant o'r tu allan i Gymru.

Awgrymodd y mwyafrif o bobl a gyfwelwyd mai adeiladu ar y llwyddiannau hyn oedd y ffordd orau o arddangos gwaith Cymru yn hytrach na chreu cyfrwng o'r newydd. Roedd drwgdybiaeth gyffredinol ynghylch mentrau gwleidyddol neu'r sector cyhoeddus yn arddangos Cymru drwy ei sector celfyddydol. Roedd llawer mwy o bwyslais ar ddatblygu cyfryngau y mae pobl yn eu parchu ac yn ymddiried ynddynt, lle gellid arddangos celfyddydau ac artistiaid Cymru mewn cyd-destun mwy amrywiol ochr yn ochr â gwaith o wledydd eraill. Rydyn ni'n archwilio rhai modelau yn yr adroddiad hwn.

# METHODOLEG, CANFYDDIADAU A CHANLYNIADAU'R YMCHWIL

Roedden ni eisiau i'r sector ei hun arwain ein dull o nodi opsiynau ac argymhellion ynghylch sut y gallai gynnal gwaith arddangos yn fwy effeithiol. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2018, cynhaliom gyfweliadau un i un ac arolwg ar-lein a oedd yn caniatáu i bobl siarad yn fwy eang am Gymru a'u canfyddiadau o'i safle yn y darlun celfyddydol a diwylliannol rhyngwladol. Cynhaliom hefyd:

- ymchwil desg ar yr adroddiadau arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli am y pwnc
- arolwg dwyieithog ar-lein ar draws Cymru, gyda 70 o ymatebwyr
- Pedwar grŵp ffocws yn Llandudno, Aberystwyth, Caerdydd ac Abertawe, gyda 44 yn bresennol i gyd
- 47 o gyfweliadau gydag arbenigwyr lleol a rhyngwladol.

Dyluniwyd y dull gan gadw mewn cof y dylai'r argymhellion ganolbwyntio'n bennaf ar y diwydiant (ond heb fod yn gyfyngedig iddo), yn hytrach na'r cyhoedd, ac mae angen i'r opsiynau ddarparu enillion sylweddol ar fuddsoddiad cyhoeddus.

Mae grŵp rhanddeiliaid o ddylanwadwyr o Gymru wedi bod yn rhan o wneud argymhellion ac awgrymiadau drwy gydol y broses.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio'r term 'y sector' i gyfeirio at sectorau a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r sector amgueddfeydd a threftadaeth, ffilm a theledu. Er gwaetha'r symudiad tuag at ddulliau aml-lwyfan, nid ydym wedi cynnwys ffurfiau eraill o gyfryngau sgrin, ac nid ydym chwaith wedi cynnwys sectorau creadigol megis dylunio, pensaernïaeth na ffasiwn. Y rhesymeg dros hyn yw bod y sectorau hynny'n dueddol o weithio y tu allan i'r sector cyhoeddus, sef y sector y mae'r mwyafrif o'r argymhellion a'r ymyriadau hyn yn berthnasol iddo. Mae cefnogaeth i'r sectorau hyn yn dod o strwythurau datblygu busnesau bach ar hyn o bryd. Awgrymwyd mewn rhai sylwadau yn y cyfweliadau y byddai'r sector cyfan yn elwa ar fod yn fwy integredig.

Rydym hefyd wedi edrych y tu hwnt i'r sectorau celfyddydol a diwylliannol am enghreifftiau eraill o arddangos Cymru.

# CANLYNIADAU'R AROLWG

Yn yr adran hon rydym yn crynhoi'r ymatebion ac yn nodi prif ganfyddiadau'r arolwg ar-lein, a gynhaliwyd yn ystod mis Mai 2018.

## YNGLŶN Â'R YMATEBWYR

- Roedd 42% o'r ymatebwyr o'r de ddwyrain, a dim ond 4.5% oedd o'r gogledd ddwyrain.
- Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn gweithio ym maes y celfyddydau gweledol (52%) a pherfformio (49%), mae llawer o bobl hefyd yn gweithio ym myd llenyddiaeth (28%), ffilm/teledu/animeiddio (26%), cerddoriaeth (26%) neu ar draws ffurfiau celfyddydol (26%).
- Mae'r ymatebwyr yn gweithio ym maes addysg yn bennaf (67%). Mae llawer yn gweithio ym maes cyflwyno, cynhyrchu neu lwyfannau digidol (46%) a chynhyrchu gwyliau (26%), ac roedd rhai yn cynnig cymorth busnes (14%) a thechnegol (12%).
- Mae'r sectorau creadigol a diwylliannol a gynrychiolir yn yr arolwg hwn yn gweithio llawer â phobl ifanc (85%), plant (68%) a'r henoed (63%), ynghyd â llawer o bobl a chymunedau eraill. Mae llai o bwyslais ar ymfudwyr a phobl wedi'u dadleoli (32%). Bu i ymatebwyr hefyd grybwyll iaith, myfyrwyr, menywod a chynulleidfaoedd gwledig.
- Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cyflogi hyd at dri aelod o staff (67%) ac roedd 5% yn cyflogi dros 50 aelod o staff. Mae gan 24% drosiant blynyddol sydd rhwng £20-£100 mil, ac mae gan 1.7% drosiant blynyddol o fwy na £5miliwn.
- Caiff y gwaith ei gyllido'n bennaf gan ffynonellau cyhoeddus/swyddogol (33.8%) ac incwm a enillir (31.6%). Caiff 10.3% o'r gwaith ei gyllido gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, 8.1% gan roddion neu'r sector preifat, a chaiff 16.2% o'r gwaith ei gyllido mewn ffyrdd eraill.

### DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Mae'r ymatebwyr wedi'u gwasgaru'n anghyfartal ar draws Cymru, sy'n adlewyrchu'n rhannol ddwyster poblogaeth y de ddwyrain a'r de orllewin, ond mae'n dal i ddangos diffyg cynrychiolaeth o'r gogledd ddwyrain. Roedd y grwpiau ffocws hyn hefyd yn dangos ymgysylltiad is na'r disgwyl gan artistiaid y gogledd.

Dangosodd y gwasgariad o ffurfiau celfyddydol sbectrwm eang, ac roedd ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ffurf gelfyddydol, sy'n adlewyrchu'r gwasgariad hwn.

Mae'n ddiddorol nodi'r gyfran uchel iawn o ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn meysydd penodol, er enghraifft gyda phobl ifanc, plant a'r henoed. Mae hyn yn awgrymu, fel y nododd rhai cyfweleion, mai un o gryfderau Cymru yw ei gwaith mewn meysydd arbenigol – ym maes addysg, iechyd, gyda phobl ag anghenion penodol, mewn ardaloedd gwledig ac ati. Mae'r nodweddion hyn yn apelgar i wledydd eraill, a gallent ffurfio rhan o'r cynnig celfyddydol a diwylliannol rhyngwladol.

Mae'r gyfran uchel o sefydliadau sy'n cyflogi rhwng 1 a 3 o bobl hefyd yn dangos bod anawsterau wrth ganfod amser a gallu i ymgysylltu mewn gwaith rhyngwladol.

Mae'r ddibyniaeth drom ar gyllid cyhoeddus yn amlwg, ac mae 33.8% o'r cyllid yn dod o'r sector cyhoeddus.

## ASTUDIAETH ACHOS
COMISIYNU ARTISTIAID I ARDDANGOS DRAMOR

### Cymru yn Fenis | Wales in Venice

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, gyda chefnogaeth a chydweithrediad Llywodraeth Cymru a'r British Council, wedi comisiynu artistiaid sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg i gyflwyno eu gwaith fel rhan o ddigwyddiad cyfochrog yn Biennale Fenis ers 2003. Yn 2017, curadwyd hyn gan Chapter yng Nghaerdydd, a James Richards oedd yr artist a ddewiswyd. Mae artistiaid a arddangoswyd yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i gael eu gwahodd i arddangos gwaith mewn ystod eang o wledydd, a nododd y curaduron fod mwy o ddatblygiad proffesiynol a manteision ychwanegol i'w sefydliadau.

- £40,000 yw'r gyllideb ar gyfer y prosiect dwy flynedd ar hyn o bryd, ac mae'n cynnig cyrhaeddiad at 300,000+ o ymwelwyr y Biennale Celf, gan gynnwys 30,000 o guraduron, beirniaid, casglwyr, artistiaid, a chynrychiolwyr gwleidyddol a diwylliannol allweddol a rhyngwladol, sy'n mynd i'r rhagddangosiad tri diwrnod o hyd.
- Mae rhaglenni cysylltiedig yn cynnwys Goruchwylio Arbennig, bwrsariaethau teithio, adnoddau, sgyrsiau, digwyddiadau, cysylltiadau, ac oedd pawb yn unfryd o'r farn bod eu datblygiad proffesiynol wedi gwella.
- Lle bo'n briodol, gellir ail-lwyfannu'r arddangosiad a gynhyrchwyd ar gyfer y Biennale yng Nghymru neu i deithio o amgylch gwledydd Prydain neu'n rhyngwladol. Yn 2017, crëwyd gosodiad James Richard o ganlyniad i gyfnod preswyl yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Cafodd Cymru a'r Alban gronfa gymorth fawr gan Art Fund i fynd â'u harddangosiadau o Fenis o gwmpas gwledydd Prydain.
- Ystyrir bod presenoldeb Cymru yn y Biennale wedi cael effaith hynod o gadarnhaol, o ran adeiladu proffil ac enw da am ansawdd ar lefel ryngwladol. Ymhlith yr effeithiau a'r manteision i'r artistiaid, y curaduron a'r sector celfyddydau gweledol yn gyffredinol yng Nghymru mae rhagor o arddangosiadau, preswyliadau, a chyfleoedd datblygu proffesiynol yn rhyngwladol. Yn ogystal, mae rhwydweithiau a phartneriaethau newydd rhwng cynrychiolwyr asiantaethau celfyddydol cenedlaethol a/neu sefydliadau llywodraethol eraill hefyd wedi'u datblygu o ganlyniad i bresenoldeb yn y Biennale.
- Awgrymodd arolwg diweddar y gellid gwneud mwy i sicrhau ymwybyddiaeth a sylw i broffil y sioe yng Nghymru, yn enwedig ymhlith y cyhoedd. Cynigiwyd y dylid cysylltu hyn â strategaeth gyson fwy hirdymor ar gyfer hyrwyddo sector celfyddydau gweledol Cymru'n gyffredinol.

experiencewalesinvenice.org

## YMATEBION I’R CWESTIYNAU A HOLWYD

Beth yw eich dealltwriaeth chi o arddangos yn rhyngwladol, a beth yw eich profiad chi ohono?

Canfuom y canlynol:

- Roedd arddangos yn rhyngwladol yn bennaf yn golygu mynd a chymryd rhan mewn gwyliau, ffeiriau, a digwyddiadau dramor, teithio ac arddangos dramor, preswyliadau a rhaglenni cyfnewid, neu fynd a chymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngwladol yng Nghymru a gwledydd Prydain.
- Roedd 64% yn teimlo bod arddangos yn rhyngwladol yn bwysig iawn / yn flaenoriaeth uchel.
- Roedd 70% wedi mynd i hyd at 10 digwyddiad arddangos rhyngwladol yng ngwledydd Prydain (roedd 34.8% wedi bod i 3 neu lai) yn y pum mlynedd ddiwethaf, roedd 16.7% heb fod i ddim un, ac roedd 3% wedi bod i dros 20 o ddigwyddiadau arddangos yn y cyfnod hwn.
- Er nad oedd 31.3% wedi bod i ddigwyddiadau arddangos dramor yn y pum mlynedd ddiwethaf, roedd 34.3% wedi bod i hyd at 3 digwyddiad arddangos, 23.9% i hyd at 10 digwyddiad, 7.5% i hyd at 20 digwyddiad, a 3% i fwy na 20.
- Ymhlith y digwyddiadau arddangos rhyngwladol poblogaidd yng ngwledydd Prydain a thramor mae Biennale Fenis, Gŵyl Ryngwladol ac Ymylon Caeredin, Showcase Caeredin, CINARS, WOMEX, FOCUS Cymru ac Artes Mundi.
- Ystyrir mai rhwydweithio a chreu partneriaethau newydd yw manteision allweddol digwyddiadau arddangos rhyngwladol (72%), yna gweld gwaith newydd (62%), a dysgu am ddulliau a gwaith arloesol o wledydd eraill (59%).
- Y prif uchelgeisiau o ran gwaith ac arddangos rhyngwladol yw datblygu arfer artistig/proffesiynol, ynghyd â phartneriaethau a chyweithiau newydd. Mae sylwadau eraill yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o Gymru a’i hartistiaid.
- Pe cynhelid menter arddangos ryngwladol yng Nghymru, byddai’r sector yn dod â gwerth mawr drwy arbenigedd/perfformiadau/arddangosiadau artistig/proffesiynol (88%), a rhwydweithiau a chysylltiadau presennol (64%). Gallai 25% gynnig gwasanaeth yn gweithio’n ddwyieithog.
- Y prif rwystr rhag arddangos yn rhyngwladol yn effeithiol yw diffyg cyllid i fynd i ddigwyddiadau arddangos mawr (74%), yna diffyg cyfleoedd yng Nghymru (64%), ynghyd â chyllid i fynd i ddigwyddiadau arddangos mawr yng ngwledydd Prydain (64%). Roedd gan yr ymatebwyr lawer o safbwyntiau eraill i’w cyfrannu at y pwnc hwn.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo mai gwella mentrau rhyngwladol presennol yng Nghymru, yn enwedig rhaglenni cyllido, fyddai’n cael yr effaith fwyaf ar arddangos yn rhyngwladol yng Nghymru (61%), wedi’i ddilyn yn agos gan ddatblygu rhaglenni comisiynu/partneriaeth ryngwladol newydd (59%) a chryfhau’r rhwydwaith o raglenni preswyl rhyngwladol (59%).

## DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Mae'r dehongliad o arddangos yn rhyngwladol yn datgelu sbectrwm eang o ymatebion. Roedd y 5 prif opsiwn o 8 yn sgorio rhwng 70% ac 80%, gan awgrymu bod pobl yn canfod mai'r ystod o fentrau sy'n effeithiol yn hytrach na'u bod yn ffafrio un dull penodol. Sgoriodd preswyliadau artistiaid yn uchel hefyd.

Mae'r nifer uchel o bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol yng ngwledydd Prydain (70%) yn awgrymu yr ystyrir hyn yn strategaeth effeithiol. O ystyried hyn, mae'n peri syndod nad oedd 16.7% wedi bod i ddigwyddiad arddangos yng ngwledydd Prydain o gwbl. O ran presenoldeb mewn digwyddiadau arddangos dramor, mae'r ffigur diffyg presenoldeb yn cynyddu, sydd o bosib yn ymwneud â chost, capasiti a mynediad at gyllid. Er hynny, roedd y rhai a oedd wedi bod yn dangos ymrwymiad i hynny, gyda 34.3% wedi mynd i hyd at 3 digwyddiad arddangos, 23.9% wedi mynd i hyd at 10 digwyddiad, 7.5% wedi mynd i hyd at 20, a 3% wedi mynd i dros 20.

Caiff dros 150 o ddigwyddiadau arddangos eu crybwyll yng Nghymru, gwledydd Prydain, Ewrop a lleoliadau rhyngwladol ehangach, gyda phob ffurf gelfyddydol wedi'i chynnwys. Mae'r ystod hefyd yn amrywio o'r gwyliau mawr a biennales (megis Biennale Fenis, Gŵyl Ryngwladol Caeredin, Sculpture Objects Functional Art and Design) i'r rhai mwy penodol (Dark Days Gwlad yr Iâ, Four Winds, a De Cymru Newydd er enghraifft).

Wrth sgorio'r manteision, mae'n ddiddorol nodi mai rhwydweithio a chreu cysylltiadau newydd a chyweithiau a sgorir uchaf. Mae pobl yn deall mai adeiladu perthnasau yw rhan bwysicaf gweithio'n rhyngwladol. Mae hyn yn cymryd amser, ac nid oes ganddo ganlyniadau uniongyrchol o reidrwydd. Yn aml mae'n anodd gwerthuso canlyniadau uniongyrchol gweithgarwch rhyngwladol, a gaiff ei awgrymu yn y canlyniad hwn. Mae gweld gwaith newydd, datblygu syniadau a chysylltiadau artistig a dysgu dulliau newydd hefyd wedi'u gosod yn uchel ar y rhestr, sy'n awgrymu bod gwybodaeth ac arbenigedd yn bwysig.

Mae'r uchelgais am waith rhyngwladol a beth gall sefydliadau ei gynnig mewn perthynas ag arddangos yn dilyn y tuedd hwn, drwy sgorio arfer artistig/proffesiynol a phartneriaethau a chyweithiau ar frig y rhestr o ganlyniadau. Roedd yn ddiddorol gweld y nifer uchel o ymatebwyr a nododd gynyddu ymwybyddiaeth o Gymru fel canlyniad delfrydol allweddol, ynghyd â datblygu Cymru fel brand. Roedd hefyd y cynnig o ddysgu gan gyfoedion, ymweliadau â stiwdios a chyflwyniadau.

## BETH YW'R RHWYSTRAU RHAG ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL?

Canfuom y canlynol:

Y prif rwystr yw diffyg cyllid i fynd i ddigwyddiadau arddangos dramor, yr ail yw diffyg cyfle yng Nghymru i arddangos gwaith a diffyg llwybrau cyllido i fynd i ddigwyddiadau arddangos yng ngwledydd Prydain.

Mae diffyg adnoddau ar gyfer arddangos yn thema gyffredin, ynghyd â diffyg cynllunio strategol yng Nghymru i'w gefnogi; mae'r ymatebwyr yn gofyn yn daer am ddull mwy strategol a chydlynol gan gyrff cyhoeddus Cymru i gydweithio.

Mae siomedigaeth yn y rhwyg rhwng y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau a diwylliant, ac roedd llawer o drafodaeth am becynnau cyllido cymhleth sydd wedi'u rhoi at ei gilydd nad ydynt yn addas at weithio'n rhyngwladol. Mae'r nifer fawr o asiantaethau sydd â diddordeb mewn gweithio dramor yn golygu bod:

- *'Gormod o waith gweinyddol yn rhan o wneud ceisiadau sy'n cymryd llawer o amser';*
- *'Diffyg undod mewn strategaeth ryngwladol';*
- *'Diffyg gweledigaeth ac adnoddau cyllidol mewn perthynas â chyfieithiadau ac arddangos yng Nghymru'; ac*
- *'Isadeiledd teithio gwael'.*

### DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Mae llawer o bwyslais ar wella'r ddarpariaeth bresennol, yn hytrach na chreu mentrau newydd. Mae'r syniad o ddatblygu rhaglen gomisiynu/bartneriaeth o ddiddordeb, ynghyd â chryfhau rhaglenni preswyl. Mae hyn yn awgrymu bod y sector yn edrych am yr adnoddau i gynnal eu rhaglenni gwaith, yn hytrach na bod eisiau cyfryngau newydd ar eu cyfer.

Mae hefyd yn nodedig bod denu mwy o ddigwyddiadau/ffeiriau arddangos rhyngwladol i Gymru (ar draws pob sector) yn uchel ar y rhestr.

## PA BROFIAD GWAITH RHYNGWLADOL ARALL SYDD GENNYCH?

Canfuom:

- Er mai yng ngwledydd Prydain ac Unol Daleithiau America roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi bod i ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol – roedd yr Almaen, Awstralia, Sbaen, Ffrainc, India a Chanada hefyd yn ddewisiadau poblogaidd.
- Caiff perthnasau eu trefnu fwyaf drwy berthnasau'r unigolyn/sefydliad ei hun (84%). Mae rhwydweithiau proffesiynol hefyd yn frocer pwysig (51%), wedi'u dilyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru/Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (35%) a'r British Council (23%).
- Caiff perthnasau eu cychwyn drwy gysylltiadau personol/proffesiynol yn bennaf (86%). Mae mynd i ddigwyddiadau arddangos yng ngwledydd Prydain a thramor yn cyfrannu at ffurfio 68% o berthnasau, ac mae 52% o ganlyniad i wahoddiadau gan hyrwyddwyr/curaduron/timau gwyliau ac ati. Daw 10% o ganlyniad i sefydliadau diwylliannol, a dim ond 5% gan lysgenadaethau neu gynrychiolwyr diwylliannol.
- Ariennir gwaith yn bennaf gydag adnoddau personol yr ymatebydd (76%). Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu 51%, hyrwyddwyr tramor (36%), a'r British Council neu sefydliadau diwylliannol eraill (22%).
- Roedd 32.7% o waith tramor yn cyfrannu at gyllideb gyffredinol prosiectau mawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn 9% o'r achosion, roedd y gwaith hwn yn cyfrannu rhwng £100,000 - £500,000. Roedd 30.8% yn dweud bod gwaith dramor yn costio, gan amlaf hyd at £5000 (73%).

### DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Mae mwyafrif y digwyddiadau arddangos rhyngwladol wedi bod yn benodol i'r sector yn hytrach nag ar draws sectorau.

Gwnaed y mwyafrif o gysylltiadau drwy berthnasau personol/proffesiynol, yn hytrach na thrwy asiantaethau neu lysgenadaethau; mae hyn yn dangos gwerth rhwydweithio a gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth rhwng cyfoedion.

Dim ond traean yr ymatebwyr a ddywedodd bod y gweithgarwch yn cyfrannu at eu cyllidebau cyffredinol. Mae hyn yn awgrymu y bernir enillion ar fuddsoddiad yn ôl enillion nad ydynt yn rhai ariannol a/neu fod rhai o'r rhaglenni, megis rhaglenni a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, yn eu hatal rhag gwneud elw ariannol. Mae angen ymchwil pellach ar ddeall y cyllid sy'n rhan o weithio dramor.

## BETH YDYCH CHI'N YSTYRIED YW PRIF EFFEITHIAU GWAITH RHYNGWLADOL?

Canfuom:

- Mae ymatebwyr yn dweud wrthym mai prif fantais gwaith rhyngwladol yw safle a phroffil mwy proffesiynol yng Nghymru a'r tu hwnt iddi (82%) a rhagor o sgil ac ysbrydoliaeth broffesiynol/artistig (81%). Ni wnaeth rhagor o hyfywdra a chapasiti ariannol gystal, gyda 18% yr un.
- Anhawster wrth gael mynediad at arian ar gyfer cyflawni prosiect (68%), ynghyd ag ymchwil a datblygu (58%), a diffyg amser ac adnoddau (59%) yw'r prif rwystrau rhag datblygu gwaith rhyngwladol. Yn gyffredinol, nid yw'r sector yn teimlo bod diffyg sgiliau artistig yn rhwystr.
- Y math o gefnogaeth yr ystyriwyd y byddai'n helpu i ddatblygu perthnasau rhyngwladol a gwaith dilynol oedd fframwaith strategol ar gyfer gweithio'n rhyngwladol (60%) a chyllid hirdymor hyblyg (58%).

### DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Mae ymchwil yn dangos mai effeithiau pwysicaf gweithio'n rhyngwladol yw cynnydd ym mhroffil ac ysgogiad artistig/ proffesiynol, yn hytrach na chanlyniadau ariannol byrdymor. Mae hyn awgrymu eto bod angen ystyried yr effeithiau hyn wrth gyfrifo enillion ar fuddsoddiad.

Y prif rwystrau rhag cynyddu gwaith rhyngwladol yw mynediad at gyllid, diffyg amser i ddatblygu rhaglenni a diffyg fframwaith strategol y gellir gweithio oddi mewn iddo. Mae hefyd awydd i gael gwell mynediad at froceriaid/cynhyrchwyr – y canolwyr proffesiynol a all hwyluso perthnasau.

Roedd yn amlwg bod y sector yn teimlo bod angen fframwaith mwy strategol a newid yn y ffyrdd y caiff cyllid ei weinyddu i greu system gyllid mwy hirdymor a hyblyg.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys yr angen am fuddsoddiad hirdymor a pharhaus.

## BETH YW EICH ANGHENION GWYBODAETH A SGILIAU?

Canfuom y canlynol:

- Y prif ffyrdd o ganfod gwybodaeth am arddangos yn rhyngwladol oedd drwy wybodaeth yr ymatebwyr eu hunain, a gafwyd o ryngweithio (78%) a chan gydweithwyr/cyfoedion/ar lafar (76%). Nododd eraill y cyfryngau cymdeithasol, ymchwil desg a gwybodaeth gan bartneriaid rhyngwladol neu gylchlythyrau cyrff cyllido.
- Bwletinau drwy e-bost yw'r ffordd sydd orau ganddynt i gael gwybodaeth am arddangos yn rhyngwladol (92%), wedi'i ddilyn gan hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol (38%), cylchlythyrau (32%), ac wyneb yn wyneb.
- Datblygir sgiliau orau drwy rwydweithio a datblygu â chyfoedion (79%) diwrnodau hyfforddi/gweithdai (73%). Nid yw adnoddau ar-lein yr un mor ddefnyddiol, a 25% o'r ymatebwyr oedd yn ffafrio'r dull hwn.
- Mae 16.9% o'r ymatebwyr wedi meithrin cynulleidfa o dros 10,000 yng Nghymru, mae gan 13% gynulleidfa o dros 10,000 yng ngwledydd Prydain, a dim ond 5.5% sydd wedi llwyddo i dyfu cynulleidfa o dros 10,000 yn rhyngwladol.

### DADANSODDIAD O'R CANFYDDIADAU

Roedd mwyafrif llethol y bobl yn dweud eu bod nhw'n cael eu gwybodaeth gan gyfoedion ar y cyfryngau cymdeithasol/ ar-lein. Mae hyn yn amlygu'r angen am ddigwyddiadau a mentrau rhwydweithio a rhannu gwybodaeth.

# PRIF GANFYDDIADAU O GYFWELIADAU Â 47 O GYNHYRCHWYR, HYRWYDDWYR, CURADURON A CHYFARWYDDWYR GWYLIAU RHYNGWLADOL

Gofynnom; sut mae cynhyrchwyr, hyrwyddwyr, curaduron a chyfarwyddwyr gwyliau yn canfod ac yn rhaglennu gwaith newydd? Gofynnom am eu safbwyntiau ar gelfyddydau ac artistiaid Cymru, a sut orau i arddangos gwaith o Gymru.

Yn ddieithriad, dywedwyd bod diddordeb mewn gwaith o Gymru, a bod awydd cyson am y newydd, yr anghyffredin a'r arloesol. Pan ofynnwyd sut mae cynhyrchwyr yn dod o hyd i waith ac yn creu eu rhaglenni, mae gwyliau mwy sefydledig yn dweud bod yr artistiaid yn dod atyn nhw fel arfer, un ai'n annibynnol neu drwy reolwr, asiant neu gyhoeddwr.

Clywsom dro ar ôl tro bod y rhaglennydd/curadur creadigol yn hollbwysig. Nhw yw'r enw a'r awdurdod y rhoddir ffydd ynddynt. Mae tarddiad y rhaglen yn hollbwysig. Caiff arddangos am resymau gwleidyddol neu hyrwyddol ei osgoi a'i drin ag amheuaeth ddofn. Dywedodd un hyrwyddwr,

*'Nid talu i fi ddod i Gymru yw'r broblem. Gall yr holl hyrwyddwyr godi'r gyllideb i fynd i weld gwaith. Yr hyn sy'n bwysig i fi yw'r amser. Mae angen i fi gael sicrwydd y bydda i'n gweld gwaith o ansawdd (ac nid o Gymru'n unig), yn gweld syniadau diddorol a gwaith y gellir ei roi ar raglen, hynny yw, gwaith sy'n barod i'w allforio; a chwrdd â rhyngweithio â fy nghyfoedion.'*

Roedd hyn yn wir am y sector amgueddfeydd, celfyddydau gweledol a chelfyddydau perfformio.

Roedd y rhai a oedd yn siarad dros wyliau cerddoriaeth a digwyddiadau arddangos yn mynegi safbwyntiau cryfach fyth, gan ddweud bod angen i asiantau neu arbenigwyr y diwydiant ddewis a chyfeirio rhaglenni gwyliau. Mae Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Celtic Connections a Lake of Stars oll yn pwysleisio cyfraniad y diwydiant wrth ddewis a gosod meini prawf megis sylw ar yr awyr, tystiolaeth o deithiau a chylchdeithiau mewn lleoliadau sefydledig a rheolwr da.

Yn ogystal, pwysleisiodd Womex a Showcase Scotland (rhan o ŵyl Celtic Connections) yr angen am isadeiledd sefydledig y tu ôl i'r artistiaid – sy'n dystiolaeth o reolwyr ac asiantau o ansawdd – a phwysleisiwyd y niwed y gellid ei wneud drwy arddangos yn rhy fuan. Awgrymodd Womex ei bod yn bwysig i artistiaid fynd i ddigwyddiadau rhyngwladol, heb arddangos yno, i ddysgu sut i hyrwyddo eu hunain orau pan maen nhw yno. Gall y sgiliau meddal hyn fod yr un mor bwysig â'r cynnyrch artistig

Cydnabuwyd yn gyffredinol mai ffydd yn chwaeth a dewisiadau'r dewisydd yw'r allwedd i ddigwyddiad arddangos llwyddiannus. Y canfyddiad o ddigwyddiadau Cymru oedd eu bod yn dal i gael eu harwain gan y sector cyhoeddus – bod y bobl o Gymru sy'n bresennol mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol mawr yn dod o'r sector cyhoeddus, yn hytrach nag arbenigwyr y diwydiant.

Nododd Biennale Lerpwl a Gŵyl Lenyddiaeth Jaipur fod eu curaduron a'u rhaglenwyr yn teithio'n gyson, yn gwneud cysylltiadau, yn adeiladu rhwydweithiau, ac nid yn unig yn hyrwyddo eu gwaith a'u gwyliau, ond yn gwrando ac yn ymgysylltu â'r deialog a'r trafodaethau rhyngwladol. Mae datblygiad lluniau digidol wedi bod yn fanteisiol i'r crefftau a'r celfyddydau gweledol, ond mae gallu gweld a chyffwrdd gwaith yn dal i fod yn hanfodol bwysig.

O ran y mathau o ddigwyddiadau arddangos y mae hyrwyddwyr yn mynd iddynt, roedd y prif hyrwyddwyr yn dueddol o fod â ffydd yn eu timau i adrodd yn ôl o'r digwyddiadau arddangos mawr, ac roedd mwy o ddiddordeb ganddyn nhw eu hunain yn y gwyliau newydd, anarferol a phenodol. Er enghraifft, mae Next Wave yn Academi Gerddoriaeth Brooklyn yn boblogaidd gan ei bod yn arbrofol ac yn fach. Mae Le Guess Who? yn Utrecht, Gŵyl RIFF Jodhpur yn Rajasthan, gŵyl Airwaves yng Ngwlad yr Iâ, a Gŵyl Olau Ocubo Alberobello ym Mhortiwgal oll yn dangos bod gwyliau penodol yn llwyddiannus.

Gofynnom hefyd, beth ydych chi'n feddwl yw'r heriau i Gymru yn y maes arddangos?

Wrth ofyn am ddiffygion Cymru, yr hyn y cyfeiriwyd ato fwyaf oedd ei bod yn anweledig yn y maes. Credwyd mai cyfathrebu oedd hyn yn rhannol, ond hefyd y diffyg parhad yn ei strategaethau, bod dull rhy fyrdymor yn dal i fod.

Nodwyd hefyd nad yw artistiaid eu hunain yn cael eu gweld ddigon ar y fforymau rhyngwladol, ac yr ystyrir bod presenoldeb mewn digwyddiadau arddangos yn afreolaidd ac na chaiff ei gynnal, o gymharu â gwledydd bach eraill megis Seland Newydd, yr Alban a Québec.

Dywedodd un sylwebydd bod naratif Cymru'n wael. Aeth ymlaen i ddweud bod cerddoriaeth Geltaidd wedi cyrraedd y brif ffrwd, ac nad yw Cymru wedi gallu manteisio ar hyn. Dywedodd sylwebwyr eraill nad yw Cymru'n ymelwa ar ei dwyieithrwydd ddigon. Adleisiwyd hyn, ond ddim mewn modd mor gryf, gan y sector amgueddfeydd a oedd yn teimlo nad oedd sector Cymru yn ddigon gweladwy yn rhaglenni gwledydd Prydain, a bod gwaith i'w wneud yn dal i fod er mwyn cyfleu cyfoeth y casgliadau i asiantaethau gwledydd Prydain a thramor.

Mynegodd curaduron rhyngwladol y farn bod artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru hefyd yn llai hyfedr wrth osod safle eu gwaith yn y maes rhyngwladol. Awgrymwyd bod diffyg geirfa gan artistiaid gweledol i drafod eu gwaith. Mae curaduron yn gweithio gydag artistiaid o gwmpas y byd sy'n fwy cyfarwydd ag iaith a geirfa'r byd celfyddydol rhyngwladol a dulliau dadansoddi beirniadol.

*'Nid creu gwaith da a chyffrous yw'r unig beth sy'n bwysig wrth geisio arddangos eich gwaith'.*

Roedd y thema bod Cymru'n creu gwaith da ond yn aml nad yw'n barod i'w allforio yn amlwg ar draws pob sector.

Mae angen annog nid yn unig cynhyrchwyr a churaduron i ddod i weld gwaith, ond y cyfryngau hefyd, a'u hannog i aros, i weld y gwaith ategol, ac yn benodol y gwaith ymgysylltu y mae gan Gymru enw da cynyddol amdano. Mae Gŵyl Lenyddiaeth Jaipur yn gwneud hyn gyda gwasanaeth archebu hollol integredig ar gyfer y cyhoedd, ynghyd â dirprwyaethau drwy gytundeb â'r sector twristiaeth a phrofiadau, felly pan fo pobl yn prynu tocynnau gallant hefyd archebu llety ac ymweliadau â safleoedd o ddiddordeb cyfagos.

*'Mae Jaipur yn ddinas brydferth ac maen nhw'n cynnal partïon da – mae pwyslais ar edrych ar ôl y cynulleidfaoedd'.*

Mae Great Escapes yn Brighton hefyd yn ehangu i'r ddinas gyda'r un math o ddull.

Mae angen casglu syniadau ac ysgogi dysgu gan gyfoedion. Mae hyn mewn perthynas â materion ymarferol gweithio'n rhyngwladol (megis fisas, logisteg ac ati), ynghyd ag adeiladu perthnasau dyfnach. Caiff cysylltiadau cynaliadwy hirdymor eu hwyluso gan ddull mwy strategol a rhannu gwybodaeth, cysylltiadau a phrofiadau.

Y canfyddiad yw bod isadeiledd wan ar gyfer artistiaid preswyl yng Nghymru. Fodd bynnag, yn y grwpiau ffocws, daeth yn glir bod llawer o gyfleoedd preswyl, yn enwedig yn y canolbarth a'r gorllewin, ond bod y rhain yn anffurfiol ac nad oes llawer yn ymwybodol ohonynt.

Nid yw marchnata, darluniau a meddwl am gynulleidfa darged y gwaith yn uchel ar agenda artistiaid a gwneuthurwyr ifanc. Dylai cyrff cyllido graffu'n agosach ar gyllidebau a sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer sgiliau marchnata a deunyddiau yn y cyllidebau terfynol y cytunir arnynt.

Teimlwyd hefyd ei bod yn wrthgynhyrchiol bod cynifer o asiantaethau yng Nghymru yn gweithio gyda gwaith celfyddydol rhyngwladol, a bod angen llwybr cliriach drwy'r asiantaethau hyn.

*'Mae angen deall bod natur anstrategol y cyllid yn dal Cymru'n ôl – er enghraifft roedd canfod arian yn anodd iawn i Keeping Faith ar gyfer dosbarthu. Edrychwch ar Gyngor Canada a Québec fel model cyllido. Mae buddsoddiad priodol yn y diwydiannu celfyddydol a diwylliannol yn gost-effeithiol. Dylai Cymru gynnig cymhelliant ar gyfer allforio diwylliannol rhyngwladol. Mae angen systemau integredig ac nid cyllid "tiriogaethol" fel bod camau bach yn adeiladu yn rhai mwy, a bod buddsoddiad yn arwain at lwyddiant'.*

# CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU A MATERION ALLWEDDOL

## 1. Mae angen datblygiad sylweddol o ran gwaith y gellir ei allforio

Mae angen datblygu'r gwaith cywir sy'n addas i'w allforio ac sy'n gallu teithio. Mae hyn yn cynnwys amseru sioeau a'r gallu i ail-lwyfannu ac ail-ymarfer. Mae 'The Gentle Good' a '9Bach' yn perfformio yn Pontio yn enghraifft o waith gwych yn cael ei gynhyrchu nad oes modd ei ail-lwyfannu ac na welwyd ond unwaith. Mae hefyd yn golygu bod â mwy o ymwybyddiaeth o faterion ieithyddol, gan ddefnyddio uwchdeitlau, a chyfieithu testunau ar gyfer ffeiriau llyfrau ac ati. Mae'r sector rhyngwladol yn hoffi arloesedd a hynodrwydd. Mae awydd gwirioneddol am waith diwylliannol penodol, sy'n herio gweithwyr proffesiynol ynghyd â'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni;

- Sicrhau bod cylchoedd cyllido yn caniatáu ar gyfer ail-lwyfannu ac arddangos, yn hytrach na chreu gwaith newydd.
- Meithrin y gwaith newydd a phenodol ar gyfer marchnadoedd rhyngwladol.

## 2. Mae angen datblygiad sylweddol ar y sector

Mae angen datblygu nifer ac ansawdd y canolwyr (curaduron, cynhyrchwyr, asiantau a rheolwyr) yng Nghymru. Mae angen i weithwyr proffesiynol deithio mwy a gwneud cysylltiadau. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni;

- Sefydlu cynllun mentora strwythuredig ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth rhwng cyfoedion.
- Creu cynllun wedi'i dargedu ymhellach ar gyfer teithio i ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio, gyda gofyniad i roi adborth i'r sector drwy ddigwyddiadau rhannu ar-lein ac oddi ar-lein.
- Creu system o gysgodi gwaith ac interniaethau ochr yn ochr â chynhyrchwyr rhyngwladol profiadol sy'n dod i Gymru (ac sy'n gweithio y tu allan i Gymru). Fel model, mae gan Biennale Lerpwl 10 artist cysylltiol yng Ngogledd Lloegr, ac mae pob un wedi'u paru â churadur rhyngwladol ICI. Cânt eu mentora am dair blynedd, ac mae ganddynt gyllideb o £12,000 i deithio.
- Datblygu cynllun rhwydwaith o sgowtiaid rhyngwladol ac archebwyr teithio yn debyg i'r hyn wnaeth NoFit State Circus gyda Camille Baumier, neu Theatr Dawns yr Alban gyda Nelson Fernandez.

### 3. Mae angen datblygu sgiliau cyfathrebu

Mae angen creu deunydd hyrwyddo rhyngwladol, gyda Phecynnau Gwasg Electronig (EPKs) ar-lein ac oddi ar-lein, ynghyd â'r sgiliau trafod ar gyfer gwneud cytundebau, sgiliau meddal a pharatoad rhwydweithio ar artistiaid sy'n teithio i ddigwyddiadau arddangos. Dim ond rhan o'r swydd yw'r perfformiad. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni:

- Ddatblygu dull ar draws sectorau o gyfleu'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig a'r amserlenni. Sicrhau bod cysylltiadau cryf gyda Dyddiadur Diwylliant y Deyrnas Unedig.
- Datblygu pecynnau hyfforddi i uwchsgilio'r sector cyhoeddus. Mae angen i swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, y British Council a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad wybod mwy am y cyfleoedd yng Nghymru (preswyliadau, gwyliau, lleoliadau ac ati), amseriad digwyddiadau mawr, artistiaid a sefydliadau diwylliannol allweddol Cymru sy'n barod i'w hallforio. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau arbenigol megis y celfyddydau ac iechyd, celfyddydau a phobl hŷn, dysgu creadigol mewn ysgolion ac ati.
- Creu consortiwm rhyngwladol o asiantaethau i hyrwyddo a chefnogi'r prif fentrau sy'n cynnig pecynnau gwybodaeth integredig, llety a phrofiadau i sicrhau'r effaith fwyaf gan y rhai sy'n dod yno.
- Datblygu gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd preswylio yng Nghymru drwy gysylltiadau gwell â ResArtis neu drwy gofrestr benodol i Gymru.
- Sicrhau bod mwy o flaenoriaeth gan farchnata mewn cytundebau cyllido i sicrhau'r gorau o ran presenoldeb mewn digwyddiadau a'r wybodaeth sydd ar gael i hyrwyddwyr ac archebwyr sydd â diddordeb (rhan o fod yn barod i allforio).

## ASTUDIAETH ACHOS
## DENMARC: DIGWYDDIAD ARDDANGOS AR DRAWS Y SECTORAU

**Aarhus: Prifddinas Diwylliant Ewrop 2017 'Let's Rethink'**

Dewisodd Aarhus a'r 18 bwrdeistref arall yn Rhanbarth Canolog Denmarc ddathlu'r traddodiadau folkelige a'r gorau y gall diwylliant cyfoes ei gynnig ym maes celf, theatr, dawns, cerddoriaeth, llenyddiaeth, arferion artisanaidd megis gastronomeg, pensaernïaeth a dylunio yn ystod eu blwyddyn fel Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2017. 'Prosiect GYDA'R ddinas, nid AR GYFER y ddinas yn unig'. Mae Aarhus yn ceisio creu datblygiad cynaliadwy: twf diwylliannol, pobl ac economaidd sy'n ysbrydoli dinasyddion i fyw, gweithio a chyfrannu yn y Rhanbarth Ewropeaidd.

- Roedd yn cynnwys 600 o sefydliadau diwylliannol, 680 o gwmnïau o'r sector creadigol, 900 o gyfranogwyr mewn 4 cynhadledd, 2,800 o gyfranogwyr mewn seminarau a gweithdai, 12,000 o ymwelwyr ag arddangosfeydd yn cynnwys cyflwyno prosiectau a 24 o gyhoeddiadau.
- Roedd cost o £1-3 miliwn ar gyfer rhaglennu'n unig, ond creodd 1,965 o swyddi. Creodd drosiant yn y sector preifat o £141 miliwn. Derbyniodd £47 miliwn o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus. Cynyddodd trosiant prosiectau diwylliannol Rhanbarth Canolog Denmarc dair gwaith beth oedd cyfraniad y cyhoedd o ganlyniad i hyn. Daeth pob punt a wariwyd â £1.4 yn ôl. Cynyddodd prosiectau diwylliannol y gwerth gros a ychwanegwyd yn y sector preifat 1.5 gwaith beth oedd cyfraniad y cyhoedd. Roedd £13 miliwn o gyfraniadau preifat, a chynyddodd prosiectau diwylliannol y gwerth gros a ychwanegwyd yn y sector preifat 5.4 gwaith beth oedd y cyfraniad preifat.
- Llywodraethu – wedi'i lywodraethu gan sefydliad annibynnol a weithredir yn fasnachol ac nid o fewn cyngor rhanbarth neu gyngor dinas.
- Strategaeth gyfathrebu pum haen yn gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a phob un o lysgenhadon Denmarc – ar ymgyrch ryngwladol, ddiplomyddol a thwristiaeth. Lansiad yn Llundain a ymgysylltodd â'r cyfryngau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

aarhus2017.dk/en

# BETH YW BARN HYRWYDDWYR A CHURADURON RHYNGWLADOL AM GYMRU?

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn canmol y gwaith a gaiff ei wneud yng Nghymru, dywedodd y mwyafrif hefyd fod y gwaith yn dal i fod yn anweledig. Disgrifiodd un hyrwyddwr rhyngwladol hi fel *'Gwlad sy'n aros i gael ei harchwilio'*. Fodd bynnag, nododd llawer o ymatebwyr y caiff Cymru ei hadnabod orau drwy ei hartistiaid megis Cerith Wyn Evans, Cerys Matthews a Bedwyr Williams, a thrwy weithgarwch. Cyfeiriwyd at Artes Mundi sawl tro fel enghraifft wych o waith o ansawdd a gynhelir gan Gymru, a oedd yn caniatáu i'r sgwrs ryngwladol o amgylch y celfyddydau gweledol gael ei chynnal yng Nghymru. At hynny, cydnabuwyd bod Gŵyl y Gelli o safon fyd-eang, a'i bod yn adlewyrchu gwerthoedd a phriodweddau llenyddol Cymru.

Mae'r rhai sy'n adnabod y gwaith yn dweud bod angen rhagor o amlygrwydd ar yr artistiaid, ond bod angen hyfforddiant ar sut i'w wneud a bod angen iddynt ddatblygu rhwydweithiau. Y farn gyffredinol oedd bod angen i fwy o guraduron rhyngwladol ddod i Gymru, a bod angen i'r artistiaid adael yn amlach.

*'Mae cynnig anhygoel yng Nghymru, ond mae'n rhy dawel. Mae angen iddo fod yn gliriach ac yn fwy beiddgar.'*

Mae angen hefyd i fwy o guraduron rhyngwladol i ddod i Gymru i weld y gwaith a rhoi sgiliau i artistiaid allu trafod eu gwaith. Nododd llawer o'r cyfweleion fod dwyieithrwydd yn bwynt gwerthu unigryw i Gymru o gymharu â gwledydd eraill Prydain, ac y gellid ei drin mewn modd mwy cadarnhaol. Nodwyd bod uwchdeitlo i'w weld bobman nawr (er enghraifft, caiff popeth ei uwchdeitlo yn yr Almaen i Saesneg) felly dylai gwaith Cymraeg allu teithio'n well.

Cydnabuwyd bod llawer o'r gwaith hefyd wedi'i ddatganoli a'i fod y tu allan i'r prif leoliadau, ac mae hyn hefyd yn gryfder ac o ddiddordeb i wledydd eraill.

*'Adroddir straeon mewn ffyrdd ffres ac nid mewn lleoliadau confensiynol – mae'n mynd o dan groen y lle mae'n ei adlewyrchu ac mae'n catalyddu'.*

*'Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn teithio drwy Loegr gyda model ffres a chyfoes'.*

Mae gan y wlad enw da, a adeiladwyd i raddau helaeth drwy National Theatre Wales ac atgofion hanesyddol o Brith Gof, am gynhyrchu gwaith sensitif i safle anhygoel, ac mae hyn yn creu esthetig unigryw, y gellir manteisio arno ymhellach. Gwnaed cymariaethau â gwaith o Fflandrys.

Roedd Chris Gribble o Ganlfan Ysgrifennu Norwich yn gweld pethau cyffredin â Norwich o ran y tensiwn rhwng y canfyddiad a'r ffocws ar draddodiad ond hefyd cryfderau cyfoes.

Roedd cydsyniad bod angen i bobl ddod i Gymru i ddod i'w hadnabod yn well. Byddai hyrwyddo cyfleoedd megis preswyliadau a chymrodoriaethau i artistiaid yn gam defnyddiol.

## CRYNODEB

Mae'n anodd i wlad fach gael ei gweld yn y maes rhyngwladol sy'n brysur iawn. Mae celfyddydau a diwylliant Cymru yn un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o hyrwyddo'r wlad, ac ar hyn o bryd nid ydym yn manteisio ar hyn gystal ag y gallem. Mae angen i gyrff cyhoeddus a sefydliadau diwylliannol Cymru gydweithio i sicrhau bod naratif mwy cydlynol yn cael ei gyfleu.

Mae angen gwahodd mwy o ddirprwyaethau o'r diwydiant i Gymru, a bod yn glir am yr ansawdd a'r esthetig sydd ar gael.

Mae angen gwahodd mwy o ddigwyddiadau a arweinir gan y diwydiant i Gymru, ac arddangos ynddynt nid yn unig waith penodol i'r sector ond y cynnig diwylliannol ehangach a thirlun a phobl Cymru, i greu ymdeimlad gwell o le sy'n gwobrwyo archwilio ymhellach.

Mae wedi'i brofi bod cynnal digwyddiadau rhyngwladol mawr yn cael effaith, fel y gwelwyd yn Womex 2013, Satellite IETM yng Nghaerdydd, a Chynllunio Llwyfan y Byd 2013. Mae awgrymiadau ar gyfer beth y gellir ei gynnal yn y dyfodol yn cynnwys:

- Manifesta
- Independent Curators International
- Cineregio
- Classic Next
- Cynhadledd Cymdeithas Amgueddfeydd America
- IETM.

## ASTUDIAETH ACHOS
DIGWYDDIAD ARDDANGOS AR DRAWS SECTORAU YNG NGHYMRU

### Eisteddfod Genedlaethol Cymru

Gŵyl flynyddol wyth diwrnod o hyd â chystadlu yn ganolog iddi sy'n teithio o le i le, gan amnewid rhwng y gogledd a'r de, ac sy'n dathlu diwylliant ac iaith y wlad.

- Mae'r Gymraeg yn rhan annatod a phwysig o'r Eisteddfod. Mae gwasanaethau cyfieithu ar gael.
- Mae'r Eisteddfod yn costio dros £4 miliwn y flwyddyn, gyda tharged o oddeutu £325,000 o gyllid lleol. Mae'n denu oddeutu 150,000 o ymwelwyr, dros 6,000 o gystadleuwyr, a 250 o stondinau masnachu. Mae canran sylweddol o'r budd economaidd i'r ardal leol yn ystod yr Eisteddfod yn mynd i'r sector twristiaeth a lletygarwch, gyda bron i 70% o ymwelwyr yn treulio o leiaf un diwrnod yn archwilio'r ardal.
- Mae mwyafrif llenorion, cerddorion a beirdd amlycaf Cymru wedi cystadlu yn yr Eisteddfod, ac i lawer o berfformwyr dyma'r tro cyntaf iddynt ymddangos ar lwyfan cenedlaethol.

eisteddfod.wales

# BETH YW'R FFORDD FWYAF EFFEITHIOL O ARDDANGOS CELFYDDYDAU O GYMRU?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn am y dulliau mwyaf effeithiol o arddangos yn amrywio o ran manylion, ond roedd rhai egwyddorion yn gyffredin:

- Mae angen dull arloesol ac ysbrydoledig, sy'n adlewyrchu pobl, estheteg a diwylliant y lle.
- Dylai fod marchnad ddiffiniedig ar gyfer y gwaith a all ddenu digon o arweinwyr lleoliadau, cyfarwyddwyr ac archebwyr â diddordeb mewn prynu gwaith.
- Mae datblygu marchnad ryngwladol yn wahanol iawn mewn gwahanol ffurfiau celfyddydol. Y peth gorau i'w wneud yw nodi'r farchnad gryfaf ar gyfer pob ffurf gelfyddydol, a'i defnyddio fel man cychwyn gyda'r rhaglen guradurol gywir. Does dim diben ailddyfeisio Tanzmesse, Cannes neu CINARS.
- Dim ond sefydlu lle mae bylchau neu gynnig unigryw sydd angen i Gymru ei wneud. Mae canfyddiadau o'r cynnig unigryw yn cynnwys Gŵyl y Llais, gwaith sensitif i safle, pwyslais dwyieithog, datblygu'r Eisteddfod a thechnolegau newydd.
- Bydd yn bwysig gweithio ochr yn ochr â lleoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr sydd eisoes yn bodoli, a'r sector ei hun, er mwyn sicrhau synergedd yn hytrach na chystadleuaeth.
- Mae'n cymryd amser i ddatblygu perthnasau ac i weld canlyniadau, felly byddai'n synhwyrol i fuddsoddwyr ymrwymo i gyllido am gyfnod o sawl blwyddyn.

Gan fod y sectorau (neu'r is-sectorau) mewn camau datblygu gwahanol a bod ganddynt isadeileddau proffesiynol gwahanol, dyma restr o fentrau a awgrymwyd gan y cyfweleion, grwpiau ffocws ac ar-lein sy'n benodol i'r sector.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ychwanegol i'r argymhellion mawr ar sail traws sector, a dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r rhain:

## CELFYDDYDAU GWELEDOL

- Datblygu Artes Mundi i gynnwys mwy o bwyslais wedi'i dargedu at y diwydiant, gan ddod â mwy o guraduron i Gymru i weld gwaith o Gymru ochr yn ochr ag arddangosfa Artes Mundi. Gallai hyn gynnwys symposia gyda siaradwyr ysbrydoledig. Parhau i fynd ag artistiaid rhyngwladol ar daith drwy Gymru, ac ychwanegu artistiaid o Gymru ochr yn ochr â nhw.
- Datblygu Cymru yn Fenis. Yn benodol, adeiladu ar y cysylltiadau a wnaed yn ystod y Biennale i greu cyweithiau gweithredol a pharhaus.
- Ymgeisio i ddod â Manifesta i Gymru; byddai hyn yn creu gwaddol sylweddol a pharhaus.
- Mynd i'r afael â'r bwlch o ran cynrychiolaeth fasnachol i artistiaid yng Nghymru. Mae curaduron yn chwarae'r rôl hon i raddau, ond ni allant eu cynrychioli. Mae angen denu a chefnogi orielau masnachol (nid trwy gyllid o reidrwydd), a datblygu hyfforddiant i asiantau a churaduron annibynnol er mwyn bod yn rhagweithiol yn rhyngwladol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cefnogi orielau dewisol sefydledig, megis g39 a Chanolfan Grefft Rhuthun, i ddechrau datblygiadau masnachol.
- Creu rhaglen i guraduron Cymru ddatblygu mwy o enw da yn rhyngwladol, drwy fod â phresenoldeb mwy cyson mewn digwyddiadau mawr megis Sao Paulo.
- Creu mwy o gyfleoedd yng Nghymru i arddangos gwaith. Gellir gwneud hyn drwy ddatblygu gallu'r rhwydwaith presennol o orielau, gofodau arddangos ac asiantaethau a arweinir gan artistiaid i hyrwyddo mwy o artistiaid o Gymru ac i wahodd mwy o guraduron cenedlaethol a rhyngwladol.
- Datblygu a hyrwyddo rhwydwaith o breswyliadau rhyngwladol i artistiaid.



James Richards, Migratory Motor Complex, 2017, Cymru yn Fenis. Delwedd gan: Mark Blower

## ASTUDIAETH ACHOS

### GWAHODD DIRPRWYAETHAU O WLEDYDD PRYDAIN I GYMRU

**FOCUS Wales**

Gŵyl ryngwladol aml-safle a gynhelir yn Wrecsam ers wyth mlynedd. Sefydlwyd yr ŵyl i ddarparu digwyddiad arddangos cerddoriaeth newydd blynyddol ar gyfer diwydiant cerddoriaeth Cymru, gan gyflwyno talent leol sy'n dod i'r amlwg, ochr yn ochr â detholiad o artistiaid o wledydd ar draws y byd.

- Mae'n denu dros 8,000 o ymwelwyr, yn arddangos dros 200 o fandiau, mewn ystod o ofodau a lleoliadau cerddoriaeth, ac mae'n denu arbenigwyr ar gyfer rhaglen ryngweithiol sy'n cyflwyno paneli a thrafodaethau o'r diwydiant. Mae'r elfen 'Arloesi Digidol' yn annog entrepreneuriaeth yn y sector digidol/creadigol.
- Yn 2017, amcangyfrifwyd bod FOCUS Wales yn werth £330,000 i'r economi leol, a disgwylir i'r ffigur hwn godi ar gyfer 2018 ac ymlaen gan fod y gynulleidfa'n parhau i dyfu.
- Cynhelir rhai o ddigwyddiadau rhyngwladol FOCUS Wales drwy gydol y flwyddyn, ynghyd â rhaglenni allgymorth addysgol pwrpasol.
- Yn gynyddol, mae FOCUS yn ymgymryd â rôl asiantaeth allforio, drwy fod â phresenoldeb mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol a mynd â brandiau i Gorea ac SXSW, er enghraifft.

focuswales.com

## CREFFTAU

- Canolbwyntio ar farchnadoedd penodol lle mae estheteg gyffredin neu a werthfawrogir, er enghraifft Japan, Gogledd America, Gogledd Ewrop.
- Dod â churaduron, casglwyr a'r sector amgueddfeydd i Gymru, a datblygu digwyddiad i'r diwydiant o gwmpas adnoddau sydd eisoes yn bodoli (yn benodol Canolfan Grefft Rhuthun; gallai hyn fod yn ddigwyddiad i wledydd Prydain i gyd, gan fod enw da gan Ruthun ar draws y sector yng ngwledydd Prydain a'r tu hwnt).
- Cynnwys cyfranogiad mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol, megis Collect, yn rhan o gefnogaeth strategol (yn hytrach na chyllido prosiect i brosiect).
- Blaenoriaethu arweinyddiaeth strategol ar gyfer digwyddiadau blaenllaw megis Gŵyl Cerameg Aberystwyth. Hwyluso partneriaethau rhyngwladol megis gyda NCECA yng Ngogledd America, Expo Serameg Tokyo neu Guldagaard Denmarc.
- Creu llwybrau a chysylltiadau mwy sylweddol rhwng addysg ac arfer broffesiynol, fel bod gan y cyrsiau gradd fwy uchelgeisiol megis cerameg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd neu decstilau yng Ngholeg Sir Gar arweinwyr sy'n hyddysg mewn llwyfannau/ digwyddiadau arddangos rhyngwladol.
- Dathlu a chynnwys y llu o gyn-fyfyrwyr sy'n gweithredu fel modelau rôl a mentoriaid yn y sector, megis Ross Lovegrove, Bethan Gray, Adam Buick ac ati.

## CERDDORIAETH

- Adeiladu ar lwyddiannau megis Womex a menter Gorwelion, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, FOCUS Wales, Fire on the Mountain, Gŵyl Rhif 6 a Gŵyl Sŵn ac ati.
- Adeiladu ar fenter Sound Diplomacy yng Nghaerdydd, yn enwedig o ran sicrhau y caiff isadeiledd lleoliadau bach ar gyfer cerddoriaeth fyw eu cefnogi.
- Creu isadeiledd mwy integredig ar gyfer yr amrywiaeth o genres cerddoriaeth gyda Thŷ Cerdd neu Asiantaeth Allforio Cerddoriaeth Cymru ac ati.
- Creu cyfleoedd i arddangos mewn digwyddiadau arddangos domestig; megis Manceinion, Brighton neu Lundain, ynghyd â Chymru a thramor.
- Annog artistiaid i fynd i ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol. Mae'n bosib nad yw South by Southwest yn cynnig enillion ar fuddsoddiad mor sylweddol o ran archebu bandiau, ond mae'n ddigwyddiad rhwydweithio ac uwchsgilio pwysig. Mae angen i artistiaid sicrhau bod eu gwaith a'u rheolwr yn barod i allforio cyn cymryd rhan mewn digwyddiadau arddangos.
- Datblygu strategaeth farchnata a chyfathrebu mwy soffistigedig ar gyfer cerddoriaeth glasurol o Gymru. Mae enw da cryf a haeddiannol gan gerddoriaeth glasurol gyfoes o Gymru, ond gellir gwneud mwy i amlygu gwaith newydd ac artistiaid yn y maes.
- Gwahodd Classical Next, IAMAA, Europa Opera neu Reseo i gynnal eu cynadleddau yng Nghymru.
- Cyfathrebu'r gwaith ymgysylltu y mae cerddorfeydd a chwmnïau opera wedi'i wneud, yn enwedig i'r farchnad dramor i fanteisio ar arbenigedd Cymru yn y maes.

## THEATR

- Creu ffrwd gyllido ar gyfer ail-lwyfannu gwaith i'w arddangos a theithio eto yn y pen draw.
- Creu digwyddiad(au) mawr sy'n denu mwy o gynhyrchwyr a hyrwyddwyr i Gymru.
- Creu mwy o gysylltiadau rhwng Llundain (sy'n dal i fod yn atyniad cryf i hyrwyddwyr rhyngwladol) a Chymru i adeiladu ar drosglwyddiadau un tro megis Iphigenia in Splott.
- Datblygu mwy o bartneriaethau â sefydliadau megis LIFT neu Ganolfan Southbank, lleoliadau ysgrifennu newydd ac ati.

## LLENYDDIAETH

- Adeiladu ar gyfranogiad diweddar yn Ffair Lyfrau Llundain drwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Llenyddiaeth Ryngwladol ac ehangu'r model ar gyfer Ffair Lyfrau Frankfurt.
- Creu mwy o destunau sy'n barod i'w hallforio sydd wedi'u cyfieithu er mwyn bod hyn yn effeithiol.
- Creu prosiectau rhyngwladol ar gyfer dathliadau mawr (e.e. Dylan Thomas, Roald Dahl, Hedd Wyn/ Cerddi Colled).
- Hyrwyddo gwobrau llenorion, megis Gwobr Dylan Thomas, Llyfr y Flwyddyn a Chadair yr Eisteddfod, gan fod cyhoeddwyr yn edrych ar yr hyn fydd yn helpu llenorion i fod yn unigryw.
- Datblygu a hyrwyddo preswyliadau i artistiaid. Teimlir bod y rhain yn bwysig iawn ar gyfer datblygu gyrfa ac er mwyn creu corff mwy o wybodaeth am y sector yn fyd-eang.
- Creu presenoldeb mwy cynaliadwy gan gyhoeddwyr mewn digwyddiadau arddangos fel prif flaenoriaeth. Cyfeiriodd cyhoeddwyr hefyd at oruchafiaeth Saesneg yn fforymau ysgrifennu rhyngwladol gwledydd Prydain fel rhwystr i waith cyhoeddi ac ysgrifennu Cymraeg.

## FFILM, TELEDU A CHYFRYNGAU NEWYDD

- Ym maes ffilm, mae'n hanfodol adeiladu perthnasau â'r asiantau gwerthu; byddant yn mynd i wyliau mawr lle mae'r holl bobl allweddol mewn un lle. Mae'r rhain yn cynnwys Cannes, Caeredin, Berlin, Galway, Fenis, Toronto, Sheffield (ar gyfer rhaglenni dogfen), Malmo (i blant), Annecy ac ati. Mae angen i Gymru fynd â chyfres o 50 o brosiectau i gael eu 'gweld'.
- Mae'r sector ffilmiau yng Nghymru yn eithaf deinamig, ac yn dda am arloesi. Mae teledu wedi helpu llawer arno, ac mae am ddod yn ganolbwynt mawr yng ngwledydd Prydain os bydd nifer o elfennau posibl yn cael eu gwireddu.
- Mae IRIS wedi bod yn llwyddiannus wrth broffilio Cymru, ac mae hyn wedi bod yn wir am Ŵyl Animeiddio Caerdydd hefyd. Mae'n debygol y bydd yr Ŵyl Animeiddio yn cael ei hadfer, a byddai hyn yn dod â chanlyniadau mawr iawn. Mae llawer o wyliau penodol hefyd megis Wicked (ffilmiau byr), Abattoir (gŵyl ffilmiau arswyd yn Aberystwyth) ac ati.
- Gallai ffilmiau wella unrhyw waith arddangos rhyngwladol dramor o Gymru, gan ei fod yn amrywiol, o ansawdd da ac yn symudol.
- Gellid dod â digwyddiadau ffilm mawr megis Cine Regio i Gymru, a phe bai'n gallu cyd-fynd ag IRIS neu PIX byddai'n cynyddu'r effaith.

## DAWNS

- Blaenoriaethu presenoldeb yn y gwyliau dawns mawr – mae Tanzmesse yn llwyfan allweddol i gael presenoldeb cyson o Gymru, ynghyd â CINARS. Er hynny, mae CINARS yn fwy o ddigwyddiad rhwydweithio gan fod y rhaglen wedi'i churadu'n dynn.
- Adeiladu presenoldeb mewn digwyddiadau masnachu eraill yn Ewrop, megis Aerowaves.
- Dylid cefnogi Gŵyl Ddawns Gaerdydd i adeiladu elfen arddangos i wyliau'r dyfodol: dau neu dri diwrnod â phwyslais ar fasnachu. Ar hyn o bryd, dyna'r fenter o Gymru sydd yn y sefyllfa orau i ddenu hyrwyddwyr dawns.
- Parhau i ddenu digwyddiadau arddangos dawns mawr gwledydd Prydain ac Ewrop i Gymru: yr olynydd i'r British Dance Edition neu Gyfarfod Theatr Ewropeaidd Anffurfiol IETM.

## TREFTADAETH

Mae'r sector amgueddfeydd hefyd yn dioddef o ddiffyg amlygrwydd, yn enwedig o ystyried cyfoeth eu casgliadau. Eu prif ddull o arddangos yw drwy fynd i gynadleddau penodol i'r sector, symposia academaidd a digwyddiadau tramor megis teithiau twristiaeth a masnach. Mae angen i guraduron deithio fel eiriolwyr, gan nad yw'n economaidd symud casgliadau o amgylch y byd.

- Datblygu rhaglen i gael presenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol allweddol.
- Creu rhaglen o gynnal prif ddigwyddiadau allweddol y sector yma, megis Cynghrair Amgueddfeydd America, Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd a Chynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd.
- Hyrwyddo'r sgiliau a'r arbenigedd sylweddol a phenodol iawn yn ymgysylltu â'r cyhoedd, adeiladu cynulleidfaoedd amrywiol, cysylltiadau ag ysgolion a phobl ifanc, a grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd megis y digartref ac ati. Gellir allforio'r sgiliau hyn ochr yn ochr â'r casgliadau, neu ar wahân iddynt.
- Hyrwyddo'r gwaith arloesol a wnaed ar guradu. Yn ddiweddar, mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi bod yn flaenllaw mewn trafodaethau am guradu a gwneud penderfyniadau gyda'u rhaglen Who Decides, sy'n herio rôl draddodiadol y curadur. Mae'r dull arloesol hwn wedi'i ehangu i ailddatblygu Sain Ffagan, lle bu rhaglen o gyd-gasglu ac ymgysylltu â chymunedau yn y gwaith o gyd-guradu.
- Datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth y sector cyhoeddus o'r rhan werthfawr mae amgueddfeydd a threftadaeth yn ei chwarae mewn diplomyddiaeth feddal, amlygu hanesion a straeon a rennir a phrofiadau cyffredin. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith Amgueddfa Prydain yn Iran. Yng Nghymru, mae'r gwaith diweddar yn Tsieina a Japan wedi cyflawni llawer mwy na hyrwyddo'r casgliad yn unig; mae'r effeithiau hyn yn cyrraedd diplomyddiaeth, masnachu a chysylltiadau dyfnach. I amlygu'r sector ymhellach, mae partneriaethau strategol ag asiantaethau eraill, yn enwedig Llywodraeth Cymru, yn hanfodol.
- Datblygu mecanwaith ar gyfer sganio'r gorwel am ben-blwyddi arbennig a chyfleodd i gysylltu â digwyddiadau mawr a dathliadau.

### ASTUDIAETH ACHOS
### DIGWYDDIADAU ARDDANGOS PENODOL I'R SECTOR Y TU ALLAN I GYMRU AC AR-LEIN

**Digwyddiad Arddangos Llenyddiaeth Ryngwladol**

Model arddangos integredig ar gyfer llenyddiaeth sy'n cynnwys cynhadledd pedwar diwrnod o hyd yn Norwich; llwyfan ar-lein gyda phroffiliau, comisiynau, a chysylltiadau at gynnwys allanol; cyfranogiad yng Ngŵyl Lyfrau Llundain, a fforwm trafod Slack yn seiliedig ar gomisiynau a grantiau bach ar gyfer prosiectau partneriaeth.

Yr amcanion oedd;

- Allforio: darparu adnodd ar gyfer rhaglenwyr rhyngwladol, gweithwyr llenyddol proffesiynol, cyhoeddwyr a chyrff diwylliannol-ddiplomyddol i gael mynediad at wybodaeth am lenorion gwledydd Prydain a gweithwyr llenyddol proffesiynol, a gwneud cysylltiadau a rhaglenni partneriaethau gyda nhw.
- Dysgu a Rhwydweithiau: creu amgylchedd datblygu proffesiynol sy'n meithrin cyfnewid arferion da yn rhyngwladol ac yn hwyluso rhwydwaith o arweinwyr llenyddol y dyfodol sy'n edrych tuag at wledydd Prydain i gydweithio.
- Datblygu'r sector: cynyddu capasiti a sgiliau sector llenyddol gwledydd Prydain (unigolion, sefydliadau, rhwydweithiau) i weithio'n rhyngwladol gyda phwyslais arbennig ar sgiliau arddangos digidol.
- Arddangos 92 o lenorion, artistiaid a pherfformwyr o wledydd Prydain, a 53 o sefydliadau, ymarferwyr ac ymgyrchwyr llenyddol. Ymgysylltu â 150 o weithwyr proffesiynol llenyddol o wledydd Prydain ac yn rhyngwladol fel cynrychiolwyr gweithredol, cynulleidfa o 40,000 yn fyw ac ar-lein, a chyflawni cyfradd agor o 40.4% ar gylchlythyron.

  litshowcase.org

## BETH YW'R FFACTORAU LLWYDDIANT ALLWEDDOL AR GYFER DIGWYDDIADAU/ MENTRAU ARDDANGOS RHYNGWLADOL?

Canfuom y canlynol:

- Mae ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig; mae Gwyliau Jaipur a Lake of Stars yn ymwneud llawer â'u cymunedau lleol ac maent yn targedu pobl na fyddai fel arfer yn dod drwy ystod o ddulliau arloesol. Roedd gan Lake of Stars glinig symudol a chyngor ar HIV. Sefydlodd Jaipur glybiau darllen mewn pentrefi anghysbell, a gwahoddodd 12 o bobl i ddod i'r ŵyl.
- Rhaid bod dealltwriaeth glir o'r bwlch yn y farchnad, a rhaid i bob digwyddiad fod yn unigryw ac yn arbennig.
- Os arddangos y gorau o waith Cymru, mae angen iddo fod yn rhan o raglen gyfoethog o waith rhyngwladol, sydd wedi'i churadu gan raglenwyr ac arbenigwyr y diwydiant.
- Rhaid bod dealltwriaeth o'r hyn sy'n ddiddorol i gyflwynwyr, ac nid yw hynny o reidrwydd yn ddiddorol i'r gynulleidfa / ymwelwyr. Mae empathi â phob cynulleidfa yn hanfodol er mwyn llwyddo.
- O ran y gynulleidfa/cynrychiolwyr, rhaid bod targed realistig o gynhyrchwyr, a dealltwriaeth dda o ble mae'r gwaith yn debygol o gael ei osod yn rhyngwladol. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y bobl gywir yno. Rhaid bod yn fanwl o ran yr amodau ar gyfer mynychu, a dylid monitro'r canlyniadau'n agos.
- Rhaid trin cynrychiolwyr yn dda, a chynnig profiad cyfan iddynt, nid dim ond presenoldeb yn y digwyddiad arddangos.
- Mae amseru ac amserlenni yn bwysig iawn. Bydd cynhyrchwyr a churaduron yn dod oherwydd pwy a beth sydd yno, ac ni fyddant yn dod am gyfnod hirach na thri diwrnod. Sicrhau bod yr amseru'n gydlynol ac nad yw'n gwrthdaro â mentrau mawr eraill.
- Rhaid i chi sicrhau'r amlygrwydd mwyaf posibl. Er enghraifft, dylai fod yn bosibl cysylltu'r amseru ag Artes Mundi, Caerdydd Gyfoes, Gŵyl y Llais a Chanwr y Byd Caerdydd y BBC, ond bydd angen amser, annibyniaeth, cyllid ac ewyllys.
- Mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn bwysig iawn. Arweinir digwyddiadau arddangos llwyddiannus gan gynhyrchwyr a churaduron gydag ymreolaeth a phrofiad, a chan sefydliadau sydd â chapasiti gweinyddol cryf. Er enghraifft, mae 25% o staff Gŵyl Ryngwladol Manceinion yn rhaglenwyr neu'n gynhyrchwyr creadigol.
- Mae cyfarwyddwyr datblygu hefyd yn hanfodol. Mae'r rhaglenni diwylliannol llwyddiannus wedi cyflogi cyfarwyddwyr datblygu o'r sector chwaraeon ar gyfer arbenigedd noddi graddfa fawr.
- Dylid sicrhau cysylltiad cryf â'r diwydiant, yn enwedig os oes arddangos/gwobrau'n rhan ohono. Fel enghraifft, caiff Green Man Rising ei gymryd o ddifri gan fod y beirniaid oll yn dod o'r diwydiant.

## GOFYNNOM SUT YDYM YN SICRHAU ETIFEDDIAETH AC ENILLION AR FUDDSODDIAD I GYMRU?

- Canfuom fod angen i ni: Ddatblygu rhaglen hyfforddi a mentora i adeiladu ar sgiliau artistiaid lleol a all wedyn ddatblygu ar raddfa. Creu llwybrau at brofiad o weithio'n rhyngwladol. Cynnig hyfforddiant i bobl ifanc 16+ mewn gyrfaoedd celfyddydol mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys technegol, gweinyddol, cyfathrebu ac ati, yn hytrach nag ar y llwyfan yn unig.
- Datblygu rhaglen gyfranogi a dysgu cref gan ddefnyddio technegau arloesol o ran sut i ddysgu, ysbrydoli ac archwilio beth yw ystyr ymgysylltu â chymunedau ac unigolion.
- Creu partneriaethau am i mewn ac am allan, a rhaglenni preswyl.
- Ceisio cysylltu â mwy o naratifau a democratiaethau lleol. Adrodd straeon lleol difyr sy'n berthnasol i ymwelwyr rhyngwladol.
- Cynnal rhaglen blwyddyn o hyd o weithgarwch ochr yn ochr â'r Ŵyl megis Greenwich a Gŵyl Ryngwladol Docklands, Biennale Lerpwl, Showcase Scotland ac ati.
- Dylai'r cynnwys adlewyrchu'r ddemograffeg leol. Os oes dull â thema Cymru, mae angen iddo fod yn drylwyr ac wedi'i ystyried mewn modd sensitif; dylai gyflwyno golwg neu ddealltwriaeth newydd, hyd yn oed os yw'n ddealltwriaeth oddrychol o'r hyn sy'n digwydd.
- Deall a thracio'r gynulleidfa a chreu synergedd â'r rhai sy'n dod.
- Gwaith rhaglen sy'n berthnasol i'r lleoedd y mae'r tocynnau'n cael eu prynu, er enghraifft UDA ac Awstralia, Norwy neu Ffrainc, i adeiladu teyrngarwch.

## SUT MAE SECTORAU NAD YDYNT YN RHAI CELFYDDYDOL YN EI WNEUD, A BETH ALL Y SECTOR DIWYLLIANNOL DDYSGU GANDDYNT?

Canfuom:

**Siambrau Masnach Prydain**

Mae Siambrau Masnach Prydain / Siambrau Masnach y Ddinas wedi darparu ystod o wasanaethau busnes a chymorth cynrychiadol annibynnol i gwmnïau a sefydliadau gwledydd Prydain ers dros gan mlynedd. Gellir dod o hyd iddynt ar draws y byd, ond maen nhw ar eu cryfaf yn Ewrop. Mae ganddynt gysylltiadau cryf bob amser gyda Llysgenadaethau Prydain

Mae Siambrau Masnach Prydain yn aelod o Eurochambres a llawer o rwydweithiau eraill. Mae blynyddoedd o fynd â theithiau masnach dramor, derbyn dirprwyaethau, llofnodi protocolau, a threfnu ffeiriau masnach wedi golygu bod gan y Siambrau Masnach rwydwaith fawr o berthnasau gweithio ymarferol drwy'r byd.

Eu prif gryfderau yw cyngor, gwybodaeth a chysylltiadau. Maent yn gallu manteisio ar wybodaeth ac arbenigedd busnesau alltudiol. Nid oes canlyneb uniongyrchol yn y sector diwylliannol, ond mae'r pwyslais ar ba mor werthfawr yw rhwydweithio, yn enwedig â chyllid yr Undeb Ewropeaidd, yn rhannu'r gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd dysgu gan gyfoedion a chyfnewid gwybodaeth.

I raddau, mae'r British Council yn cyflawni'r rôl hon, ond byddai'n ddefnyddiol pe bai'r sector diwylliannol yn cysylltu â Siambrau Masnach lleol i gael cyngor am allforio.

**Addysg Uwch**

Mae'r sector Addysg Uwch yng Nghymru a gwledydd Prydain wedi tyfu'n gyflym dros yr 20 mlynedd ddiwethaf, ac mae myfyrwyr rhyngwladol nawr yn rhan anhepgor o'r economi addysg uwch. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn enghraifft lwyddiannus o hyn. Mae gan eu Rhwydwaith Addysg Ryngwladol 14 o bartneriaid gweithredol, yn cynnal rhaglenni Caerdydd dramor i rhwng 6,500-7,000 o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio dramor. Maen nhw hefyd yn denu oddeutu 10% o'r 12,000 o fyfyrwyr ar eu campws yng Nghaerdydd o dramor. Mae ganddynt bedair swyddfa ryngwladol, yn Fietnam, Nigeria, India a Tsieina, sy'n gweithio i Gaerdydd ac yn chwarae rhan i Gymru.

Mae ffeiriau masnachu wedi bod yn llwyddiannus iawn ar gyfer hyrwyddo a datblygu, er enghraifft gyda chyfranogiad yn Going Global Bologna a'r Magna Charta Observatory.

Maen nhw wedi ymwneud yn helaeth ac yn llwyddiannus â rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd, gan drosoli €30 miliwn dros y deng mlynedd ddiwethaf, a nhw yw un o Brifysgolion mwyaf llwyddiannus gwledydd Prydain yn y maes hwn.

Maen nhw'n darparu cyfleoedd i staff a myfyrwyr fynd dramor a datblygu ar raddfa fyd-eang, drwy fentrau cyllido, partneriaethau a rhwydweithiau, sydd yn ei dro yn hyrwyddo Caerdydd a Chymru.

Maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r British Council, ac yn teimlo y gall fod mwy o gydlyniad ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r potensial gorau posib.

**Llywodraeth Cymru**

Nod polisi rhyngwladol Llywodraeth Cymru yw ennill mantais economaidd ar lawr gwlad yng Nghymru. Bwriad gweithgarwch masnachu a buddsoddi yw denu buddsoddiad uniongyrchol o dramor a chynyddu allforion. Mae dros fil o gwmnïau yng Nghymru â pherchnogion dramor.

Mae'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd o bryder i Gymru, gan fod 66% o allforion Cymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Felly mae dwy flaenoriaeth, datblygu marchnadoedd newydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a chynnal cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brecsit.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn ei henw da a'i chyrhaeddiad rhyngwladol drwy ehangu ei rhwydwaith gyfredol o 15 swyddfa dramor sy'n canolbwyntio ar fasnachu a buddsoddi. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn Llundain, Brwsel, Tsieina (Beijing, Shanghai, Chongqing), India (Bangalore, Delhi), Iwerddon (Dulyn), Japan (Tokyo), yr Emiraethau Arabaidd Unedig (Dubai) ac Unol Daleithiau America (Efrog Newydd, Washington, Atlanta, San Francisco, Chicago) a bydd swyddfeydd eraill ym Montreal, Paris, Berlin, Dusseldorf a Qatar (Doha) yn cael eu hychwanegu yn 2018. Polisi'r Deyrnas Unedig yw cael dull un platfform, ac felly mae swyddfeydd Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Llysgenadaethau'r Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl diwylliant wrth greu dylanwad a diplomyddiaeth feddal – yn enwedig o ran cyfleu gwerthoedd Cymru'n rhyngwladol. Maent hefyd yn cydnabod bod angen gofod i anadlu ar ddiwylliant er mwyn cadw'i hunaniaeth a chael ei pherthnasau a'i dulliau o weithio ei hun. Maent yn awyddus i geisio cael y cydbwysedd priodol rhwng defnyddio diwylliant i helpu i hyrwyddo Cymru, gan ei gwneud yn lleoliad atyniadol i ail-leoli, buddsoddi, astudio, denu twristiaeth a chefnogi diwylliant allforio fel diwydiant ynddo'i hun.

Cydnabyddir nad yw biwrocratiaethau'r sector diwylliannol a'r llywodraeth/sector cyhoeddus yn cyd-fynd ar hyn o bryd, gyda gormodedd o adrannau sydd â diddordeb ym mhroffil rhyngwladol y sector diwylliannol, a bod angen dod â'r rhain ynghyd mewn modd mwy cydlynol a chydweithredol er mwyn osgoi dyblygu.

## ASTUDIAETH ACHOS
GWAHODD ENTREPRENEURIAID IFANC A CHREADIGOL I GYMRU

**Kick Start: Caerdydd**

Fel rhan o raglen a ariannwyd ar y cyd â'r Undeb Ewropeaidd, cynhaliodd Visiting Arts gyfnewidfa a digwyddiadau rhwydweithio tri diwrnod o hyd yng Nghymru yn 2017, a oedd yn cyd-fynd â Gŵyl Sŵn ac ail ben-blwydd Caerdydd Creadigol.

- Nod y digwyddiad oedd dod â lleisiau creadigol rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg yn niwydiant ffyniannus celfyddydol a chreadigol Cymru ynghyd i ddechrau cyfnewidfa ac archwilio eu gwerth a'u rôl mewn adfywio.
- Costiodd £33,000, ac roedd 100 o weithwyr proffesiynol a dylanwadwyr o'r diwydiant celfyddydol yn bresennol, gan gynnwys 30 o gynrychiolwyr rhyngwladol o 20 o wledydd. Mae llawer o brosiectau cydweithredol yn cael eu datblygu gan y cynrychiolwyr, gan gynnwys rhaglen gyfnewid symudedd â Latfia, ac mae artist o Gymru wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect graffiti ym Mwdapest.

  **visitingarts.org.uk/our-networks/creative-tracks**

# BETH SYDD GAN Y SECTOR YNG NGHYMRU I'W DDWEUD: DADANSODDI GRWPIAU FFOCWS

Mae dadansoddiad pellach o'r grwpiau ffocws yn Atodiad 4.

Gofynnwyd pum prif gwestiwn:

1. **O safbwynt yr artist, gwneuthurwyr a phobl greadigol, beth yn eich profiad chi yw'r ffordd orau o arddangos y celfyddydau o Gymru?**

Mae angen i artistiaid a sefydliadau celfyddydol ddechrau o sail gadarn. Mae angen bod cyllid domestig ar waith sy'n hirdymor, yn gyson â'r gylchred arddangos ryngwladol ac yn hyblyg.

Mae angen hunan-gynrychiolaeth dda ar artistiaid: proffil da ar-lein a phroffil da ym mhrif leoliadau cyflwyno gwledydd Prydain (Llundain, Manceinion, Caeredin) a thramor. Cydnabuwyd bod rhywfaint o hyfforddiant yn bwysig, ond bod meithrin canolwyr hefyd yn bwysig.

*'Mae angen asiantau i bontio'r gwacter rhwng yr artist a'r farchnad'.*

Mae asiantau'n bwysig iawn, yn enwedig wrth bontio'r bwlch, sy'n arbennig o wir ym maes celfyddydau gweledol a cherddoriaeth. Mae cyfleoedd cynnar hefyd yn bwysig, er enghraifft rhwydwaith o leoliadau cerddoriaeth, cwmnïau ysgrifennu newydd megis Paines Plough, a lleoliadau sy'n meithrin talent newydd megis Cambridge Junction. Gwneir rhywfaint o waith yn Pontio a FOCUS Wales yn y gogledd, Canolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd, Martin Tinney a Gallery 10 ar gyfer y celfyddydau gweledol, ond yn gyffredinol mae asiantau a broceriaid yn dueddol o fod y tu allan i Gymru.

Gofynnwyd y cwestiwn, 'A yw Lloegr yn ddigwyddiad rhyngwladol? Rydyn ni'n gallu cael cefnogaeth i fynd i Bilbao ond nid i Brighton'. Gofynnwyd am eglurhad gan gyllidwyr. Nodwyd mai yn Radio 3 a Llundain y mae'r rhwydwaith cerddoriaeth glasurol, ac mai dyna hefyd yw'r rhwystr. Mae strategaethau i adeiladu perthnasau a rhwydweithiau cryfach yn bwysig.

Mae rhwydweithiau'n bwysig. Gallant helpu gyda throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau, ynghyd â phroffilio gwaith. Mae'n hanfodol bod mwy o artistiaid/sefydliadau diwylliannol Cymru yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau, a dod â chynadleddau rhwydweithio mawr i Gymru. Mae enghreifftiau o rwydweithiau effeithiol yn cynnwys gwyliau a llwyfannau Eurosonic a Rhaglen Gyfnewid Talent Ewrop Yourope. Mae holl gyllid yr Undeb Ewropeaidd nawr yn mynd tuag at ddatblygu cynulleidfaoedd a'r marchnadoedd y mae'n eu cymell.

Gall gwobrau fod yn llwyfan pwysig ar gyfer hyrwyddo, yn enwedig ym maes llenyddiaeth, gan ei fod yn codi proffil artistiaid.

Mae gweithio dwy ffordd yn bwysig, gan mai datblygu perthnasau yw'r hyn sydd wir yn adeiladu rhaglenni rhyngwladol effeithiol.

## ASTUDIAETH ACHOS
DIGWYDDIAD ARDDANGOS PENODOL I'R SECTOR YNG NGHYMRU

### Agor Drysau

Gŵyl ddwyflynyddol benodol i'r sector, a gynhaliwyd am wyth mlynedd yn Aberystwyth ar arfordir y gorllewin, a oedd yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd ifanc Cymru weld gwaith theatr mawr ei fri o Gymru a thramor.

- Yn 2014, gwariwyd £133,000 i gyd, ac roedd dros 4000 o ymwelwyr, a 121 o artistiaid, cyfarwyddwyr rhyngwladol, gwahoddedigion a chynrychiolwyr o 24 gwlad yn bresennol.
- Digwyddiad pedwar neu pum diwrnod oedd prif ran yr ŵyl, gyda rhaglen o oddeutu 40 o ddigwyddiadau, gan gynnwys 16-18 o gynyrchiadau o Gymru a gwledydd eraill. Trefnir perfformiadau o'r cynyrchiadau rhyngwladol mewn theatrau yn rhannau eraill o Gymru. Cynigir cyfres academaidd o drafodaethau, gweithdai a seminarau ar gyfer gweithwyr proffesiynol o Gymru a rhai rhyngwladol a myfyrwyr.
- Mae hyrwyddwyr, archebwyr a rhaglenwyr rhyngwladol yn gweld cynyrchiadau ochr yn ochr â chynulleidfaoedd ifanc, ac mae adran 'gŵyl ymylol' yn rhoi gofod i waith newydd, darnau sydd ar waith, gwaith gan fyfyrwyr a phobl ifanc broffesiynol.
- Mae'r cwmni sy'n cynnal yr ŵyl, sef Cwmni Theatr Arad Goch, wedi teithio a pherfformio dramor yn aml: yn ystod y tair blynedd ddiwethaf maen nhw wedi mynd â naw taith i Gatalonia a Ffrainc, ac ymweliadau eraill i berfformio mewn gwyliau yn Rwsia, De Corea a Thiwnisia.

  agordrysau-openingdoors.org.uk

### 2. O safbwynt y cynhyrchydd/hyrwyddwr/cyfarwyddwr gwyliau/rheolwr rhaglen, beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol rydych chi wedi'u profi o weld gwaith er mwyn eu rhaglennu?

Mae angen cyllid ar gynhyrchwyr a hyrwyddwyr i deithio i ddigwyddiadau rhyngwladol, ac amlygwyd datblygu rhwydweithiau effeithiol hefyd fel ffordd effeithiol o weld gwaith er mwyn ei raglennu.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymchwilio eich safle yn y farchnad ac adnabod eich cynulleidfa a'r hyn rydych eisiau ei gyflawni. Yr enghraifft a gynigiwyd oedd Gŵyl Lenyddiaeth Dinefwr, sydd â'r nod o fod yn wahanol ac sydd wedi cael llwyddiant sylweddol.

Mae lleoliadau a gwyliau yn dewis eu gwaith a'u rhaglenni yn ôl ardystiadau gan wahanol ffynonellau maen nhw'n ymddiried ynddynt. Maent yn edrych ar rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli.

Nid yw hyrwyddo Cymreictod yn ddefnyddiol. Arddangos y gwaith gorau o Gymru a'r tu hwnt sydd fwyaf llwyddiannus.

Mae cynigion penodol i'r sector a sgiliau meddal megis datrysiadau creadigol i addysg yn farchnadoedd pwysig i Gymru.

Mae'n bwysig datblygu meistri chwaeth ynghyd â dod â chynrychiolwyr rhyngwladol yma. Mae Showcase Scotland yn fodel da, gan fod meini prawf llym yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer yr artistiaid a'r cynrychiolwyr – rhaid i'r artistiaid fod yn barod i'w hallforio, gydag isadeiledd cryf, ac mae angen bod y cynrychiolwyr yn gallu archebu artistiaid a theithiau (ac os nad ydynt yn gwneud hyn, does dim croeso iddynt yn y blynyddoedd canlynol).

Mae pobl eisiau mynd i leoedd lle mae sgyrsiau da a lle mae'r gwaith yn denu. Mae'n bwysig iawn cael digwyddiadau i'r diwydiant mewn gŵyl ehangach, a chael hanner diwrnod o deithiau diwylliannol neu dreftadaeth ehangach.

Mae amseru ac amserlenni'n bwysig iawn. Cynghorwyd y dylid amserlenni uchafswm o ddau neu dri diwrnod ar gyfer arddangos. Mae hefyd yn bwysig sicrhau yr amserir y digwyddiad ehangach i ddilyn digwyddiadau mawr eraill, fel bod modd i archebwyr fynd o un i'r llall, neu ar adeg sy'n fwy rhydd yn y calendr.

## ASTUDIAETH ACHOS
## YR ALBAN: GWAHODD Y DIWYDIANT I DDIGWYDDIAD ARDDANGOS

### Showcase Scotland

Nod Showcase Scotland yw sicrhau perfformiadau i artistiaid o'r Alban ar raddfa fyd-eang, creu cynulleidfaoedd newydd ar gyfer artistiaid sy'n bodoli a chyflwyno artistiad newydd i gynulleidfaoedd sy'n bodoli. Cynhelir y digwyddiad yn Celtic Connections, gŵyl ryngwladol i'r cyhoedd.

- Arddangosir artistiaid o'r Alban dros gyfnod o bum diwrnod yn ystod y cyfnod. Mae Showcase Scotland yn amlygu partner rhyngwladol bob blwyddyn; Iwerddon oedd y partner hwn yn 2018. Mae oddeutu 45 o ddigwyddiadau mewn 20 o leoliadau.
- Mae'n canolbwyntio ar dargedau a chanlyniadau. Nid oes mwy na 200 o leoedd i gynrychiolwyr er mwyn cadw'r ffocws. Mae angen amcanion clir ar gynrychiolwyr yn eu ceisiadau; os nad ydynt yn archebu i weld o leiaf ddau fand ni fyddant yn cael eu gwahodd eto. Disgwylir i bob cynrychiolwr dalu ffi gofrestru o £150, a chostau teithio a llety er mwyn mynd. Dim ond oddeutu 16 o gynrychiolwyr sy'n gweithio gyda British Council yr Alban all gael cymhorthdal i gymryd rhan.

  celticconnections.com/Pages/ShowcaseScotland.aspx

## 3. Beth yw'r rhwystrau rhag arddangos y celfyddydau o Gymru yn effeithiol?

Mae'r rhwystrau rhag arddangos yn effeithiol yn atgyfnerthu'r thema o ddiffyg adnoddau. Amser, capasiti a chyllid yw'r problemau. O ran cyllid, cyfeiriwyd at gyllid hirdymor a hyblyg fel model gwell, a chynigiwyd Cyngor Canada fel enghraifft o arfer da. Mae angen cynllun deng mlynedd.

Yn ogystal, gwerthuso amrwd sydd wedi bod yn y gorffennol, ac nid yw'n mesur canlyniadau buddsoddi gwirioneddol.

*'Mae meini prawf i gael cyllid yn eich gorfodi chi i fesurau cul, lle mewn gwirionedd mae angen cyfres eang o effeithiau arnon ni'.*

Nodwyd bod gormodedd o asiantaethau a diffyg integreiddio yn atal cynnydd. Er enghraifft, yn y sector cerddoriaeth,

*'Mae'r arbenigedd i'w gael yn y sector – mae gan dimau Sŵn, Trac a FOCUS Wales y sgiliau a'r wybodaeth, ond mae pob un yn troi at bobl wahanol am gyllid, ac nid ydynt yn gweithredu gyda'i gilydd'.*

Awgrymwyd y byddai'n well cyfuno'r arian i greu cronfa graidd ar gyfer y sector er mwyn eu galluogi i gydweithio, i gynnal eu digwyddiadau ac i ddynodi £500,000 ar gyfer adeiladu capasiti.

*'Rydyn ni'n rhy fach i gael cymaint o seilos – mae angen o leiaf bedwar o bobl arnom i fynd i'r Great Escape yn Brighton'.*

Byddai swyddfa allforio cerddoriaeth Cymru/Sefydliad Cerddoriaeth Cymru yn ddatrysiad da.

### 4. Sut fyddech chi'n hoffi gweld y sector cyhoeddus yn cefnogi arddangos celfyddydau o Gymru'n rhyngwladol?

Roedd y grwpiau'n teimlo bod absenoldeb cydlyniad cyrff cyhoeddus a diffyg gweledigaeth a strategaeth genedlaethol yn cyfrannu at danberfformiad y sector celfyddydol/diwylliannol yn gyffredinol.

Roedd galw am weithio ar draws asiantaethau cyhoeddus Cymru: materion rhyngwladol ac Ewrop, cysylltiadau allanol, diwylliant, diwydiannau creadigol, twristiaeth, masnachu tramor ac ati.

*'Mae gweithio gyda theithiau masnach Cymru yn fuddiol i'r ddwy ochr. Pan oedden ni yn Tsieina, yr ymateb busnes oedd ein bod ni'n cynyddu pa mor unigryw oedd y daith fasnachu'.*

Roedd galwad am

*'Fentrau mawr ac amlwg, wedi'u llywodraethu a'u cyllido'n dda… nid oes modd gwneud hyn gydag ychydig arian a chasglu cyllidebau sy'n bodoli at ei gilydd'.*

*'Bydd angen buddsoddiad mawr arno i ddatblygu, ond byddai'n arwain at ganlyniadau mawr. Mae ymyriadau bach yn gallu mynd ar goll'.*

Mae angen dull strategol hirdymor gydag uchelgais o ddeg i ugain mlynedd.

### 5. Beth hoffech chi weld Cymru yn ei wneud er mwyn proffilio ei chelfyddydau a'i diwylliant yn well yn rhyngwladol?

Roedd cefnogaeth gref ym mhob grŵp ffocws i'r potensial am fuddsoddiad mawr a chreu gŵyl neu raglen ryngwladol. Yn Abertawe, roedd cefnogaeth i ddigwyddiad graddfa fawr ar draws sectorau, ac yn Aberystwyth roedd mwy o duedd tuag at ymyriadau bach a phenodol ond o ansawdd da. Yn y gogledd, teimlwyd ei bod yn anodd treiddio'r gwaith drwy'r 'llen llechi' er mwyn cael eu gweld yn y de, ac mae hyn yn broblem.

Roedd cefnogaeth gref ym mhob rhanbarth i grantiau penodol i artistiaid i'w galluogi i ryngwladoli eu gwaith, cael mynediad at farchnadoedd a ffeiriau masnach rhyngwladol a dod â chynrychiolwyr rhyngwladol i Gymru.

Cytunwyd hefyd bod adeiladu ar lwyddiannau presennol a'u cydnabod yn bwysig. Er enghraifft, mae Gŵyl Gomedi Machynlleth a Chrefft Comedi yn denu niferoedd mawr o'r cyhoedd, ac nid oes llawer o glod i'r diwydiant yn dal i fod ar draws Cymru.

# CYLLIDO AC ENILLION AR FUDDSODDIAD

Er gwaethaf degawdau o astudiaethau effaith economaidd a gwerthusiadau, yn aml nid yw tystiolaeth o werth ychwanegol ac effaith economaidd rhaglenni celfyddydol a diwylliannol yn ddigon cadarn i ganiatáu blaenoriaethu dewisiadau cyllido a mathau eraill o gefnogaeth.

Yn gynyddol, y gyrwyr buddsoddi presennol yn y sector yw'r rhai sy'n amlygu'r effaith ar anghydraddoldebau sy'n gwrthweithio mewn cymdeithas, ac mae wedi'i hen sefydlu bod effeithiau cymdeithasol pellgyrhaeddol o ganlyniad i ddigwyddiadau graddfa fawr. Ynghyd â'r effeithiau economaidd, dyma'r fectorau sy'n pennu'r enillion ar fuddsoddiad yn y pen draw.

Fel arfer, caiff y ddwy elfen - astudiaethau effaith a gwerth tybiedig – eu hategu â defnydd o naratif ac astudiaethau achos i lunio canlyniadau cymdeithasol mwy hirdymor rhaglenni celfyddydol, hynny yw'r canlyniadau hynny sy'n anodd eu cyfleu yn aml.

Y drafferth yw bod pob elfen yn yr asesiad yn dibynnu ar safon methodoleg yr ymchwil a'r arfer sy'n sail iddo. Mae beirniadaeth sylweddol wedi bod o bob elfen sy'n rhan o'r broses gasglu tystiolaeth. Er enghraifft, dangosodd astudiaethau diweddar ar enillion ar fuddsoddiad digwyddiad arddangos British Dance Edition mai prin oedd y dystiolaeth o fantais economaidd uniongyrchol o ran archebu sioeau i fynd ar deithiau. Mae hyn yn awgrymu un ai bod camgymhariad rhwng y gwaith a'r hyrwyddwyr, neu fod angen amserlen hirach ar y canlyniadau nag a ganiatawyd gan y gwerthusiad. Mae hefyd yn awgrymu efallai bod angen ystyried canlyniadau eraill ar y digwyddiad, megis adeiladu capasiti a hyfforddiant, ochr yn ochr â'r diben o werthu sioeau, a all ddod o dan ddylanwad newidiadau byd-eang, symud pwyslais neu chwaeth, neu ffactorau allanol eraill.

Mae'r atodiad yn rhoi dadansoddiad o'r methodolegau a ddefnyddiwyd mewn 14 adroddiad diweddar, ac mae'n rhoi argymhellion ar sut gellir dod â thystiolaeth ynghyd i ddarparu dadleuon gwell ar gyfer buddsoddi ym maes arddangos yn rhyngwladol.




Khamira yng Ngŵyl y Gelli India Cymru Mela 2017. Delwedd gan: Rosa Bickerton

# CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

**Mae'r argymellion sy'n dilyn yn seiliedig ar ein gwaith ymchwil ac yn ymateb i'r negeseuon cyson y gwnaethom ni glywed; bod angen i ni ddod â hyrwyddwyr rhyngwladol i Gymru a manteisio'n llawn ar eu presenoldeb; bod angen presenoldeb mwy effeithiol, cyson a strategol ar Gymru yn y digwyddiadau rhyngwladol cywir; bod angen sgiliau cryfach ar artistiaid a sefydliadau diwylliannol yng Nghymru i arddangos eu gwaith a'r wlad yn effeithiol; a bod angen i'r sector drwyddi draw gymryd camau mwy integredig, strategol ac amlasiantaethol o ran arddangos yn rhyngwladol.**

## EGWYDDORION SYLFAENOL

Os yw arddangos yn mynd i greu argraff arwyddocaol, mae angen buddsoddiad newydd a dulliau gweithredu mwy strategol a chydgysylltiedig gan yr holl asiantaethau a rhanddeiliaid sy'n gweithio ym maes cysylltu, hyrwyddo ac arddangos Cymru a thalent Gymreig.

Bydd angen newidiadau sylweddol i'r dulliau cyfredol o weithredu. Ni fydd newidiadau bychain i'r drefn sydd ohoni yn ddigon i sicrhau'r newidiadau mawr sy'n angenrheidiol.

Mae ystod eang y safbwyntiau a'r dulliau gweithredu a adlewyrchir yn yr adroddiad yma'n cynrychioli amrywiaeth y sector gelfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Er gwaetha'r amrywiaeth eang o leisiau, roedd negeseuon cyson yn ein taro dro ar ôl tro.

Awgrymodd mwyafrif y rhai a holwyd mai adeiladu ar lwyddiannau cyfredol oedd y ffordd orau o arddangos gwaith o Gymru yn hytrach na chreu cyfrwng newydd sbon.

Yn hytrach na datblygu mentrau gwleidyddol neu fentrau sector cyhoeddus newydd i arddangos Cymru, roedd y rhai a holwyd yn pwysleisio'r angen i ddatblygu'r cyfryngau y mae parch iddynt eisoes ac y gellir ymddiried ynddynt i arddangos celfyddydau ac artistiaid Cymru.

Hefyd, nododd ein hymchwil bod angen presenoldeb Cymreig cyson a gwybodus mewn digwyddiadau arddangos allweddol. Mae'r drefn sydd ohoni'n ymddangos braidd yn 'ad hoc' ac anghyson.

Mae llu o asiantaethau'n gweithio ar draws y maes celfyddydol a diwylliannol rhyngwladol yng Nghymru. Mae angen dull gweithredu mwy cydlynol a hirdymor. Mae angen i'r holl asiantaethau yma weithio'n agosach gyda'i gilydd a datblygu model partneriaeth gref sy'n galluogi rhannu gwybodaeth, cynllunio a blaenoriaethu a rhannu amcanion clir i helpu'r sector yn gyffredinol yng Nghymru.

Mae ein hargymhellion yn adlewyrchu'r angen am ddulliau gweithredu mwy integredig a strategol gydag ymyriadau ym mhob agwedd: polisi, ariannu, arfer a chyflawni. Dyma'r ffordd orau i sicrhau effaith arwyddocaol ar y celfyddydau, y sefydliadau diwylliannol a Chymru'n gyffredinol.

Mae pedair rhan allweddol i'n hargymhellion;

1. Dod â'r sector i Gymru
2. Presenoldeb Cymru mewn fforymau rhyngwladol
3. Cryfhau sgiliau arddangos y sector
4. Dull gweithredu integredig ac amlasiantaethol

## 1. Dod â’r sector i Gymru

**Gallai hyn gynnwys:**

a. *Cynnwys elfen arddangos fel rhan o ddigwyddiad sy’n bodoli eisoes*

- Cynnwys elfen arddangos, na fyddai’n para mwy na dau neu dri diwrnod, fel rhan o ŵyl fwy â phroffil rhyngwladol sydd eisoes wedi ennill ei phlwyf. Byddai hyn yn denu hyrwyddwyr a chyflwynwyr rhyngwladol i Gymru ar gyfer digwyddiad a fyddai’n cynnig platfform i waith o Gymru dan adain digwyddiad sydd eisoes yn llwyddo i gyflwyno gwaith o’r radd flaenaf o bob rhan o’r byd.
- Creu rhaglen integredig i gynrychiolwyr rhyngwladol gyda rheoli da a monitro gofalus yn unol â’r canllawiau arfer da a amlinellir yn yr adroddiad yma.
- Yr egwyddorion ar waith fyddai;
  - Gwaith cynhyrfus ac arloesol (arbenigol). O ran gŵyl yng Nghymru byddai angen iddi gynnwys gwaith rhyngwladol ac nid gwaith o Gymru’n unig.
  - Adlewyrchu cryfderau Cymru, fel gwaith sensitif-i-safle, gwaith sy’n ymgysylltu â’r gymuned, celf ym maes iechyd a dysgu creadigol.
  - Creu cyfleoedd i rwydweithio gyda chymheiriaid.
  - Manteisio ar gysylltiadau a pherthnasedd lleol: straeon, llefydd a phobl Cymru.
  - Creu rhaglen o ymgysylltu a chyfranogi ar gyfer cynrychiolwyr sy’n manteisio ar adnoddau’r ddinas gyfan.
  - Cynnwys digwyddiadau ledled y ddinas neu gymryd canolfannau drosodd a chyflwyno gwaith mewn mannau anhraddodiadol.
  - Meithrin cysylltiadau â’r sector gelfyddydau ehangach a sicrhau bod buddion yn cael eu rhannu.

b. *Datblygu digwyddiad nodedig newydd / platfform arddangos*

- Fel arall, neu’n ychwanegol, creu digwyddiad dathlu mawr (yn flynyddol neu bob yn eilflwydd) sy’n datblygu gŵyl sy’n bodoli eisoes. Byddai hwn yn ddigwyddiad ‘nodedig’ a byddai angen iddo gynnal diddordeb rhyngwladol dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- Byddai arian yn cael ei gyfeirio at elfennau penodol; y bwriad fyddai creu digwyddiad sy’n ‘fwy na chyfuniad ei rannau unigol’ – fel cymryd canol dinas drosodd yn gyfan gwbl yn ystod yr ŵyl, cryfhau a gwella’r rhaglen ryngwladol, creu dirprwyaeth ryngwladol, newid cywair y marchnata, ayb.
- Byddai angen i raglen/ŵyl o’r fath redeg am o leiaf ddeng mlynedd er mwyn sicrhau creu o leiaf pum digwyddiad. Er y gallai’r digwyddiadau yma fod â themâu gwahanol, byddai angen iddynt ddatblygu natur a chymeriad unedig gan adlewyrchu diwylliant, gwerthoedd a lleisiau Cymru: digwyddiadau dathlu, sensitif-i-safle, cynhwysol ac ar raddfa fawr.

c. *Cynnal digwyddiadau symudol y diwydiant rhyngwladol*

- Cynnal un o ddigwyddiadau mawr y sector rhyngwladol, a sicrhau y byddai’n cynnwys digwyddiad arddangos Cymreig. Byddai rhwng tri a phum digwyddiad o’r fath yn digwydd yn ystod y cyfnod deng mlynedd. Byddai hyn yn hoelio’r argraff fod Cymru’n lle da i gynnal cyflwyniadau a thrafodaethau rhyngwladol.

## 2. Presenoldeb Cymru mewn fforymau rhyngwladol

*a. Presenoldeb cyson a gwybodus mewn digwyddiadau rhyngwladol*

- Creu a chynnal presenoldeb strategol Cymreig (artistiaid a/neu aelodau proffesiynol o'r diwydiant) yn y prif ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio rhyngwladol – yn y DU a thramor.
- Dewis cynrychiolwyr i fynychu fforymau sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fanteisio'n llawn ar y cyfle – fel unigolion ac ar ran y sector gyfan.
- Rhoi systemau yn eu lle i alluogi rhannu gwybodaeth a ddysgwyd gyda'r sector ehangach.

*b. Meithrin perthnasau tymor hir*

- Creu rhwydwaith ryngwladol o asiantaethau/asiantau i hyrwyddo a chefnogi mentrau o bwys yng Nghymru. Mae asiantaethau penodol i sector fel Music Export Agencies neu Showcase Scotland yn enghreifftiau o fodelau da. Sicrhau bod y rhwydwaith yma'n derbyn gwybodaeth reolaidd am y datblygiadau diweddaraf ym myd y Celfyddydau yng Nghymru.
- Sicrhau cysylltiadau cryf gyda UK Culture Diary
- Datblygu'r rhwydwaith o breswylfeydd i artistiaid a hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth o gyfleoedd preswyl yng Nghymru trwy feithrin gwell cysylltiadau gyda ResArtis neu trwy greu cofrestr benodol i Gymru.

## 3. Cryfhau sgiliau arddangos y sector

*a. Datblygu sgiliau'r sector*

- Manteisio ar yr ymchwil sy'n sylfaen i'r adroddiad yma er mwyn cynnig gwell cefnogaeth i'r sector, fel bod gwaith o Gymru nid yn unig yn rhagorol ond yn 'barod i'w allforio' hefyd. Byddai hynny'n golygu datblygu sgiliau meddal, datblygu portffolios marchnata/digidol ac arian ar gyfer teithio lleol a chenedlaethol.
- Cefnogi artistiaid i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i arddangos eu gwaith yn rhyngwladol, gan gynnwys perfformio, arddangos a theithio i ganolfannau lleol, a dod yn rhan o rwydweithiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn dysgu, rhannu gwybodaeth a datblygu'r cywair beirniadol angenrheidiol i osod eu gwaith mewn cyd-destun rhyngwladol.
- Sicrhau bod blaenoriaeth uwch i farchnata mewn cytundebau ariannu.

*b. Meithrin sgiliau cyfryngwyr (fel cynhyrchwyr, curaduron ac asiantau)*

- Sefydlu cynllun mentora strwythuredig i rannu gwybodaeth rhwng cymheiriaid.
- Creu cynllun wedi'i dargedu ar gyfer teithio i ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio, gyda gofyn bod cynrychiolwyr yn adrodd yn ôl i'r sector trwy ddigwyddiadau rhannu (gan gynnwys cyfryngau ar-lein).
- Creu system i alluogi cysgodi yn y gweithle a chynlluniau hyfforddi gyda chynhyrchwyr rhyngwladol sy'n dod i weithio yng Nghymru (ac sy'n gweithio tu hwnt i Gymru).
- Datblygu cyfres o rwydweithiau o sgowtiaid rhyngwladol a threfnwyr teithiau.

*c. Cefnogi gwaith lleol*

- Cynnig cefnogaeth effeithiol i waith lleol, gan gynnwys strwythurau teithio lleol, ac annog amrywiaeth o leisiau, arddulliau a syniadau.
- Gwerthfawrogi potensial grwpiau alltud i arwain a chyfoethogi gweithgareddau rhyngwladol. Dylai pob datblygiad newydd gynnwys lleisiau lleol ac amrywiol o gychwyn cyntaf y fenter.

*d. Uwchsgilio cynrychiolwyr*

- Datblygu pecynnau hyfforddi ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru (swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, Masnach a Diwydiant, Twristiaeth ayb) fel bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru (fel preswylfeydd, gwyliau a chanolfannau), dyddiadau digwyddiadau mawr a'r artistiaid allweddol sy'n 'barod i'w allforio' a'r sefydliadau diwylliannol Cymreig. Byddai hynny'n cynnwys gwasanaethau arbenigol fel y celfyddydau ac iechyd, y celfyddydau a'r henoed a dysgu creadigol mewn ysgolion.

## 4. Dull gweithredu integredig ac amlasiantaethol

Rhaid i'r sector gyd-weithio er mwyn;

*a. Creu presenoldeb rhyngwladol strategol*

- Canfod y platfformau rhyngwladol allweddol lle dylai fod presenoldeb cyson gan Gymru.
- Pennu'r cynrychiolydd gorau, o safbwynt strategol, i fynychu digwyddiadau penodol.
- Sicrhau fod gan gynrychiolwyr y sgiliau a'r cysylltiadau angenrheidiol i fanteisio'n llawn ar yr amser maen nhw'n treulio mewn digwyddiadau.

*b. Hwyluso'r gwaith o rannu sgiliau a gwybodaeth o fewn i'r sector*

- Darparu platfform ar gyfer rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau a chysylltiadau o fewn i'r sector.

*c. Cydlynu buddsoddiad*

- Datblygu rhaglenni gwaith yn hytrach na phrosiectau untro. Datblygu pecynnau ariannu newydd ac ymroddiadau hirdymor. Byddai 'ariannu amyneddgar' a benthyciadau a chynlluniau llwybr integredig (yn hytrach na chyfundrefn ariannu untro blynyddol) yn meithrin cynlluniau rhyngwladol mwy cynaliadwy, boed hynny'n golygu mynychu digwyddiadau arddangos neu ail-lwyfannu gwaith fel ei fod yn 'barod i'w allforio'.
- Tynnu asiantaethau ynghyd i greu cronfa ariannu ar gyfer digwyddiadau diwylliannol o bwys a gwahodd ceisiadau gan y sector.
- Creu cronfa arddangos ryngwladol i ariannu artistiaid a sefydliadau diwylliannol i deithio i ddigwyddiadau arddangos yn y DU ac yn rhyngwladol. Byddai hyn yn golygu gosod targedau ac amodau ar gyfer y cyfranogwyr. Byddai'r amodau'n cynnwys cymryd rhan mewn cyfres barhaus o ddigwyddiadau rhwydweithio rhyngwladol gyda rhwydweithio strwythuredig, siaradwyr allweddol a chanlyniadau penodol - fel cyfnewid manylion cyswllt, rhannu cysylltiadau, nodi materion allweddol ac anghenion hyfforddiant. Dylid sicrhau adborth gan dderbynwyr grantiau teithio a/neu fynychwyr digwyddiadau arddangos y sector.
- Galluogi defnyddio arian cyllido newydd, strategol ac 'ad-hoc', megis arian sydd eisoes ar gael ar gyfer mentrau rhyngwladol na glustnodwyd yn benodol ar gyfer y celfyddydau, digwyddiadau o bwys nad sy'n ymwneud yn benodol â'r celfyddydau, cyrff ariannu'r celfyddydau sy'n bodoli eisoes, asiantaethau rhyngwladol sy'n bodoli eisoes. Hefyd, canfod cyfleoedd ariannu sy'n bodoli eisoes neu sydd ar fin ymddangos o ffynonellau llywodraeth y DU yn lle ffynonellau ariannu'r Undeb Ewropeaidd, mentrau adfywio a mentrau diwylliannol ayb.
- Ceisio nawdd corfforaethol. Mae menter o bwys yn fwy tebygol o ddenu nawdd, yn enwedig gan gwmnïau gradd uchaf sy'n newydd-ddyfodiaid i Gymru fel Aston Martin a Qatar Airways.

*d. Osgoi dyblygu a sicrhau eglurder o fewn i'r sector*

- Creu consortiwm i gefnogi meithrin sgiliau newydd ac annog rhannu gwybodaeth a phrofiad. Byddai hefyd yn gallu cynnig trosolwg o benderfyniadau ariannu prosiectau cysylltiedig o fewn i Gyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig a rhoi sylw llawn i ariannu rhyngwladol er mwyn creu llwybr datblygu clir ar draws yr asiantaethau y gellid ei adolygu'n flynyddol.
- Adolygu swyddogaethau a chylchoedd gwaith yr asiantaethau sy'n bodoli eisoes er mwyn cynnig argymhellion i symleiddio prosesau ac osgoi dryswch a dyblygu. Mae swyddogaethau allweddol yr asiantaethau perthnasol a nodwyd yn yr adroddiad yma'n cynnwys:
  - Canfod, cefnogi a meithrin talent yng Nghymru.
  - Datblygu cyfleoedd yng Nghymru ar gyfer digwyddiadau arddangos lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
  - Ariannu ymweliadau 'gweld gwaith', rhwydweithio a chyfleoedd arddangos dramor.
  - Datblygu sgiliau cyfryngwyr a meithrin gallu'r sector.
  - Creu cyfleoedd ar gyfer arddangos dramor.
  - Darparu arian dilynol i wobrwyo llwyddiannau a datblygu llwybrau.
  - Cydlynu'r gwaith o rannu gwybodaeth a dysgu gan gymheiriaid.
  - Arweiniad, cynllunio a gweithredu strategol. Mae angen i hyn fod yn hirdymor a chyson er mwyn sicrhau cydlifiad blaenoriaethau a digwyddiadau'r gwahanol asiantaethau dros ddeng mlynedd.

# *ATODIAD 1* METHODOLEG

Er mwyn ceisio cynnal dull a arweinir gan y sector wrth nodi opsiynau ac argymhellion, yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a Gorffennaf 2018 cynhaliodd Visiting Arts:

- ymchwil desg ar yr adroddiadau arwyddocaol sydd eisoes yn bodoli ar y pwnc

Nodwyd 80 o destunau (gweler Atodiad 2) a gwnaed dadansoddiad o sampl o 14 o'r adroddiadau mwyaf perthnasol (gweler Atodiad 6).

- arolwg dwyieithog ar-lein ar draws Cymru

Cynhaliwyd hwn dros gyfnod o dair wythnos ym mis Mai 2018, ac fe'i dosbarthwyd i ymarferwyr a sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio yn y celfyddydau drwy restr e-bost Cyngor Celfyddydau Cymru, y grŵp rhanddeiliaid, a rhwydweithiau cyfranogwyr grwpiau ffocws, ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mewn cyfres o 30 o gwestiynau, roedd yr arolwg yn gofyn am fanteision, rhwystrau a maint arddangos yn rhyngwladol, ac am adborth ar ba ddull fyddai'n cael yr effaith fwyaf. Derbyniwyd 70 o ymatebion ac mae dadansoddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

- Pedwar grŵp ffocws yn Llandudno, Aberystwyth, Caerdydd ac Abertawe

Rhoddwyd taflenni gwaith i bob grŵp ffocws, gyda phedwar cwestiwn allweddol. Trafodwyd y cwestiynau mewn grwpiau, ac yna roedd unigolion yn llenwi'r taflenni gwaith, a gasglwyd at ei gilydd a'u dadansoddi. Mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

- 46 o gyfweliadau gydag arbenigwyr lleol a rhyngwladol.

Cynhaliwyd y rhain ar y ffôn neu wyneb yn wyneb ac, fel arfer, am gyfnod o awr. Roedd y sgyrsiau'n cynnwys rhai cwestiynau cyffredinol am safbwyntiau ar arddangos yn rhyngwladol, canfyddiadau o Gymru a rhai cwestiynau mwy penodol wedi'u teilwra i brofiad ac arbenigedd y cyfweleion.

Dyluniwyd y dull gan gadw mewn cof y dylai'r argymhellion ganolbwyntio'n bennaf ar y diwydiant (ond heb fod yn gyfyngedig iddo), yn hytrach na'r cyhoedd, ac mae angen darparu enillion sylweddol ar fuddsoddiad cyhoeddus.

Mae grŵp rhanddeiliaid o ddylanwadwyr o Gymru wedi bod yn rhan o wneud argymhellion ac awgrymiadau drwy gydol y broses. Bu iddyn nhw gwrdd pedair gwaith yn ystod y broses. Y tro cyntaf er mwyn llywio'r strategaeth, yr ail dro i gael diweddariad ar y cynnydd a chanfyddiadau cychwynnol ac i wneud sylwadau am waith pellach, a'r trydydd i drafod drafft cyntaf yr adroddiad a chanfyddiadau. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp llywio hefyd gefnogi'r prosiect drwy ddosbarthu'r arolwg ar-lein ac annog cydweithwyr i gyfrannu at yr adroddiad. Roedd aelodau'r grŵp llywio fel a ganlyn:

Alison Woods, Prif Weithredwr Syrcas NoFit State; Andy Eagle, Prif Weithredwr, Chapter; Betsan Moses, Prif Weithredwr, yr Eisteddfod Genedlaethol; Ceri Jones, Cyfarwyddwr, Fieldworks; David Anderson, Prif Weithredwr, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru; Elena Schmitz, Pennaeth Rhaglenni, Llenyddiaeth Cymru; Eluned Haf, Cyfarwyddwr, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru; Graeme Farrow, Prif Weithredwr, Canolfan Mileniwm Cymru; Ifona Deeley, Pennaeth Cysylltiadau Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru; Karen Mackinnon, Cyfarwyddwr, Artes Mundi; Kate Perridge, Ymgynghorydd Annibynnol ar y Celfyddydau; Michael Garvey, Cyfarwyddwr, Cerddorfa Genedlaethol a Chorws Cymreig y BBC; Michelle Carwardine-Palmer, Cyfarwyddwr Gweithredol National Theatre Wales; Paul Kaynes, Prif Weithredwr, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru; Peter Owen, Pennaeth Diwylliant, Llywodraeth Cymru; Gwilym Williams, Pennaeth Marchnata, Uned Digwyddiadau Mawr, Llywodraeth Cymru; Ruth Cayford, Swyddog y Diwydiannau Creadigol a Diwylliant, Cyngor Caerdydd.

# *ATODIAD 2*
# ADOLYGIAD LLENYDDOL

Afifi, G. M. H., Jones, E. a Morgan, N. (2016) 'Modelling welsh cultural events'. doi: 10.1016/j.tmp.2016.04.006.BOP Consulting (2015) Gwerthusiad o Luminate, 2012 - 2014. Ar gael drwy: http://www.creativescotland.com/__data/assets/pdf_file/0009/31896/150720-CS-Evaluation-of-Luminate-Final-Report.pdf

Ymchwil Arad (2008) Astudiaeth o Effaith Ryngwladol : Gweithgarwch y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru. Ar gael drwy: http://www.arts.wales/3097.file.dld

Ymchwil Arad (2013) Gwerthusiad prosiect Legacy Trust UK Cyngor Celfyddydau Cymru: Grym y Fflam. Ar gael drwy: https://arad.wales/project/evaluation-of-arts-council-of-wales-legacy-trust-uk-project-power-of-the-flame-2011-13/

Ymchwil Arad (2015) Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru ym Miennale Fenis ar gyfer Sector y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru: Crynodeb Gweithredol Cyflwyno Effaith Cymru yn Fenis Wales in Venice. Ar gael drwy: http://www.wai.org.uk/6664.file.dld

Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (2014) Astudio'r Rhan sydd gan Eisteddfodau wrth Greu a Throsglwyddo Gwerth Diwylliannol yng Nghymru a Thu Hwnt. Ar gael drwy: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/businessschool/pdfs/AHRC_Cultural_Value_Eisteddfod.pdf

Cyngor Celfyddydau Cymru (2016) Cyfrif Dosbarthu Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru 2016-17. Ar gael drwy: http://www.assembly.wales/laid documents/agr-ld11138/agr-ld11138-w.pdf

Cyngor Celfyddydau Cymru (2009) Adroddiad Adolygu Blynyddol 2009/10 Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen Ar gael drwy: http://www.arts.wales/4801

Bonnar Keenlyside (2014) Gwyliau Celfyddydol Penodol i Safle yng Nghymru: Astudiaeth Gwmpasu. Cwmnïau Cenedlaethol Cymru.

BOP consulting (2015) 'Edinburgh Festivals: Thundering Hooves 2.0 A ten year strategy to sustain the success of Edinburgh's festival', tt. 1–93.

BOP Consulting (2015) 'Glasgow 2014 Cultural Programme Evaluation'. Ar gael drwy: http://www.creativescotland.com/__data/assets/pdf_file/0017/31670/Glasgow-2014-Cultural-Programme-Evaluation-Overarching-Report-v1-1.pdf

BOP Consulting (2016) Astudiaeth Effaith Gwyliau Caeredin 2015. Culture Place and Policy Institute (2018) 'Cultural Transformations: the Impacts of Hull Uk City of Culture 2017', (Mawrth).

BOP Consulting (2016) Gwerthusiad Biennale Lerpwl 2016. Ar gael drwy: http://www.biennial.com/files/pdfs/5931/liverpool-biennial-2016-evaluation-report.pdf

CINARS (2008) Adroddiad Arbennig CINARS y Celfyddydau Perfformio mewn Perygl.

Dinas a Sir Caerdydd (2009) PWYLLGOR CRAFFU ECONOMI A DIWYLLIANT DINAS A SIR CAERDYDD EITEM AGENDA: 6 - 12 Mawrth 2009. Ar gael drwy: https://cardiff.moderngov.co.uk/Data/Economy%20&%20Culture%20Scrutiny%20Committee/20090312/Agenda/Executive%20Response%20to%20the%20Report%20of%20the%20Community%20&%20Adult%20Services%20Scrutiny%20Committee%20entitled%20%E2%80%98Future%20Community%20Learning.pdf

Creative Scotland (2017) Adolygiad o Theatr a Dawns sy'n teithio yn yr Alban: Adroddiad Terfynol. Ar gael drwy: http://www.creativescotland.com/__data/assets/pdf_file/0019/41374/Review-of-Touring-Theatre-and-Dance-Final-Report.pdf

Dinas Derry ac Ardal Strabane (2013) Mesur Effaith Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2013. Ar gael drwy: http://meetings.derrycityandstrabanedistrict.com/documents/s20719/PPE Report - v3.pdf

Yr Undeb Ewropeaidd (2012) Report on Building a Strong Framework for Artists' Mobility. Ar gael drwy: http://online.liebertpub.com/doi/abs/10.1089/ast.2011.0805%5Cnpapers3://publication/uuid/CD953114-9F5A-4D62-952E-BE4C0F6BBCC0

FEI (2017) Gwerthuso Effaith Gwyliau yng Nghymru. Cyngor Celfyddydau Cymru.

Foreman-Peck, J. (2007) Gwerthuso Canolfan Mileniwm Cymru. Ar gael drwy: https://orca.cf.ac.uk/50178/1/wmc_full_report%5B1%5D.pdf

García, B. et al. (2013) 'European Capitals of Culture: Success Strategies and Long-Term Effects', tt. 1–236. doi: 10.2861/44227.EventIMPACTS (2016) Lumiere Llundain 2016. Ar gael drwy: http://www.eventimpacts.com/~/media/event-impacts/research/event_impact_lumiere.pdf?la=en%0A.Lewis, R. a Bennett, J. (2018) Cefnogi gwneuthurwyr i allforio: Canfyddiadau Arolwg. Ar gael drwy: http://www.craftscouncil.org.uk/content/files/Supporting_makers_to_export_report.pdf

Gattenhof, S. a Seffrin, G. (2017) Gwerthusiad o Farchnad Celfyddydau Perfformio Awstralia 2014-2018 - Adroddiad Interim Blwyddyn 4. Ar gael drwy: https://eprints.qut.edu.au/100421/1/__qut.edu.au_Documents_StaffHome_staffgroupG%24_gattenho_Documents_APAM%202016_APAM%20REPORT_2016_WEB.pdf

Gŵyl y Gelli (2012) Adroddiad Gŵyl y Gelli 2012. Ar gael drwy: https://www.hayfestival.com/portal/documents/HayFestival2012Report.pdf

Gŵyl y Gelli (2015) Adroddiad Gŵyl 'Imagine the World'. Ar gael drwy: https://www.hayfestival.com/portal/documents/Hay-Festival-2015.pdf

Gŵyl y Gelli (2016) Adroddiad Gŵyl Cartagena De Indias. Ar gael drwy: https://www.hayfestival.com/portal/documents/Hay-Festival-Cartagena-de-Indias-2016-en.pdf

Gŵyl y Gelli (2017) Adroddiad Gŵyl y Gelli 'Imagine the World 2017'. Ar gael drwy: https://www.hayfestival.com/portal/documents/Hay-Festival-2017-Report.pdf

Ymchwil a Phrosiectau HBJ (2016) Gwerthusiad Gŵyl Crai.

IETM (2017) Papur safbwynt ar werthusiad canol tymor Ewrop Greadigol ac argymhellion o ran ei olynydd ar ôl 2020. Ar gael drwy: https://www.ietm.org/sites/default/files/attachements/news/position_paper_eu_final_with_edn.pdf

Impacts08 (2009) Sector Celfyddydau a Diwylliannol Lerpwl: Partneriaethau â Sefydliadau Addysg Uwch. Ar gael drwy: http://www.larc.uk.com/wpcontent/uploads/2011/05/LiverpoolCulturalSectorandHigherEducationMappingReport1.pdf

Cymdeithas Wyliau Rhyng-geltaidd (2017) Gŵyl Ryng-geltaidd, L'Orient. Ar gael drwy: https://www.ccomptes.fr/sites/default/files/2017-10/BRR2017-32.pdf

Johnsson, E. (2006) Canllaw i ddatblygu rhaglenni adrodd straeon effeithiol ar gyfer amgueddfeydd 'Telling Tales'. Ar gael drwy: http://www.museumoflondon.org.uk/files/4413/7468/3728/Telling-Tales.pdf

Materion Ewropeaidd KEA (2013) 'Derry-Londonderry: first UK City of Culture'.

Maitland, H. (2011) Ymchwil i Gefnogi Datblygu Gŵyl Ddawns Caerdydd.

Cyngor Dinas Manceinion (2017) Eitem Weithredol 4 Cyngor Dinas Manceinion - 28 Mehefin 2017.

Cyngor Dinas Manceinion (2017) Eitem Weithredol 4 Cyngor Dinas Manceinion - 7 Hydref 2017.

MIPCOM (2013) 'The Road to Success: Mipcom Highlights'. Ar gael drwy: http://www.mipcom.com/RM/RM_MIPCOM/2013/pdf/press/mipcom-2013-highlights-uk.pdf?v=635158068704161437

Mulready, K. (2017) 'Fusion : Creating Opportunities through Culture Programme Second Year Review.' Ar gael drwy: https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170822-fusion-creating-opportunities-culture-programme-second-year-review-en.pdf

Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol (2016) Adroddiad Gwerthuso Eisteddfod 2016. Ar gael drwy: https://eisteddfod.wales/sites/default/files/resources/articles/2016%20evaluation%20report%20monmouthshire%20november%202016.pdf

Amgueddfa Genedlaethol Cymru (2016) Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi - Crynodeb Gweithredol. Ar gael drwy: http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160303-pioneer-area-programme-pilot-year-summary-en.pdf

Fforwm Teithio Gwledig Cenedlaethol (dim dyddiad) Adroddiad Prosiect Desibel bwrsariaeth fforwm teithio gwledig cenedlaethol.

Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon (2013) 'Perceptions of Derry~ Londonderry UK City of Culture 2013'. Ar gael drwy: https://tourismni.com/globalassets/facts-and-figures/research-reports/impact-of-events/impact-of-events-perceptions-of-uk-city-of-culture-2013-research-feedback.pdf

Oerol (2015) Seminar 'Sense of Place III: Realising the Impossible Art in Public Landscape'. Ar gael drwy: https://issuu.com/oeroltv/docs/report_seminar_sense_of_place_iii_o

On The Move (2013) Gwerthusiad o'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a'i heffaith ar symudedd artistiaid ac unigolion proffesiynol diwylliannol yng Nghymru. Ar gael drwy: http://www.arts.wales/64625.file.dld

Palmer/Rae Associates (2004) 'European Cities and Capitals of Culture Part 1', tt. 1–235.

Grŵp Ymchwil Polisi Prifysgol Durham (2015) Gwerthusiad o Lumiere 2015. Ar gael drwy: https://democracy.durham.gov.uk/documents/s62697/LumiereDurham 2015 Evaluation 2.pdf

Populous (2014) 2014 SXSW Gwerthusiad ar ôl y digwyddiad. Ar gael drwy: https://www.austintexas.gov/sites/default/files/files/CityStage/SXSW_2014_post_event_evaluation_report.pdf

Rodriguez, M. (2013) Gwerthusiad Terfynol o Adroddiad Terfynol Rhaglen MEDIA II. Ar gael drwy: http://ec.europa.eu/smart-regulation/evaluation/search/download.do;jsessionid=pMpcTTWS5TVXxDJJ2GyctZ1GdBqKyNXNtr26QhnLT4d378Sk8Q10!1601440011?documentId=1997

Gwerthusiad Datganolog Sida (2012) 'Uncovering the Power of Performing Arts: An Evaluation of the Tamasi Programme.' Ar gael drwy: https://www.sida.se/contentassets/2ad8d36291604e86b1ab5fdf69779625/uncovering-the-power-of-performing-arts-an-evaluation-of-the-tamasi-programme---final-report_3371.pdf

Sound Diplomacy (2018) Astudiaeth o Ddigwyddiadau Gweithredol Ffrainc. Ar gael drwy: http://www.showcasescotlandexpo.com/console/resources/france.pdf

Sound Diplomacy (2018) 'Scottish Folk/Roots Music In Germany.' Ar gael drwy: http://www.showcasescotlandexpo.com/console/resources/germany.pdf

Gwladwriaeth Tasmania (2012) Adroddiad Blynyddol Adran Datblygiad Economaidd, Twristiaeth a'r Celfyddydau 2012-13. Ar gael drwy: https://www.stategrowth.tas.gov.au/__data/assets/pdf_file/0014/160016/DEDTA_annual_report_2012-13.pdf

Marchnata Strategol (2009) Ymchwil Twristiaeth Ddiwylliannol. Ar gael drwy: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s29446/TOU%2026%20-%20Arts%20Council%20for%20Wales.pdf

Ten Days (2013) Ten Days on the Island Statement. Ar gael drwy: https://stors.tas.gov.au/store/exlibris5/storage/1/2014/03/04/file_9/1233763.pdf%0A

Cyngor Torbay (2013) 'Summer of Data'. Ar gael drwy: http://culturehive.co.uk/wp-content/uploads/2014/02/2258_events_reportWEB-3.pdf.

Vaughan Jones, Y. (1990) Strategaeth Gelfyddydau a Chyfryngau Cenedlaethol "Cymru Mewn Byd Ehangach", Cyngor Celfyddydau Cymru.

Vaughan Jones, Y. (1990) Astudiaeth Sector ar gyfer Amcan 1 SPG, Llywodraeth Cymru.

Webber, D., Smith, E. a White, S. (2010) 'Measuring Tourism Locally Guidance Note Six: Event Analysis and Evaluation'.

Webster, E. a Mckay, G. (2016) 'From Glyndebourne to Glastonbury : The Impact of British Music Festivals'. Ar gael drwy: https://ahrc.ukri.org/documents/project-reports-and-reviews/connected-communities/impact-of-music-festivals/

Uned Ymchwil Economi Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd (1999) Effaith Economaidd y Diwydiannau Celfyddydol a Diwylliannol. Cyngor Celfyddydau Cymru.


Wynne, A. (2014) 'WOMEX 13 : A Year On, Snapshot of the Womex Legacy within the Music Sector of Wales'. Ar gael drwy: http://www.wai.org.uk/6664.file.dld

Wynne, A. (2017) 'WOMEX Cardiff Legacy Four Years On'. Cyngor Celfyddydau Cymru


Ymgynghoriaeth Cyrchfannau Rhyngwladol Yellow Railroad (2010) 'Tourism Marketing Strategy for the Brecon Beacons', (Tachwedd).

# *ATODIAD 3*
# YR AROLWG A CHANLYNIADAU'R AROLWG


## YM MHA RANBARTH YDYCH CHI WEDI'CH LLEOLI:





## AFFURF GELFYDDYDOL:




## PA FEYSYDD GWAITH YDYCH CHI'N YMWNEUD Â NHW?





## GYDA PHA BOBL A CHYMUNEDAU YDYCH CHI'N GWEITHIO?



## FAINT O STAFF CYFWERTH AG AMSER LLAWN YDYCH CHI / EICH SEFYDLIAD YN EU CYFLOGI?





## BETH YW EICH TROSIANT BLYNYDDOL?




## SUT MAE'CH GWAITH YN CAEL EI GYLLIDO?

### Sut caiff gwaith ei gyllido





## BETH YW YSTYR "ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL" I CHI?


### Beth a ddeallir gan "Arddangos yn rhyngwladol"



## PA MOR BWYSIG YW ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL I CHI?





## FAINT O ARDDANGOSFEYDD RHYNGWLADOL YN Y DEYRNAS UNEDIG YDYCH CHI WEDI EU MYNYCHU DROS Y 5 MLYNEDD DDIWETHAF?




## FAINT O ARDDANGOSFEYDD RHYNGWLADOL TRAMOR YDYCH CHI WEDI EU MYNYCHU DROS Y 5 MLYNEDD DDIWETHAF?

### Presenoldeb mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol tramor ers 2013





## BETH YW PRIF FANTAIS MYNYCHU/CYMRYD RHAN I CHI?

### Beth yw prif fantais mynychu/cymryd rhan mewn digwyddiad arddangos rhyngwladol?




## BETH YW EICH DYHEADAU O RAN ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL A GWAITH RHYNGWLADOL?

### Dyheadau o ran arddangos a gwaith rhyngwladol





## BETH FYDDECH CHI'N EI GYFRANNU AT FENTER ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL PE BYDDAI'N CAEL EI CHYNNAL YNG NGHYMRU?

### Beth fyddech chi'n ei gyfrannu at fenter arddangos rhyngwladol pe byddai'n cael ei chynnal yng Nghymru?




## BETH YDYCH CHI'N EU HYSTYRIED YW'R PRIF RWYSTRAU MEWN PERTHYNAS AG ARDDANGOS RHYNGWLADOL EFFEITHIOL?

### Prif rwystrau rhag arddangos yn rhyngwladol yn effeithiol





### Beth ydych chi'n ystyried yw'r prif rwystrau rhag arddangos yn rhyngwladol yn effeithiol?




## BETH YDYCH CHI'N CREDU FYDDAI'N CAEL YR EFFAITH FWYAF AR ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL YNG NGHYMRU?

### Syniadau am yr effaith fwyaf ar arddangos rhyngwladol yng Nghymru





### Beth ydych chi'n credu fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar arddangos rhyngwladol yng Nghymru?




## YM MHA WLEDYDD YDYCH CHI WEDI GWEITHIO DROS Y 5 MLYNEDD DDIWETHAF?

### Gwledydd yr oedd ymatebwyr wedi mynd i ddigwyddiad arddangos rhyngwladol ynddynt





## SUT GAFODD Y PERTHNASOEDD EU TREFNU?


### Sut caiff perthnasau eu trefnu




## SUT CYCHWYNNODD Y PERTHNASOEDD HYN?





## SUT CAFODD Y GWAITH EI ARIANNU?



## YN EICH PROSIECTAU MAWR MWYAF DIWEDDAR DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF, WNAETH Y GWAITH DRAMOR GYFRANNU AT EICH CYLLIDEB GYFFREDINOL NEU OEDD GWNEUD Y GWAITH YN GOST NET I CHI / EICH SEFYDLIAD? OS ENILLODD / COLLODD Y GWAITH HWN ARIAN I CHI / I'CH SEFYDLIAD, ALLWCH CHI NODI FAINT?





## OS YDYCH CHI WEDI GWEITHIO'N RHYNGWLADOL, BETH OEDD YR EFFEITHIAU MWYAF ARWYDDOCAOL ARNOCH CHI / AR EICH SEFYDLIAD?




## BETH YW'R RHWYSTRAU RHAG DATBLYGU PERTHNASOEDD RHYNGWLADOL?

### Rhwystrau rhag datblygu perthnasau rhyngwladol





## PA FATH O GEFNOGAETH FYDDAI'N HELPU'R PERTHNASOEDD HYN AC UNRHYW WAITH WEDI HYNNY?


### Pa fath o gefnogaeth fyddai'n helpu'r perthnasoedd hyn ac unrhyw waith wedi hynny?



## SUT YDYCH CHI'N DOD O HYD I WYBODAETH AM ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL?





## BETH YW'R FFORDD ORAU I CHI DDERBYN GWYBODAETH AM ARDDANGOS YN RHYNGWLADOL?




## BETH YW'R FFORDD ORAU I CHI DDATBLYGU EICH SGILIAU?

Sut mae'r ymatebwyr yn datblygu sgiliau orau





## BETH OEDD MAINT EICH CYNULLEIDFA (MYNYCHWYR/CYFRANOGWYR/YMWELWYR) YNG NGHYMRU YN 2017/18?

Maint cynulleidfa'r ymatebwyr yng Nghymru yn 2017/18




## BETH OEDD MAINT EICH CYNULLEIDFA (MYNYCHWYR/CYFRANOGWYR/YMWELWYR) YN Y DEYRNAS UNEDIG YN 2017/18?

Maint cynulleidfa gwledydd Prydain yr ymatebwyr yn 2017/18




## BETH OEDD MAINT EICH CYNULLEIDFA (MYNYCHWYR/CYFRANOGWYR/YMWELWYR) YN RHYNGWLADOL YN 2017/18?

Maint cynulleidfa ryngwladol yr ymatebwyr yn 2017/18



# *ATODIAD 4*
# CYFRANOGWYR Y GRWPIAU FFOCWS A DADANSODDIAD O'R CANLYNIADAU

**Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn:**

- Oriel Glyn Vivian, Abertawe – Dydd Mawrth 15 Mai 2018
- Canolfan Celfyddydau Aberystwyth – Dydd Gwener 18 Mai 2018
- Theatr Cymru, Llandudno – Dydd Llun 21 Mai 2018
- Canolfan Oasis, Sblot, Caerdydd – Dydd Mercher 23 Mai 2018

**Y cyfranogwyr:**

**Yn Abertawe:**

Amina Abu-Shahba – Cydlynydd Cymunedau Diwylliannol

Anna Barratt – Artist

Mark Cox – Artist

Paul Davies – Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Volcano

Nia Mills – Rheolwr Marchnata, Canolfan Gelfyddydau Taliesin

Beate Gegenwart – Artist

Paul Hopkins – Rheolwr Marchnata, Theatr y Grand Abertawe

Richard Huw Morgan – Crëwr perfformiadau

Chris Mellor – Rheolwr Strategol y Celfyddydau, Diwylliant a'r Economi Greadigol, Cyngor Abertawe

Natasha Nicholls – British Council

Ben Pettitt-Wade – Cyfarwyddwr Artistig, Hijinx

John Rowley – Crëwr perfformiadau

Jane Simpson – Artist Perchennog, Galerie Simpson

Jenni Spencer-Davies – Cyfarwyddwr, Oriel Glynn Vivian

Ray Thomas – Actor a Chyfarwyddwr

Steve Williams – Llyfrgellydd, Llyfrgell Prifysgol Abertawe

Kate Wood – Swyddog Strategaeth a Phartneriaeth Ddiwylliannol, Cyngor Abertawe

**Yn Aberystwyth:**

Sandra Bendelow – Sgriptiwr a Chynhyrchydd Celfyddydol

Alice Briggs – Curadur, addysgwr y celfyddydau ac artist

Kaloyan Cholakov – Artist

Paul Croft – Darlithydd Gwaith Printio Celf Gain, Ysgol Gelf Aberystwyth

Rhian Davies – Cyfarwyddwr Artistig, Gŵyl Gregynog

Annie Grundy – Cyd-Gyfarwyddwr, Articulture Cymru

Elin Haf Gruffydd Jones – Cyfarwyddwr, Sefydliad Mercator

Steffan Jones-Hughes – Cyfarwyddwr, Oriel Davies

Gill Ogden – Rhaglennydd Artistig, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth

Ffion Rhys – Rheolwr y Celfyddydau Gweledol Newydd, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth

Hazel Sturt – Artist

Jeremy Turner – Cyfarwyddwr Artistig, Arad Goch

**Yn Llandudno:**

Mike Corcoran – Ymgynghorydd Addysg Greadigol

Peryn Clement-Evans – Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Glarinét, Ensemble Cymru

Sarah Ecob – Cyfarwyddwr Cyffredinol Venue Cymru / Theatr Colwyn / Oriel Colwyn

Elen ap Robert – Cyfarwyddwr Artistig, Pontio

John Rostron – Cyd-Sylfaenydd Sŵn a Gwobr Gerddoriaeth Cymru. Cyfarwyddwr, Nation Music.

Neal Thompson – Cyd-Sylfaenydd, FOCUS Wales

**Yng Nghaerdydd:**

Rebecca Gould – Pennaeth y Celfyddydau, British Council

Eluned Haf – Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Paul Kaynes – Prif Weithredwr, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

Elena Schmitz – Pennaeth Rhaglenni Llenyddiaeth Cymru

Aelodau Caerdydd Beth Nesaf? grŵp

**Dadansoddiad**
Dyma'r prif ganfyddiadau o'r holl grwpiau ffocws:

- Mae angen cyllid ychwanegol i gefnogi artistiaid a hyrwyddwyr yn rhyngwladol
- Mae angen rhwydweithiau i alluogi rhyngwladoli
- Mae angen gŵyl ryngwladol ar Gymru

Mae'r prif ganfyddiadau o ddadansoddiad cychwynnol data'r grwpiau ffocws yn amlinellu mai'r ffordd orau o arddangos y celfyddydau o Gymru yw datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd traean o'r cyfranwyr hefyd yn cydnabod gwerth cyflwyno gwaith mewn digwyddiadau arddangos a gwyliau rhyngwladol, ond nododd rhai cyfranogwyr hefyd bod angen cynyddu cyllid er mwyn mynd i ddigwyddiadau byd-eang. Mae hefyd angen cymhorthdal ar gynhyrchwyr a hyrwyddwyr i deithio i ddigwyddiadau rhyngwladol, ac amlygwyd datblygiad rhwydweithiau fel ffordd ddefnyddiol o weld gwaith i'w raglennu.

Mae'r rhwystrau rhag arddangos hefyd yn adlewyrchu'r thema economaidd hon, wrth i'r rhan fwyaf o'r bobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws gyfeirio at ddiffyg adnodd a chyllid fel problem. Mae'r diffyg gweledigaeth a strategaeth ryngwladol ehangach hefyd yn cyfrannu at y ffactorau tybiedig sy'n atal arddangos ar hyn o bryd.

Wrth drafod mecanweithiau cefnogi posibl y sector cyhoeddus ar gyfer arddangos y celfyddydau, cefnogwyd yn gryf y capasiti ar gyfer creu gŵyl neu raglen ryngwladol ar draws y data, ynghyd â grantiau penodol i artistiaid i'w galluogi nhw i ryngwladoli eu gwaith.

Wrth ateb y cwestiwn am naratif Cymru, er bod yr adborth yn eang yn gyffredinol, crybwyllwyd y cysyniad o hunaniaeth hyblyg a mwy nag un naratif droeon, yn hytrach nag un naratif sydd wedi'i ffurfio ar sail ystrydebau cenedlaethol a diwylliannol a all fod yn anodd.

**Cwestiwn 1: O safbwynt yr artist / gwneuthurwr / unigolyn creadigol, beth yn eich profiad chi yw'r ffordd orau o arddangos y celfyddydau o Gymru?**

Dadansoddi geiriau allweddol: digwyddiadau arddangos / gwyliau rhyngwladol (9), rhwydweithiau (7), cyllid (3) (i gynorthwyo presenoldeb mewn digwyddiadau rhyngwladol), cyllideb dda, ar draws ffurfiau celfyddydol (3), cyfryngau cymysg, cyfieithu, penodol i'r sector, partneriaethau (2) gŵyl Caeredin (2), hygyrchedd, cynaliadwyedd, tu allan i Gymru, biennale, rhyngwladol, cyfnod paratoi hir, Cymru yng Nghaeredin – mynd ar goll, cynadleddau academaidd, naratifau ar gyfer Cymru (2), ffocws ar yr Undeb Ewropeaidd, datrysiadau ar draws ffurfiau celfyddydol, seilio yng Nghymru, digwyddiad Cymru ar draws y Deyrnas Unedig, datblygu ecosystem, gŵyl ddinas/tref, cydnabod y lleol (2), nwydd rhyngwladol, proffil uwch (2), eirioli (3), gweld gan: gynhyrchwyr, curaduron (2), cynulleidfa'r Undeb Ewropeaidd, hyrwyddwyr (3).

Mae angen i artistiaid allu cynrychioli eu hunain yn dda – proffil da ar-lein a phroffil da yn y lleoliadau cyflwyno mawr yng ngwledydd Prydain – Llundain, Manceinion, Caeredin a thramor.

Mae asiantau'n bwysig iawn, ynghyd â lleoliadau cynnar – lleoliadau cerddoriaeth, cwmnïau ysgrifennu newydd megis Paines Plough, lleoliadau sy'n meithrin talent newydd megis Cambridge Junction. Mae Pontio'n gwneud hyn i raddau yn y gogledd.

Presenoldeb mewn gwyliau mawr a ffeiriau masnach – CINARS, Tanzmesse, Gŵyl y Gelli. Gofynnwyd: "A yw Lloegr yn ddigwyddiad rhyngwladol? Rydyn ni'n gallu cael cefnogaeth i fynd i Bilbao ond nid i Brighton." Gofynnwyd am eglurhad gan gyllidwyr. Nodwyd mai yn Radio 3 a Llundain y mae'r rhwydwaith cerddoriaeth glasurol, ac mai dyna hefyd yw'r rhwystr.

Gall gwobrau fod yn llwyfan pwysig ar gyfer hyrwyddo, yn enwedig o ran llenyddiaeth.

'Mae gweithio gyda theithiau masnach Cymru yn fuddiol i'r ddwy ochr. Roedd yr ymateb busnes yn nodi sut roedd yn gwella pa mor unigryw oedd y daith fasnach.

Mae gweithio dwy ffordd yn bwysig.

Mae rhwydweithiau'n bwysig – Eurosonic a Rhaglen Gyfnewid Talent Ewrop Yourope – mae'r holl gyllid yn mynd bellach tuag at ddatblygu cynulleidfaoedd a'r marchnadoedd mae'n eu cymell – gwyliau a llwyfannau.

**Cwestiwn 2: O safbwynt y cynhyrchydd/hyrwyddwr/cyfarwyddwr gŵyl/rheolwr rhaglen, beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol rydych chi wedi'u profi o weld gwaith i'w raglennu?**

Dadansoddi geiriau allweddol: cyllid i deithio (11) marchnata; rhwydweithiau (10) amseru, twristiaeth a diwylliant, cyllid ar gyfer ail gyfnod, byw/digidol(4), ansawdd curadu (3), interniaethau (3), biennales (3), mentora (3), cynllunio mwy hirdymor (3), lleoliad (3), isadeiledd, penodol, agenda rhyngwladol, profiad o ŵyl (3) celfyddydau teithio/allforio(3) Documenta (2) rhaglennu (2), argymhellion, arddangos gwaith, cyfnewid (2) profiad wedi'i bersonoleiddio, presenoldeb parhaus, IETM (2), cysondeb a gwytnwch (2), argymell ar lafar (2), cyd-guradu (2), anghenion y gynulleidfa (2).

Mae hefyd angen cyllid ar gynhyrchwyr a hyrwyddwr i deithio i ddigwyddiadau rhyngwladol, a nodwyd datblygu rhwydweithiau effeithiol fel ffordd effeithiol o weld gwaith i'w raglennu.

Pwysigrwydd ymchwilio i'ch safle yn y farchnad ac adnabod eich cynulleidfa a'r hyn rydych chi eisiau ei gyflawni. Cynigiwyd Gŵyl Lenyddiaeth Dinefwr fel enghraifft, gŵyl sydd eisiau bod yn wahanol ac sydd wedi cael llwyddiant sylweddol.

Mae lleoliadau a gwyliau yn gwneud eu dewisiadau yn ôl ardystiadau gan wahanol ffynonellau maen nhw'n ymddiried ynddynt. Maent yn edrych ar rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli. Nid yw hyrwyddo Cymreictod yn helpu, arddangos y gwaith gorau o Gymru a'r tu hwnt sydd fwyaf llwyddiannus.

Mae cynigion penodol i'r sector a sgiliau meddal megis datrysiadau creadigol i addysg yn farchnadoedd pwysig i Gymru.

Mae'n bwysig datblygu meistri chwaeth ynghyd â dod â chynrychiolwyr rhyngwladol yma. Mae Showcase Scotland yn fodel da, gan fod meini prawf llym yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer yr artistiaid a'r cynrychiolwyr – rhaid i'r artistiaid fod yn barod i'w hallforio, gydag isadeiledd cryf, ac mae angen bod y cynrychiolwyr yn gallu archebu artistiaid a theithiau (ac os nad ydynt, does dim croeso iddynt yn y blynyddoedd canlynol).

Mae asiantau'n hanfodol er mwyn pontio'r gwacter rhwng yr artist a'r farchnad.

Mae pobl eisiau mynd i leoedd lle mae sgyrsiau da a lle mae'r gwaith yn denu. Mae'n bwysig iawn cael digwyddiad i'r diwydiant mewn gŵyl ehangach, a chael hanner diwrnod o deithiau diwylliannol/treftadaeth ehangach.

Mae amseru ac amserlennu'n bwysig – dim mwy na dau neu dri diwrnod ar gyfer arddangos, a sicrhau yr amserir y digwyddiad ehangach i ddilyn digwyddiadau mawr eraill, fel bod modd i archebwyr fynd o un i'r llall, neu ar adeg sy'n fwy rhydd yn y calendr.

**Cwestiwn 3: Beth yw'r rhwystrau rhag arddangos y celfyddydau o Gymru yn effeithiol?**

Dadansoddi geiriau allweddol: amser, adnodd/cyllid (17), gweledigaeth/strategaeth (12) sgiliau (5), biwrocratiaeth (5) diffyg llais Cymreig, rhwydweithiau (4), cynllunio hirdymor (3), marchnata digidol (3), ail-raddnodi'r celfyddydau / dyniaethau drwy STEM, cludiant, arweinyddiaeth (2) byrdymor, addysg, hunaniaeth, Caerdydd ganolog, mentora, cydweithredu, cyfieithu (2) absenoldeb o ddigwyddiadau rhyngwladol, dysgu gan gyfoedion / rhannu, diffyg asiantaethau, hyder, rhwystrau ieithyddol (2), ecosystem.

Mae'r rhwystrau rhag arddangos yn effeithiol hefyd yn adlewyrchu'r thema economaidd, gan i'r rhan fwyaf o'r bobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws nodi diffyg adnodd a chyllid fel problem. Mae'r diffyg gweledigaeth a strategaeth ryngwladol ehangach hefyd yn cyfrannu at y ffactorau tybiedig sy'n atal arddangos ar hyn o bryd.

O ran cyllid, cyfeiriwyd at gyllid hirdymor a hyblyg fel model gwell, a chynigiwyd Cyngor Canada fel enghraifft o arfer da. Mae angen cynllun deng mlynedd.

Gwerthuso amrwd a wnaed yn y gorffennol, ac nid yw'n mesur canlyniadau buddsoddi gwirioneddol. Mae meini prawf i gael cyllid yn eich gorfodi i fesurau cul, lle mewn gwirionedd mae angen cyfres eang o effeithiau arnon ni.

Nodwyd bod gormodedd o asiantaethau a diffyg integreiddio yn atal cynnydd. "Mae'r arbenigedd i'w gael yn y sector – tîm Sŵn, Trac a FOCUS Wales, ond mae pob un yn troi at bobl wahanol am gyllid, yn hytrach na gweithio gyda'i gilydd". Awgrymwyd y byddai'n well cyfuno'r arian i greu cronfa graidd ar gyfer y sector er mwyn eu galluogi i gydweithio, i gynnal eu digwyddiadau ac i ddynodi £500,000 ar gyfer adeiladu capasiti.

Rydyn ni'n rhy fach i fod â chymaint o seilos – mae angen o leiaf bedwar o bobl i fynd i'r Great Escape. Byddai swyddfa allforio cerddoriaeth o Gymru/Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn ddatrysiad da.

**Cwestiwn 4: Sut fyddech chi'n hoffi gweld y sector cyhoeddus yn cefnogi arddangos celfyddydau o Gymru'n rhyngwladol? Dyluniwch eich cyfrwng/ mentrau delfrydol.**

Dadansoddi geiriau allweddol: Gŵyl/rhaglen ryngwladol (8) Grantiau i artistiaid (4), grantiau ar gyfer biennales, partneriaethau/rhwydweithiau byd-eang (3), rhaglen gyfnewid, LIFT a digwyddiad, ymchwil celfyddydau, digwyddiad ar draws Cymru (3) gwaith â buddsoddiad mewnol, dim gŵyl fawr, eithriad diwylliannol, cyllid o'r sector preifat, arian y llywodraeth wladol, ysbytai yn cau, ysgolion Cymru'n cau, treth bagiau plastig, arian a wariwyd ar chwaraeon/iechyd, eithriad rhag treth (3), Bagloriaeth Cymru (2), preswyliad (2), Ewrop (2), Brecsit, cyllid heb ei gyfyngu cymaint, celfyddydau/gwyddoniaeth/cyllido academia, tocynnau Cymru gyfan, arweinyddiaeth, strategaeth, pwerdy diwylliannol Gorllewinol, encil i artistiaid, pwyslais ieuenctid, rhwydwaith o wyliau, rhyngweithiol, cydweithredol, cronfa ddata'r sector creadigol, Theatre Sandbox Cymru, cyllido di-effaith/di-ganlyniad (2), strategaeth (2), sylw yn y wasg/ marchnata (2), cydweithio Addysg Uwch, teithio i ddigwyddiadau arddangos rhyngwladol, cefnogi arweinwyr yn y maes, ymchwil i'r modelau rhyngwladol, buddsoddi mewn preswyliadau, talu i hyrwyddwyr fod yn bresennol, Expo glasurol yn Rotterdam (Creative Scotland), Swyddog Allforio Cerddoriaeth Cymru, cydweithio, ecosystem, cadwyn gyflenwi, gweithio ar draws y sector.

Yna edrychodd y grwpiau ar fecanweithiau cefnogi posibl y sector cyhoeddus ar gyfer arddangos y celfyddydau, a chefnogwyd creu gŵyl neu raglen ryngwladol yn gryf ar draws y data hwn, ynghyd â grantiau penodol i artistiaid allu rhyngwladoli eu gwaith.

Gofynnwyd hefyd am arweinyddiaeth a rhesymoli cyrff cyhoeddus.

**Cwestiwn 5: A oes angen "naratif" ar Gymru? – Beth hoffech chi weld Cymru yn ei wneud er mwyn proffilio ei chelfyddydau a'i diwylliant yn well yn rhyngwladol? Faint fyddai hynny'n ei gostio?**

Dadansoddi geiriau allweddol: Gwledydd ôl-ddiwydiannol, dim un ateb, mwy nag un gymuned, hunaniaeth/naratifau cyfnewidiol (6) canolbwyntio ar y dyfodol (3) naratifau'r dyfodol, ecoleg fregus (2), ymrwymiad ariannol, £400-500,000, annog pobl, defnyddio'r celfyddydau a grëwyd, llechweddi, bröydd, arfordiroedd, cael gwared â chanfyddiadau negyddol, un llais, cydweithio, crochan o greadigrwydd (2), gwlad arloesol, cyllid ar gyfer artistiaid, hyrwyddwr y celfyddydau, gwerthfawr, wedi'i werthfawrogi, digon o adnoddau, cysondeb, fflwcs, dilyniant, gwaith newydd, gŵyl deuluol, diwylliant cyfoes, arddangos, llesiant, cyfnewidfeydd, cyflog byw i artistiaid, ymchwil a datblygiad penagored, rhamantus, cariadus, cryf, cymwynasgar, amlddiwylliannol, Cymru gyfoes, wedi'i gyllido, buddsoddiad hirdymor, strategaeth, does dim angen un, gweithio allan yno (2), Ewropeaidd, gŵyl ryngwladol (2), gweld yn lleol, anwybyddu'r cyfryngau, uwch gyfryngau, Cymru amlddiwylliannol, iaith gywir, dilyniant, dathlu gwerthoedd,

# *ATODIAD 5* CYFWELIADAU

Rydyn ni'n ddiolchgar am yr amser, y mewnbwn a'r profiad a gynigiwyd gan yr arbenigwyr canlynol o Gymru gyfan ac yn rhyngwladol, a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwil hwn:

Adam Budak – Curadur, Oriel Genedlaethol, Prag. Beirniad Artes Mundi 5

Pauline Burt – Prif Swyddog Gweithredol Ffilm Cymru

Nick Capaldi – Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru

Claire Chappell – Croeso Cymru

Desmond Clifford – Cyfarwyddwr Cyffredinol Swyddfa'r Prif Weinidog a Brecsit, Llywodraeth Cymru

Peter Doran – Cyfarwyddwr, Theatr Torch

Sarah Ecob – Cyfarwyddwr Cyffredinol Venue Cymru / Theatr Colwyn / Oriel Colwyn

Dafydd Elis-Thomas AC – Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

Liam Evans-Ford – Cyfarwyddwr Gweithredol Theatr Clwyd

Aboubakr Fathalla – Rheolwr Ymgysylltu Rhyngwladol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Graeme Farrow – Cyfarwyddwr Artistig, Canolfan Mileniwm Cymru

Heledd Fychan – Pennaeth Polisi Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

Phil George – Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

Michael Garvey – Cyfarwyddwr Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

Martin Green – Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog Gweithredol, Hull Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2017

Chris Gribble – Prif Swyddog Gweithredol, Canolfan Ysgrifennu Norwich

Sharon Heal – Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Amgueddfeydd

Bradley Hemmings – Cyfarwyddwr Artistig a Phrif Weithredwr Gwyliau Greenwich a Docklands

Phillip Hughes – Cyfarwyddwr, Canolfan Grefftau Rhuthun

Steffan Jones-Hughes – Cyfarwyddwr Oriel Davies a chadeirydd VAPG

Will Jameson – Sylfaenydd, Gŵyl Lake of Stars, Malawi

Ann Jones – Curadur, Casgliad Cyngor y Celfyddydau

Fergus Linehan – Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog Gweithredol, Gŵyl Ryngwladol Caeredin

Ruth Mackenzie – Cyfarwyddwr Artistig, Gŵyl yr Iseldiroedd a Theatre du Chatelet

Karen MacKinnon – Cyfarwyddwr, Artes Mundi

Sandeep Mahal – Cyfarwyddwr, Nottingham Dinas Lenyddiaeth UNESCO

Ben Mandleson – Cyfarwyddwr a Sylfaenydd, Womex

Rebecca Mathews – Prif Swyddog Gweithredol, Aarhus Dinas Diwylliant Ewrop 2017

Nick McDowell – Cyfarwyddwr Rhyngwladol a Llundain, Cyngor Celfyddydau Lloegr

John McGrath – Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig, Gŵyl Ryngwladol Manceinion

Elgan Morgan – Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Siambrau Masnach De Cymru

Betsan Moses – Prif Swyddog Gweithredol, yr Eisteddfod Genedlaethol

Joanna Quinn – Cyfarwyddwr, Cynyrchiadau Beryl

Chris Ricketts – Cyfarwyddwr Fieldworks ac Ymgynghorydd i Surf the Wave

Elen ap Robert – Cyfarwyddwr Artistig, Celfyddydau Pontio

Sanjay Roy – Cyfarwyddwr, Gŵyl Jaipur

Paul Russ – Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog Gweithredol, Dance4

Elena Schmitz – Pennaeth Rhaglenni, Llenyddiaeth Cymru

Anthony Shapland – Artist. Cyd-sylfaenydd, G39

Fiona Stewart – Cyfarwyddwr, Gŵyl y Dyn Gwyrdd

Sally Tallant – Cyfarwyddwr, Biennale Lerpwl

Ed Thomas – Sgriptiwr a chyd-grëwr y Gwyll/Hinterland

Neal Thompson – Cyd-sylfaenydd, FOCUS Wales

Lisa Whytock – Cyfarwyddwr, Active Events

Bedwyr Williams – Artist

Louise Wright – Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru. Comisiynydd Cymru yn Fenis / Wales in Venice

Alison Woods – Prif Weithredwr, Syrcas NoFit State

# *ATODIAD 6* GWERTHUSIAD A DADANSODDIAD O'R ASTUDIAETHAU EFFAITH CELFYDDYDAU A DIGWYDDIADAU AC ENILLION AR FUDDSODDIAD

Yn yr atodiad hwn rydyn ni'n adrodd ar ein hymchwiliad i werthusiadau diweddar o astudiaethau effaith economaidd ac enillion ar fuddsoddiad ar gyfer y sector creadigol. Mae rhai yng Nghymru, ond caiff gwledydd a rhanbarthau sy'n cystadlu eu harolygu hefyd gan ddefnyddio 14 adroddiad ar effaith digwyddiadau diwylliannol. Yn gyntaf, rydyn ni'n darparu trosolwg o fethodoleg yr asesiadau effaith.

## CYFLWYNIAD

Er gwaethaf degawdau o astudiaethau effaith economaidd a gwerthusiadau, mae pobl yn dod yn fwy ymwybodol y bydd rhaid i'r sector creadigol – yn enwedig y rhan o'r sector hwnnw sy'n derbyn arian cyhoeddus – gynhyrchu tystiolaeth gliriach o werth ychwanegol ac effaith economaidd gwahanol raglenni celfyddydol os yw'r sail dystiolaeth am fod yn ddigon cadarn i ganiatáu blaenoriaethu dewisiadau cyllido a mathau eraill o gefnogaeth. Mae hefyd yn glir mai'r gyrwyr buddsoddi presennol yn gynyddol yn y sector yw'r rhai sy'n amlygu effaith ar anghydraddoldebau sy'n gwrthdaro mewn cymdeithas, a dyma, ynghyd ag effeithiau economaidd, yw'r fectorau sy'n pennu enillion ar fuddsoddiad yn y pen draw.

Er mwyn cyflawni effaith a mesur yr enillion ar fuddsoddiad ehangach, bydd angen i'r sector greu cysylltiadau gwell rhwng gwerth cynhenid rhaglenni celfyddydol a diwylliannol ar un llaw, a'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol yn y dangosyddion economaidd traddodiadol ar y llaw arall. Fodd bynnag, unwaith y caiff y meini prawf asesu eu lledu, daw problemau mesur i'r amlwg yn syth wrth geisio casglu prif ganlyniadau rhaglen gelfyddydol benodol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, mae llawer o'r astudiaethau effaith economaidd wedi'u hategu ag arolwg er mwyn pennu gwerth tybiedig prosiectau celfyddydol ymhlith defnyddwyr. Mae hyn yn aml yn cynnwys gofyn i bobl a aeth i weld neu a ddefnyddiodd y rhaglen beth gawson nhw ohoni, ynghyd â gofyn i'r rhai nad aethant i'r digwyddiad (ond fyddai wedi gallu mynd) sut maen nhw'n teimlo yn ei gylch – hynny yw, a yw'r rhai nad aethant yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y rhaglen ar gael iddyn nhw er efallai nad oedd amser ganddynt i fanteisio arni. Mewn geiriau eraill: ydych chi'n hoffi'r ffaith bod yr Amgueddfa Genedlaethol yna ac ar gael, er nad ydych chi'n ei defnyddio'n aml?

Fel arfer, caiff y ddwy elfen – astudiaethau effaith a gwerth tybiedig – eu hategu â defnydd o naratif ac astudiaethau achos i lunio canlyniadau cymdeithasol mwy meddal rhaglenni celfyddydol, hynny yw'r canlyniadau hynny sy'n anodd eu cyfleu yn aml.

Y drafferth yw bod pob elfen yn yr asesiad yn dibynnu ar safon methodoleg yr ymchwil a'r arfer sy'n sail iddo. Mae beirniadaeth sylweddol wedi bod o bob elfen sy'n rhan o'r broses gasglu tystiolaeth.

## EFFAITH ECONOMAIDD RHAGLENNI CELFYDDYDOL

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae astudiaethau effaith economaidd yn rhannu yn ddau gategori. Mae'r cyntaf yn berthnasol i'r astudiaethau hynny sy'n seiliedig ar ddull economaidd gwaelodol sy'n defnyddio'r mewnbynnau uniongyrchol, fel gwariant neu gyfansymiau cyflogi, i amcangyfrif yr effeithiau anuniongyrchol a'r effeithiau cymelledig. Caiff y lluosydd yna ei gyfrifo o'r ymarferion modelu hyn. Mae'r ail ddull yn berthnasol i'r astudiaethau hynny sy'n mewnforio lluosydd o ddadansoddiad arall – fel arfer a gyflawnwyd gan ymchwilydd gwahanol mewn ardal wahanol. Yna, maen nhw'n defnyddio'r lluosydd hwn â pha bynnag fewnbwn uniongyrchol y gallant ei nodi er mwyn asesu cyfanswm yr effaith economaidd. Yn aml, mae'r lluosyddion yma a fewnforir yn eithaf mawr – mae ffigurau sy'n amrywio rhywle rhwng tri a phump yn eithaf cyffredin. Mae lle i herio'r math hwn o ddadansoddiad a gall danseilio dilysrwydd adroddiad, yn enwedig pan na ddarperir dadansoddiad gwaelodol o faint y lluosydd.

Pan ddefnyddir model gwaelodol, gellir amcangyfrif effeithiau economaidd yr amryw raglenni yn eithaf effeithiol ar gyfer economi ranbarthol neu leol, a gellir eu cymharu ag astudiaethau tebyg mewn gwahanol sectorau er mwyn mesur cysondeb y lluosyddion sy'n cael eu defnyddio. Fodd bynnag, lle caiff lluosyddion eu mewnforio o astudiaeth allanol er mwyn amcangyfrif effaith gyffredinol, mae'n hanfodol bod yn fanwl iawn ynghylch y proffiliau gwario a'r mewnbynnau eraill a ddefnyddir yn y cyfrifiadau. Hefyd, bydd angen sicrhau cysondeb ag astudiaethau eraill mewn sectorau perthnasol er mwyn sicrhau nad yw'r effaith yn cael ei chwyddo'n artiffisial.

Yn ein hadolygiad o werthusiadau diweddar o effaith digwyddiadau a rhaglenni celfyddydol sy'n dilyn y cyflwyniad hwn, rydyn ni'n amlygu rhai o'r bylchau mewn data sy'n golygu bod casgliadau nifer o astudiaethau diweddar yn anodd eu dilysu.

Hyd yn oed lle caiff yr asesiad effaith ei gefnogi gan fethodoleg gadarn, gall problemau fodoli o hyd o ran amcangyfrif yr effaith gyffredinol yn gywir. Er enghraifft, pa wariant uniongyrchol ac anuniongyrchol y dylid ei gynnwys? Os caiff treuliau teithio pobl eu cynnwys, yna gall hyn achosi tuedd yn y canlyniadau, oherwydd bydd llawer o'r gwariant hwnnw'n gollwng o'r economi ac i daflen falans y cwmni bws neu drên (nad yw'n lleol yn aml). Yn y modd hwn, yn aml ni chaiff gollyngiadau gwario eu cyfleu yn gywir.

Yn yr un modd, ni chaiff gwariant amherthnasol gan bobl a fyddai wedi gwario arian beth bynnag mewn gwestai a bwytai lleol, a gwariant dadleoli gan bobl sy'n osgoi ardal o achos y digwyddiad, ei amcangyfrif yn gywir. Yn fyr, mae angen i astudiaethau gyfleu'r ychwanegolrwydd a'r gwariant net sy'n berthnasol i'r gweithgarwch celfyddydol, fel arall maent yn arwain at amcangyfrifon chwyddedig o effaith.

Yn ogystal, hyd yn oed os eir i'r afael â'r gwendidau hyn yn effeithiol, mae'r broblem na chaiff rhai o'r effeithiau cadarnhaol ehangach eu cyfleu gan asesiad effaith economaidd yn dal i fod. Mae'r rhain yn cynnwys manteision amgylcheddol ac iechyd, neu fanteision cymdeithasol ac adfywio, ynghyd â'r manteision a geir o atgyfnerthu neu gynyddu gwerthoedd diwylliannol. Am y rhesymau hyn, er gwaethaf poblogrwydd y dull asesu effaith, dim ond datrysiad rhannol mae'n ei ddarparu, a bydd yn dal i fod angen ategu'r ymchwil hwn a chyfleu rhywfaint o'r gwerth ychwanegol drwy astudiaethau achos ac arolygon perthnasol.

## MESUR GWERTH MEWN RHAGLENNI CELFYDDYDOL A DIWYLLIANNOL

Gall mesur gwerth cynhenid rhaglenni celfyddydol fod yn anodd (gweler Prosiect Gwerth Diwylliannol AHRC). Ynghyd â chyfleu gwerth cynhenid, mae angen cydnabod gwerth diwylliannol.

Dyna pam fod llawer o adroddiadau – gan gynnwys y rhai yn yr atodiad hwn – yn aml yn defnyddio data meintiol ac ansoddol i fesur gwerth, ond maen nhw'n dal yn ei chael yn anodd cyfleu cyfraniad llawn y celfyddydau a diwylliant o ran effaith economaidd. Yn hyn o beth, mae ein dadansoddiad yn amlygu prinder ansawdd cyson mewn dulliau ymchwil yn llawer o'r astudiaethau ehangach hyn, wrth iddynt geisio integreiddio dulliau meintiol ac ansoddol. Mae diffyg gwrthrychedd, sydd ei angen ar gyfer dilysrwydd, ym manyleb a dyluniad ymchwil rhai o'r gwerthusiadau.

Gall ymchwil ansoddol gynnig mwy o ddyfnder a dealltwriaeth, ac mae'n fwy addas ar gyfer rhai amcanion ymchwil, ond nid oes angen iddo fod yn llai trylwyr nag astudiaethau meintiol – er bod hwnnw'n defnyddio tystiolaeth empirig ar greu gwerth ac yn darparu dadansoddiad manwl o ddata. Mae gan bob dull ei gostau a'i fanteision ei hun. Mae'r astudiaethau empirig gorau yn defnyddio mesurau rheoli effeithiol i gyfleu gwerth heb or-ddweud effaith, ac yn defnyddio tystiolaeth ansoddol i gefnogi canlyniadau gwaelodol y data. Mae'n bwysig amlygu dyluniad ymchwil a methodoleg dda lle caiff ei gyflwyno'n effeithiol, er mwyn annog defnydd ohono mewn gwaith yn y dyfodol.

Drwy ddefnyddio cyfuniad o ymchwil meintiol ac ansoddol, mae'r adroddiadau gwerthuso a ddadansoddir isod yn amlygu cyfleoedd creadigol ac arloesol rhaglenni celfyddydol, a'r ffordd maent yn helpu i greu cymunedau mwy cytbwys; hynny yw cymunedau sy'n cymryd mwy o ran mewn gweithgarwch diwylliannol. Gall yr ymgysylltiad hwn wella canlyniadau cymdeithasol dymunol eraill a chreu manteision ehangach o ran iechyd a lles. Yn ogystal, gall yr adroddiadau hyn amlygu'r ffyrdd mae rhaglenni celfyddydol a gweithgarwch diwylliannol yn bwydo'r diwydiannau creadigol ac yn denu buddsoddiad ariannol i drefi a dinasoedd.

Er mwyn cyfleu rhywfaint o'r gwerth ychwanegol, mae llawer o adroddiadau'n pwysleisio'r rhyngberthnasau pwysig rhwng rhaglenni sy'n derbyn arian cyhoeddus a rhaglenni masnachol. Nid mater o gystadleuaeth rhwng dau sector yn unig ydyw; mae'n fater o ategu ei gilydd. Gellir cynyddu gwerth cynhenid rhaglenni celfyddydol sy'n derbyn arian cyhoeddus drwy'r gefnogaeth maen nhw'n ei chynnig i raglenni celfyddydol masnachol – er enghraifft cyflwyno syniadau newydd a ffurfiau celfyddydol sy'n annog perfformiadau masnachol i ehangu eu cynnwys creadigol.

Un maes lle mae rhaglenni celfyddydol sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ychwanegu gwerth yw addysg. Eu prif gyfraniad yw helpu i fod yn sylfaen i ganlyniadau dysgu, megis sgiliau datrys problemau a chyfathrebu, ynghyd â gwella hyder a chymhelliant. Gall rhaglenni celfyddydol sy'n derbyn arian cyhoeddus hefyd ehangu dulliau ymgysylltu drwy ddefnyddio gofodau diwygiedig ar raddfa fach a chyfleusterau dros dro mewn canolfannau cymunedol.

Er mwyn cyfleu'r gwerth ychwanegol hwn yn effeithiol, mae angen mwy o bwyslais ar werthuso rhaglenni yn annibynnol a defnyddio gwerthuso'n ehangach fel offeryn pwysig wrth fesur gwerth diwylliannol. Ar ddechrau rhaglen, dylid fformiwleiddio gwerthusiad edrych ymlaen sy'n canolbwyntio ar fonitro prif yrwyr creu gwerth – yn canolbwyntio ar gasglu'r data fyddai'n llywio'r gwerthusiad edrych yn ôl gorau ar ddiwedd y rhaglen. Byddai hyn yn helpu sefydliadau celfyddydol a diwylliannol i ddeall y gwerth ychwanegol ehangach sy'n llifo o'u gweithgarwch.

[Understanding the value of arts & culture: The AHRC Cultural Value Project; Geoffrey Crossick a Patrycja Kaszynska]

## ASTUDIAETHAU ACHOS A NARATIF I GEFNOGI RHAGLENNI CELFYDDYDOL

Gellir ategu ymchwil ansoddol a meintiol i effaith economaidd ag ystod eang o ddulliau ymchwil gwyddor gymdeithasol, gan gynnwys defnyddio astudiaethau achos trylwyr. Fodd bynnag, mae'n anodd ailadrodd y dystiolaeth hon (sy'n anecdotaidd yn aml) mewn astudiaethau eraill neu ei mwyhau i fesur gwerth ar draws rhanbarth. Er hyn, mae llawer o astudiaethau'n defnyddio tystiolaeth fanwl o astudiaethau achos er mwyn ceisio arddangos cyfraniad ehangach y celfyddydau a diwylliant i adfywio economaidd, ymgysylltiad cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol, amrywiaeth ac iechyd a lles. Yn y modd hwn, maent yn ehangu ystod y dulliau ymchwil er mwyn ceisio cyfleu ehangder y ddealltwriaeth, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth a ddaw gyda rhaglenni celfyddydol i'r gymuned.

O ran adfywio, mae sail dystiolaeth yn cael ei datblygu drwy astudiaethau achos i arddangos cyfraniad y celfyddydau a diwylliant i ardaloedd, megis adfywio cymdeithasol ac amgylcheddol, ynghyd ag effaith economaidd. Yn ogystal â buddsoddiad busnesau newydd, gall astudiaethau achos amlygu cyfraniad y mae rhaglenni celfyddydol yn ei wneud wrth ailddylunio gofodau byw lleol a dod â chymunedau ynghyd i gynyddu capasiti sefydliadol ar lefel leol. Gall y gweithgareddau hyn helpu i fynd i'r afael â materion 'drwg' megis dibyniaeth ar gyffuriau. Fodd bynnag, ni fyddai byth modd profi cysylltiadau achosol rhwng mentrau diwylliannol a lleihau trosedd yn drylwyr, ac felly edrychir ar astudiaethau achos fel ffordd o greu "corff o dystiolaeth" drwy gysylltiad.

Hefyd, drwy ddarparu tystiolaeth am y cysylltiadau rhwng y celfyddydau sy'n derbyn arian cyhoeddus a'r rhai sy'n cael eu llywio'n fasnachol, gallant gyfeirio at y ffordd y gall rhaglenni diwylliannol helpu i adeiladu perthnasau cryfach rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat yn gyffredinol.

Ar lefel ranbarthol, mae astudiaethau achos yn ddefnyddiol wrth amlygu pwysigrwydd twristiaeth ddiwylliannol a'r effaith y gall y celfyddydau a diwylliant ei chael ar wella delwedd a phroffil dinas neu ranbarth. Gall y math hwn o dystiolaeth gefnogi dadansoddiad effaith economaidd manylach o ran dilysu nifer y twristiaid o dramor a nodi patrymau gwario ymwelwyr. Os yw'n cael ei chyflwyno'n ofalus, gall astudiaeth achos ddarparu tystiolaeth ychwanegol cost-effeithiol ar effaith, heb fod angen arolygon manwl ac ymarferion modelu cymhleth.

Fodd bynnag, dylai'r pwyslais fod ar ddarparu tystiolaeth ychwanegol i gefnogi gwerthusiad manylach. Anaml y mae astudiaethau achos ynddynt eu hunain yn ddigon i ddarparu'r math o ddadansoddiad manteision costau cytbwys a fyddai'n bodloni anghenion cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill, ac i ganiatáu blaenoriaethu cyllid ar draws gwahanol brosiectau celfyddydol. Ond, oherwydd bod gwerthusiadau effaith economaidd yn gyfyngedig yn eu cwmpas i gyfleu gwerth diwylliannol, gellir integreiddio elfen naratif astudiaethau achos i werthusiadau effaith i ddatblygu sail dystiolaeth ehangach sy'n helpu sefydliadau diwylliannol i wneud penderfyniadau gwell.

## RHAI ENGHREIFFTIAU DIWEDDAR O ASTUDIAETHAU EFFAITH

Fel enghraifft o rai o'r materion a amlinellwyd uchod, rydym wedi adolygu rhai gwerthusiadau diweddar o effaith economaidd a gwybodaeth am enillion ar fuddsoddiad ar gyfer y sector creadigol yng Nghymru a gwledydd a rhanbarthau sy'n cystadlu. Roedd hyn yn cynnwys ymchwilio i 14 testun craidd, ochr yn ochr â ffynonellau eilaidd, a gymerwyd o restr ddarllen ehangach o 84 o adroddiadau (gweler Atodiad 2).

## EFFAITH ECONOMAIDD

Mae'r cysyniad o enillion ar fuddsoddiad yn yr amgylchedd gwyliau celfyddydol a diwylliannol wedi'i gysylltu'n helaeth â thystiolaeth 'effaith economaidd' mewn cyd-destunau diwylliannol, addysgol, economaidd ac amgylcheddol.

Y peth cyntaf i'w nodi yw bod yr adroddiadau yn cyfeirio at ystod o ddigwyddiadau ac yn ceisio amcangyfrif effaith economaidd pob un gan ddefnyddio gwahanol fethodolegau. Mae hyn yn golygu bod cymharu'n uniongyrchol rhwng gwyliau, rhaglenni gwaith a digwyddiadau un tro yn broblematig. Yn wir, nid oes un fformiwla economaidd a ddefnyddir ac a dderbynnir yn eang fel ffordd o fesur cyfraniad gŵyl ddiwylliannol a digwyddiadau cysylltiedig, i'w heconomïau lleol perthnasol.

Er enghraifft, yn yr adroddiad From Glyndebourne to Glastonbury: The Impact of British Music Festivals (Webster a McKay, 2016), yn gyffredinol gwneir rhagamcaniadau ariannol cadarnhaol iawn, ond mae angen archwilio'r dadansoddiad yn fethodolegol, ac yn bwysicach fyth o ran realiti.

Yn yr un modd, mae'r adroddiad am effaith economaidd Lumiere 2015, sef adolygiad Grŵp Ymchwil Polisi (Prifysgol Durham, 2016), yn enghraifft arall. Mae'r adroddiad yn dyfynnu ffigwr o £6.5 miliwn ac yn amlinellu'r dull gwaelodol a ddefnyddir i gael yr wybodaeth hon, sy'n cynnwys sampl cynrychiadol o 1,960 o ymwelwyr, o nifer amcangyfrifedig o 200,000 o bobl a gwblhaodd yr arolwg. Defnyddir hyn i gyfleu gwariant ymwelwyr, a gaiff ei gyfrifo fel cyfartaledd ar draws y ddemograffeg ranbarthol er mwyn cael cyfanswm gwerth a gaiff ei luosi ag 1.25. Cyfrifwyd y lluosydd a chyfanswm gwerth drwy ddefnyddio model amcangyfrifon isranbarthol BIS (2009). Nid oes ymgais i ddilysu bod y model gwaelodol yn berthnasol i ardal Durham, ond o leiaf mae'n cynnig elfen o ddibynadwyedd oherwydd bod defnyddio dull safonol Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y gellir ei ailadrodd) yn fwy cadarn.

O gymharu, cyflogodd Gŵyl Ryngwladol Manceinion ymgynghorwyr allanol y New Economy i gyfrifo effaith economaidd gŵyl 2017, a nodir iddi gyfrannu £40.2 miliwn i economi Manceinion Fwyaf. Yn anffodus, nid yw'r fformiwlâu a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r ffigur hwn wedi'u cyhoeddi, ac felly nid oes modd pennu dilysrwydd yr honiad economaidd hwn. Yn 2015, defnyddiodd yr ŵyl ddull Ymgynghorwyr Polisi Caergrawnt, a fabwysiadwyd yn flaenorol yn Astudiaeth Dichonolrwydd 2006 a oedd yn sail i'r ŵyl. Roedd hyn o leiaf yn rhoi lefel o dryloywder i'r effaith amcangyfrifedig.

Mae gwerthusiad Adroddiad Digwyddiad WOMEX 2013 (Cerdd Cymru Music Wales 2014) yn defnyddio cyfrifydd eventIMPACT, sy'n cynnig dull y gellir ei raddio i wahanol feintiau a'i ailadrodd ar gyfer cyfrifo effaith economaidd digwyddiadau. Amcangyfrifir bod effaith economaidd uniongyrchol y digwyddiad yn £2,896,232, ac mae lefel y manylion ariannol a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn sicr yn cynnig lefel o sicrwydd, neu o leiaf resymeg ystadegol i gael y ffigur terfynol hwn. Fodd bynnag, ochr yn ochr â chyfrifydd eventIMPACT, mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio cyfrifydd economaidd WOMEX ar wahân i gynhyrchu elw ariannol o £3,149,093, sy'n cyflwyno lluosydd cyfunol o 1.31 i ategu gwariant ymwelwyr a chostau cynhyrchu lleol i'r ffigur mwy hwn.

Nid yw gwerthusiad dilynol WOMEX 2013: Four Years On (Wynne, 2017) yn cynnwys llawer o fanylion ariannol yr adroddiad blaenorol, ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar ymatebion ansoddol effaith ariannol personol yr artistiaid fu'n cyflwyno yn yr arddangosfa hon. Mae'n adrodd bod 58% o ymatebwyr yr arolwg yn honni bod yr ŵyl yn cynnig dros £10 mil o werth busnes a gynhyrchwyd drwy bresenoldeb yn WOMEX. Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthdaro â'r ffaith bod yr adroddiad hefyd yn nodi mai dim ond 50% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod gan WOMEX lefel uchel a pharhaus o effaith ar eu busnes neu yrfa.

Ni chaiff y ffigurau amcangyfrifedig hyn eu harchwilio drwy gyfweliadau ansoddol i archwilio'r rhesymau am yr amcangyfrifon hyn, ac mae'r ffaith nad yw'r astudiaeth yn cynnwys sampl poblogaeth diffiniedig yn tanseilio dilysrwydd y casgliadau hyn.

Nid yw'r materion penodol hyn sy'n ymwneud ag amcangyfrif effaith economaidd yn amlwg yng ngwerthusiad Adroddiad Gŵyl y Gelli 'Imagine the World' (2017), lle canolbwyntir ar ganlyniadau economaidd mewnol gyda mesuryddion syml yn ymwneud â gwerthiannau llyfrau a thocynnau yn erbyn gwyliau blaenorol, yn hytrach na chyflwyno ffigurau rhagnodol a chwyddedig. Mae'r dull hwn, yn rhannol, yn adlewyrchu pa mor wledig yw'r Gelli Gandryll, a hinsawdd micro-economaidd a fewnforir Gŵyl y Gelli (yn debyg i Ŵyl Glastonbury).

## EFFAITH Y CYFRYNGAU

Defnyddir y mesuriad cyfwerth â gwerth hysbysebu (AVE) yn eang i briodoli gwerth economaidd cynrychiadol i lwyddiant digwyddiad. Mae'n cyfeirio at gost prynu'r gofod am erthygl benodol, petai'r darn yn hysbyseb a dalwyd amdani. Mae hyn wedi'i ehangu i gynnwys llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar. Cyflwynir tabl crynodeb o AVEs sydd wedi'u cyhoeddi o'r adolygiad llenyddol:

| **Gŵyl** | **Cyfanswm AVE** |
|---|---|
| Gŵyl Ryngwladol Manceinion 2017 | £29.09 miliwn |
| Gŵyl Ryngwladol Manceinion 2015 | £27 miliwn |
| Hull Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2017 | £450 miliwn |

Y mesurydd arall a gyhoeddir fel mesur o lwyddiant ar gyfer digwyddiadau o'r math hwn yw cyrhaeddiad yn y cyfryngau, sy'n golygu cyfanswm y gwahanol bobl a ddaeth i gysylltiad o leiaf unwaith â chyfrwng yn ystod cyfnod penodol. Gweler enghreifftiau yn y tabl isod:

| **Gŵyl** | **Cyfanswm cyrhaeddiad** |
|---|---|
| Gŵyl y Gelli 2017 | 1.8 biliwn |
| Hull Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2017 | 37.3 biliwn |
| Gŵyl Ryngwladol Manceinion 2017 | 10.3 miliwn |

Gellir priodoli'r amrywiaeth yng nghyfanswm y cyrhaeddiad rhwng y rhaglenni hyn yn rhannol i hyd yr ymgysylltiad (cynhelir Hull dros flwyddyn, Gŵyl y Gelli dros rai wythnosau), ond yn debyg i effaith economaidd, mae'r broses ar gyfer cyfrifo'r ffigurau terfynol yn amrywio.

Mae Gŵyl y Gelli yn defnyddio nifer y crybwylliadau yn y wasg wedi'i luosi â chylchrediad y deunydd, sy'n ymddangos yn briodol ac yn unol ag arfer y sector (Sissors a Baron, 2010). Mae Gŵyl Ryngwladol Manceinion yn defnyddio nifer y crybwylliadau yn y wasg/darllediadau wedi'i luosi â 2.5, i gynhyrchu'r ffigur amcangyfrifedig, ond mae'n eithrio sylw ar-lein, a all egluro'n rhannol y gwahaniaethau sylweddol rhwng y gwyliau. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffigur Cyfanswm Cyrhaeddiad Hull ychydig dros dair gwaith ffigur Manceinion, ond mae ffigur AVE Hull dros bymtheg gwaith yn fwy. Mae hyn yn anodd ei egluro ac nid yw adroddiad Cultural Transformations: The Impacts of Hull UK City Of Culture 2017 (Prifysgol Hull, 2018) yn rhoi dim gwybodaeth ynghylch sut cafwyd y ffigur hwn, ac felly mae'n anodd asesu ei gywirdeb.

## EFFAITH ADDYSGOL

Ar hyn o bryd mae trefnwyr gwyliau yn teimlo'r angen i wyliau a digwyddiadau ymgorffori elfennau addysgol i sicrhau y gallant dderbyn rhagor o arian cyhoeddus ac i gael mynediad at gefnogaeth ariannol, ac mae yr un mor bwysig eu bod yn gallu tystio i hyn drwy werthuso. Mynegir hyn yng ngwerthusiad Edinburgh Festivals: Thundering Hooves 2.0 (BOP Consulting, 2015) o'r digwyddiad, drwy fframio rhaglenni gradd rheoli digwyddiadau Edinburgh Napier a Phrifysgol y Frenhines Margaret fel sgil-gynnyrch llwyddiant y gwyliau. Yr hyn sy'n llai eglur yw'r nifer sy'n gwneud y cyrsiau, graddau athreulio, a llwyddiant cyn-fyfyrwyr yn y cyrsiau hyn a'u rhan yng ngweithrediad yr ŵyl ar hyn o bryd. Mae'n galonogol bod yr adroddiad yn pwysleisio sut mae hyfforddiant, prentisiaethau ac interniaethau a gysylltir ag Edinburgh Guarantee (sy'n ceisio gwarantu gwaith/profiad neu addysg i bobl sy'n gadael yr ysgol yn yr ardal) yn gweithio'n effeithiol. Er hyn, oherwydd natur ansoddol a diffyg gwybodaeth am gynnwys a niferoedd y 'fforymau' a ddefnyddir i dystio'r astudiaeth, mae'n rhaid ystyried a oes elfen o duedd dewisol.

I'r gwrthwyneb i hyn, mae Adroddiad Gŵyl y Gelli, Imagine the World (2017), yn defnyddio presenoldeb fel baromedr o lwyddiant addysgol, gyda chynnydd o 48% yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Diwrnod Ysgolion Cynradd, a chynnydd o 26% yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Diwrnod Ysgolion Uwchradd. Mae adroddiad Lumiere 2015 yn defnyddio dull tebyg drwy ddefnyddio prosiect addysg Artichoke fel enghraifft, a dynnodd bron i 1,400 o bobl o bob oed, o ystod o leoliadau a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Mae gwerthusiad Gŵyl Ryngwladol Manceinion (2017) yn defnyddio dull gwahanol o dystio'r effaith hon drwy ganolbwyntio ar gyfranogiad 68 o bartneriaid addysgol a 57 dysgwr yn yr elfennau perfformio, yn hytrach na phresenoldeb yn yr ŵyl yn unig.

## EFFAITH ARTISTIG

Mae adroddiad Ymchwil Arad, Gwerth ac effaith presenoldeb Cymru ym Miennale Fenis ar gyfer Sector y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru (2015) yn cael trafferth wrth amlinellu'n union beth mae manteision tybiedig cyfranogiad artistig yn y digwyddiad hwn yn ei gynnwys. Yn hytrach, mae'n datgan mewn termau generig bod y Biennale hwn wedi cael "effaith sylweddol ar broffil rhyngwladol Cymru" (tudalen 2) ac mae hyn wedi'i seilio ar ymateb i'r arolwg o 121 rhanddeiliad allweddol o'r sector celfyddydol gweledol yng Nghymru/gwledydd Prydain. Mae'r sampl yn un o gasgliadau data mwyaf yr adolygiad llenyddol hwn, ond wrth ystyried y datganiad am broffil rhyngwladol, dim ond cyfranogwyr o wledydd Prydain mae'n eu cynnwys, a gellir tybio bod eu hymwybyddiaeth o effaith ryngwladol yn gyfyngedig. Mae hyn felly'n tanseilio dilysrwydd y casgliad hwnnw.

Mae gwerthusiad Lumiere 2015 yn cynnig lefel o sicrwydd ansoddol, drwy ei ddefnydd arloesol o Fesuryddion Ansawdd (Cyngor Celfyddydau Lloegr) i gyfleu gwerth artistig cynhenid digwyddiadau a gwyliau. Mae'r canlyniadau'n elwa ar ddriongli'r artist, y trefnydd a safbwyntiau'r cyhoedd i gasglu bod yr ŵyl yn llwyddiannus wrth greu "effaith leol" a "brwdfrydedd" ynghylch y digwyddiad. Ond caiff hyn ei danseilio rywfaint gan mai dim ond dau o'r ymatebwyr oedd yn artistiaid (lle'r oedd n=72), felly rhaid bod yn ofalus rhag goramcangyfrif llwyddiant artistig y digwyddiad hwn. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod defnyddio'r dull Mesuryddion Ansawdd yn cynnig dull safonedig o asesu gwerth artistig, ac felly gellid ei ddefnyddio'n ehangach i gynnig mwy o gywirdeb yn yr hyn y tybir ei fod yn faes gwerthuso goddrychol.

## EFFAITH YMDEIMLAD O LE/PROFFIL

Mae rhai o'r testunau yn yr adolygiad hwn yn gwerthuso dylanwad cadarnhaol allbynnau artistig a diwylliannol ar y rhanbarth daearyddol y maent wedi'u lleoli ynddo. Mae Gwerthusiad o'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a'i Effaith ar Symudedd Celfyddydau a Gweithwyr Proffesiynol Diwylliannol yng Nghymru gan On the Move (2013) yn amlinellu bod cyllid i artistiaid wedi helpu i "godi ymwybyddiaeth a diddordeb ar gyfer celfyddydau Cymru dramor". Caiff yr effaith ryngwladol gadarnhaol hon hefyd ei hatseinio gan adroddiad Ymchwil Arad (2015) i bresenoldeb artistiaid Cymru yn Biennale Fenis, ac mae'r ddau adroddiad yn debyg o ran casglu data arolwg, ac yn achos y cyntaf, cyfradd ymateb arbennig gyda thros 30% o dderbynwyr grantiau yn cyfrannu at y gwerthusiad.

Mae Gwerthusiad Lumiere 2015 (2016), o gymharu, yn canolbwyntio ar ronynogrwydd Durham yn hytrach nag effaith genedlaethol/ryngwladol. Mae 90% o ymatebion yr arolwg graddfa fawr yn dangos bod ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r defnydd o leoliadau eiconig a lleol, sy'n cyfrannu at "falchder dinesig ac ymdeimlad o le". Roedd Gŵyl Ryngwladol Manceinion yn asesu'r effaith hon, ac roedd 82% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad bod yr Ŵyl yn gwneud Manceinion yn lle gwych i fyw, i weithio ac i astudio. Dylai cryfder yr ymatebion lleol hyn fod yn arwydd o effaith bosibl gwyliau cenedlaethol yng Nghymru.

## EFFAITH RYNGWLADOL

Anogir digwyddiadau diwylliannol ac artistig i dyfu cynulleidfa fyd-eang ac i allforio'r canlyniadau artistig, sy'n golygu bod rhyngwladoli'n bwyslais gan lawer o'r gwerthusiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr arolygiad hwn. Mae Edinburgh Festivals: Thundering Hooves 2.0 (2015) yn canolbwyntio ar werthuso rhaglen wreiddiol Thundering Hooves o gwmpas safle'r ŵyl drwy nodau marchnata byd-eang, cludiant, addysg a chynaliadwyedd. Er bod yr adroddiad yn gadarnhaol am dwf rhyng-gyfandirol Dinas Gŵyl Caeredin, mae'r adroddiad yn cynnwys neges rybudd o ran cydbwyso'r berthynas rhwng y profiad byw a'r profiad digidol, gan ddweud bod angen "dull cytûn ar gyfer llwyfannau digidol a'r brand digidol" (tudalen 12). Gallai'r angen hwn i ehangu ymwybyddiaeth ryngwladol drwy farchnadoedd digidol rhyngwladol ddod â chynulleidfa rithwir newydd i'r ŵyl. Mae hyn yn bwysig, ond rhaid ei gydbwyso â dilysrwydd (a gwariant economaidd) presenoldeb corfforol yn yr Ŵyl.

Caiff yr ymgais hon i ryngwladoli hefyd ei chynrychioli yn nigwyddiad WOMEX 13, wrth i 300 o artistiaid o bron i 100 o wledydd ddod yno. Mae adroddiad Cerdd Cymru Music Wales (2014) yn tystio cyrhaeddiad rhyngwladol wrth asesu'r rhaglen ddatblygu artistiaid, lle gwnaeth 58 o bobl o Gymru gais i arddangos yn y digwyddiad a lle ymgysylltwyd â Phecyn Gwasg Electronig (EPK) Sonic Bids. Gwnaed yr awydd hwn i farchnata artistiaid yn rhyngwladol yn gynaliadwy gan yr EPKs, gan eu bod hefyd ar gael at ddibenion cyhoeddusrwydd ar gyfer SXSW a Chynghrair Werin Gogledd America.

Caiff materion sicrhau adnoddau ar gyfer datblygiad a symudedd artistig yn rhyngwladol eu trafod yn fanwl yn yr adroddiad 'On the Move' am Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol (2013). Mae'r gwerthusiad yn amlinellu bod sefydliadau rhyngwladol sy'n cyflwyno artistiaid o Gymru wedi profi nifer o effeithiau, o rwydweithio i ddatblygiad proffesiynol, ochr yn ochr â datblygu cynulleidfa a phroffil uwch o Gymru'n rhyngwladol. Eto, heb ystyried y materion methodolegol a nodwyd yn flaenorol, mae awduron yr adroddiad yn amlygu bod "rhai" cyfranogwyr yn cael trafferthion o ran "heriau yn cadw cysylltiad â rhai artistiaid a gweithwyr proffesiynol ar ôl iddynt ddychwelyd i Gymru" (tudalen 4). Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y dylid datblygu a darparu adnoddau ar gyfer rhwydwaith cydweithio rhyngwladol i sicrhau ei bod yn gynaliadwy er mwyn cefnogi gŵyl fyd-eang newydd.

I gloi, mae European Capitals of Culture (ECoC): Success Strategies and Long Term Effects (Beatrix Garcia, 2013) yn awgrymu y gall mentrau fel ECoC fod yn sbardun ar gyfer newid delwedd ddiwylliannol a chymdeithasol ardal. Mae hyn, yn ôl Garcia, wedi caniatáu i Glasgow 1990, Lille 2004, a Lerpwl 2008 newid eu delwedd yn llwyddiannus iawn. Gallai effaith gŵyl ddiwylliannol ryngwladol, neu gyfres o ddigwyddiadau portffolio byd-eang, newid meddyliau o ran sut edrychir ar Gymru a diwylliant a chelf Cymru yn ystradebol, yn unol â'r profiad ECoC.

## CRYNODEB

Prif ganfyddiadau'r adolygiad hwn yw bod, y dulliau ar gyfer asesu effaith economaidd yn eang ac yn amrywiol yn fethodolegol. Mae peryglon hefyd wrth ddefnyddio dulliau asesu effaith â'r sector diwylliannol. Gall dull cadarn o gasglu data a modelu oresgyn rhai o'r rhain, ond mae effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn dal i fod yn anodd eu casglu a'u mesur mewn ffordd a gaiff ei derbyn yn gyffredinol ac sy'n defnyddio technegau y gellir eu hailadrodd ar draws y sector.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn yn amlinellu dau fodel posib, eventIMPACT a model amcangyfrifedig rhanbarthol BIS, y gellir eu defnyddio â chysondeb i asesu gŵyl ryngwladol newydd. Mae cynnwys mesuriad cyfwerth â gwerth hysbysebu (AVE) o effaith ariannol amcangyfrifedig y rhaglenni hyn yn agored i niferoedd chwyddedig, a dylid eu cynnwys â gofal mewn cyfansymiau economaidd.

Yr allbynnau a'r mesurau addysgol yn y llenyddiaeth gwerthuso sy'n darparu'r model arferion gorau mwyaf syml. Mae Gŵyl y Gelli a gŵyl Lumiere yn defnyddio presenoldeb fel mesuriad cywir o ymgysylltiad ag addysg, ac er gwaetha'r diffyg data a gasglwyd ynghylch budd i'r dysgwr neu'r wybodaeth a gafwyd, mae data cyfranogiad yn llinell sylfaen dda i'w defnyddio'n hydredol.

Yng Ngwerthusiad 2015 o Ŵyl Lumiere defnyddir dull arall y gellir ei ailadrodd o gasglu data ansoddol o ran effaith artistig, gan ddefnyddio'r system Mesuryddion Ansawdd. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi mabwysiadu'r model hwn, ac felly mae modd cymharu'r broses a'r canlyniadau a'u defnyddio'n eang ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cyllido gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Dylid ystyried mabwysiadu'r dull casglu ymchwil hwn ar gyfer astudiaethau gwerthuso eraill o'r natur hwn yn y dyfodol.

Yn olaf, mae'r effeithiau rhyngwladol a archwiliwyd yn yr adolygiad hwn yn cyflwyno dau brif ganfyddiad ar gyfer cynnal a gwerthuso digwyddiadau yn llwyddiannus yn y dyfodol. Yn gyntaf, bod monitro presenoldeb artistiaid rhyngwladol ac ymwelwyr yn faromedr ymgysylltu defnyddiol (gweler WOMEX 13), ac yn olaf, y gall digwyddiad diwylliannol ar raddfa fawr megis ECoC greu newid hirdymor o ran canfyddiad o ddelwedd.

# DIOLCH I

John Barker, ymgynghorydd ymchwil annibynnol

Rosa Bickerton, Swyddog Celfyddydau, British Council Cymru

Rebecca Gould, Pennaeth Celfyddydau, British Council Cymru

Yr Athro Brian Morgan, Cyfarwyddwr Canolfan Arweinyddiaeth a Menter Greadigol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Jude Rosenberg, Rheolwr Prosiect Ymchwil, Visiting Arts

Sophia Victoria, Pennaeth Rhaglenni a Datblygu, Visiting Arts

Aelodau'r Grŵp Llywio

© British Council 2018

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.